

HC 432

# 2020-21

Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon**

ofgem

Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol
**i ddefnyddwyr ynni**

ofgem

Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol
**i ddefnyddwyr ynni**

# 2020-21

## Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

(Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021)

Cyflwynwyd y cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol i Dŷ'r Cyffredin drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 14 Gorffennaf 2021

HC 432

OGL

© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r cyhoeddiad hwn yn drwyddedig o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall.

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth yn hawlfraint i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i'r cyfeiriad canlynol: Ofgem, 10 South Colonnade, Canary Wharf, London, E14 4PU.

ISBN 978-1-5286-2535-7

CCS0421423088 07/21

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


Rhagair y Cadeirydd ........ 6

Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol ........ 7

## Adroddiad ar berfformiad ........ 9

## Adroddiad ar Atebolrwydd ........ 30

## Adroddiad ar atebolrwydd seneddol ac archwiliad ........ 59

## Cyfrifon adnoddau ........ 68

## Datganiad ymddiriedaeth ........ 88

## Atodiadau

Atodiad I - Dangosyddion Perfformiad Allweddol ........ 103

Atodiad II – Ymchwiliadau a chamau gorfodi 2020-21 ........ 105

Atodiad III – Cyflogeion nad ydynt ar y gyflogres ........ 113

Atodiad IV – amser cyfleuster undeb llafur ........ 114

Atodiad V – Trefniadau statudol o dan Adran V o Ddeddf Cyfleustodau 2000 ........ 115

# Rhagair y Cadeirydd
## Martin Cave

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd newidiadau sylweddol ym mhob rhan o gymdeithas ac yn y diwydiant ynni, wrth i ni wynebu'r her o gefnogi ein gilydd drwy'r pandemig.

Hoffwn gyfleu fy ngwerthfawrogiad i a Bwrdd Ofgem o'r gwaith a wnaed gan y cwmnïau ynni i gefnogi defnyddwyr ynni drwy'r pandemig, yn enwedig gan staff rheng flaen sy'n gweithio i sicrhau bod ein cartrefi a'n busnesau yn parhau i gael yr ynni rydym yn dibynnu arno fel gwasanaeth hanfodol.

Rydym yr un mor ddiolchgar hefyd i'n staff ein hunain, sydd wedi bod yn gweithio'n galed ac yn effeithiol iawn drwy gydol y flwyddyn, a hynny'n bennaf i ffwrdd oddi wrth ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Glasgow a Llundain, mewn amodau heriol mewn sawl achos. Mae gan Ofgem, fel rheoleiddiwr, ddwy her yr un mor bwysig â'i gilydd – i ddiogelu defnyddwyr heddiw er mwyn sicrhau eu bod yn cael chwarae teg, ac i ddiogelu defnyddwyr yn y dyfodol drwy fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r pandemig a'r angen dybryd i ddatgarboneiddio ein system ynni yn parhau i roi mwy o ffocws ar yr heriau hyn.


Mae Bwrdd Ofgem yn llwyr ymrwymedig i sicrhau statws sero net. Yn ein Blaenraglen Waith ddrafft ar gyfer 2021-22, amlinellwyd pum rhaglen strategol yn nodi'r ffordd y byddwn yn helpu i sicrhau statws sero net am y gost isaf, er mwyn helpu i lywio'r system ynni yn y dyfodol a sicrhau newid gwirioneddol er budd defnyddwyr.

Er gwaethaf y cyfyngiadau symud y flwyddyn hon, mae'r Bwrdd a minnau wedi parhau i ymgysylltu drwy ddulliau rhithwir er mwyn cadw mewn cysylltiad â materion defnyddwyr a rhanddeiliaid ledled Prydain Fawr, yn ogystal â chynnal sesiynau gwerthfawr â chynrychiolwyr llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig.
Rydym hefyd wedi sefydlu cynllun trawsnewid mewnol uchelgeisiol, gan gydnabod bod yn rhaid i ni newid wrth i'r sector drawsnewid o'n cwmpas. Rwy'n hyderus y bydd y newidiadau a wnawn yn ein helpu i greu rheoleiddiwr ynni cyflymach a gwell ar gyfer y 21ain ganrif.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gadawodd Ann Robinson Fwrdd Ofgem. Bu Ann yn aelod gwerthfawr iawn o'r Bwrdd a gyfrannodd lawer o brofiad mewn polisi ynni a pholisi defnyddwyr. Rydym yn ddiolchgar i Ann am ei chyfraniad a'i hymroddiad i'w rôl fel hyrwyddwr defnyddwyr ynni – a dymunwn yn dda iddi yn y dyfodol.

Wrth i ni edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod, mae llawer o gyffro ynghylch y ffaith y cynhelir Cynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd – COP26 – yn y DU. Bydd hwn yn gyfle pwysig i ddangos arweinyddiaeth o ran yr hinsawdd, ac mae Ofgem yn gweithio'n agos gyda'r llywodraeth a rheoleiddwyr tramor ar fentrau i greu gwaddol parhaol a sicrhau 'gweithredu yn y byd go iawn' hyd at y gynhadledd ac ar ôl hynny.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda phob un ohonoch i barhau i gefnogi defnyddwyr drwy'r cyfnod heriol hwn – ac i achub ar y cyfleoedd yn y flwyddyn allweddol sydd i ddod.



**Martin Cave**
Cadeirydd



# Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol Jonathan Brearley

Mae bellach ychydig dros flwyddyn ers i mi ymgymryd â rôl Prif Weithredwr Ofgem. Mae wedi bod yn flwyddyn eithriadol – un sydd wedi gadael ei hôl ar bob un ohonom mewn cymaint o ffyrdd.

Rwy'n hynod falch o'n gwaith â'r llywodraeth a diwydiant i ddiogelu defnyddwyr yn ystod y pandemig – ac, unwaith eto, hoffwn dalu teyrnged i bawb a fu'n gweithio yn y diwydiant ynni drwy gydol y cyfnod hwn. Rwyf wedi gweld ysbryd cydweithio gwych a ffocws ar yr hyn sydd wir o bwys – diogelu defnyddwyr, yn enwedig y rhai sydd mewn sefyllfa fregus, a sicrhau bod gwaith hanfodol yn cael ei wneud i gynnal cyflenwadau ynni.

Mae ein prif amcan yr un fath, sef: diogelu buddiannau defnyddwyr heddiw ac yn y dyfodol. Rydym wedi cymryd nifer o gamau gweithredol allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn cyflawni hyn.

## Diogelu defnyddwyr

Mae llawer o'r mesurau amddiffyn cryfach a roddwyd ar waith ar ddechrau'r pandemig bellach wedi'u gwneud yn barhaol, fel gofynion i gyflenwyr roi cwsmeriaid sydd mewn dyled ar gynlluniau ad-dalu priodol yn seiliedig ar eu gallu i dalu, a rheolau i gyflenwyr gynnig credyd brys i gwsmeriaid sy'n cael trafferth ychwanegu credyd i'w mesurydd rhagdalu. Rydym hefyd yn ymgynghori ar gynigion i gyfyngu ar faint o falansau credyd cwsmeriaid a ddelir gan gyflenwyr, a all olygu bod cymaint ag £1.4bn yn cael ei ddychwelyd i ddefnyddwyr.

Ar draws y system ynni, rydym wedi parhau i ddiogelu cwsmeriaid drwy ein camau cydymffurfiaeth a gorfodi parhaus, yn ogystal â sicrhau bod mesurau diogelu ar waith ar gyfer defnyddwyr sydd mewn sefyllfa fregus, er mwyn hyrwyddo'r safonau uchel a'r gwasanaethau y mae defnyddwyr yn eu disgwyl o wasanaeth hanfodol.

## Cynnal sicrwydd cyflenwad a buddsoddi ar gyfer y dyfodol

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r sector er mwyn cynnal sicrwydd cyflenwad drwy gydol y pandemig ac rydym yn parhau i fonitro ac asesu perfformiad Gweithredwyr Gwasanaethau Hanfodol nwy a thrydan yn ein rôl ar y cyd fel Awdurdod Cymwys gyda'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddwyd ein Penderfyniadau Terfynol ar gyfer systemau rheoli prisiau'r rhwydwaith trawsyrru trydan a nwy. Maent yn darparu £30 biliwn o fuddsoddiad ymlaen llaw ar gyfer system ynni werddach a thecach, gyda chyllid ychwanegol digynsail ar gael ar gyfer prosiectau ynni gwyrdd yn y dyfodol, ynghyd â chadw costau mor isel â phosibl ar gyfer defnyddwyr a chynnal y lefelau gorau o wasanaeth a dibynadwyedd.

Wrth i ni edrych i'r dyfodol, mae momentwm gwirioneddol y tu ôl i gynlluniau ar gyfer adferiad gwyrdd ac yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi buddsoddiad o £300 miliwn mewn mwy na 200 o brosiectau carbon isel, i sicrhau bod Prydain yn barod ar gyfer mwy o drawsyrru trydan a gwres. Mae hyn yn ychwanegol at y £40 biliwn o fuddsoddiad yn ein rhwydweithiau ynni, er gyfer ynni diogel a glân, gyda mwy i ddilyn yn 2022.

## Hwyluso sero net ar y gost isaf i ddefnyddwyr

Roedd yn wych gweld record newydd yn ddiweddar ar gyfer y diwrnod gwyrddaf erioed o ran cynhyrchu trydan, pan mai dim ond 39g o garbon deuocsid a gynhyrchwyd am bob cilo-watt awr o drydan mewn gorsafoedd pŵer ym Mhrydain Fawr; y lefel isaf ers dechrau cadw cofnod yn 1935[1].

Ond gwyddom y bydd newidiadau fel trydaneiddio gwers a thrafnidiaeth, nifer mawr o bobl yn newid i gerbydau trydan a defnyddio ffynonellau gwers amgen yn arwain at heriau sylweddol ac yn galw am newidiadau system gyfan a buddsoddiadau ynni newydd. Yn yr un modd, bydd y newidiadau hyn yn cynnig cyfleoedd anhygoel i symud i system ynni fwy hyblyg, fwy deallus a mwy datganoledig gyda chostau is, cynhyrchion newid a chanlyniadau gwell i ddefnyddwyr.

Yn ein Blaenraglen Waith ar gyfer 2021-22, amlinellwyd pum rhaglen strategol lle rydym yn credu bod angen newid a lle gallwn gael yr effaith fwyaf o ran sicrhau'r trawsnewid sero net er budd defnyddwyr ynni.

Mae un o'r pum rhaglen yn canolbwyntio ar yr angen i sicrhau bod y broses o lywodraethu'r system ynni yn

[1] Gweithredwr System Trydan y Grid Cenedlaethol (39% o ynni'r gwynt, 21% o ynni'r haul, 16% o ynni niwclear)

addas at y diben.Dyna pam y gwnaethom argymell i'r llywodraeth y flwyddyn hon y dylid sefydlu Gweithredwr System Annibynnol i arwain trawsnewidiad gwyrdd y DU, gan wahanu'r broses o redeg y system drydan oddi wrth y Grid Cenedlaethol yn llwyr.

Rydym hefyd wedi parhau i redeg cynlluniau'r llywodraeth sy'n cefnogi datgarboneiddio a rhai o'r bobl sydd yn y sefyllfa fwyaf bregus mewn cymdeithas. Ar ôl bron i ddeng mlynedd mae'r cynllun Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Annomestig (NDRHI), y mae Ofgem yn ei weinyddu ar ran y llywodraeth, wedi rhoi'r gorau i dderbyn ymgeiswyr newydd. Mae wedi chwarae rôl allweddol wrth helpu i ddechrau'r broses heriol o ddatgarboneiddio prosesau cynhyrchu gwres, ac rydym bellach yn gweithio gyda'r llywodraeth ar y gwaith o ddatblygu dau gynllun gwres gwyrdd newydd a fydd yn adeiladu ar gynnydd cynllun NDRHI.

## Trawsnewid Ofgem

Ni fyddai dim o'r gwaith hwn wedi bod yn bosibl heb ymroddiad, ymrwymiad ac arbenigedd pobl Ofgem, y mae'n bleser gennyf gydweithio â nhw. Wrth gwrs, gwyddom er mwyn dal i fyny â sector sy'n trawsnewid mor gyflym, yn ogystal â pharhau i wneud y pethau rydym yn eu gwneud yn dda, ei bod yn hanfodol i ni hefyd addasu er mwyn wynebu heriau'r dyfodol.

Fel rhan allweddol o'r trawsnewidiad hwn, rydym wedi dwysáu ein hymdrechion i sicrhau bod gan Ofgem – yn ogystal â'r sector ynni ehangach – weithluoedd amrywiol a chynhwysol sy'n cynrychioli'r defnyddwyr a wasanaethir gennym yn well. Felly, mae Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi bod yn ffocws allweddol i'n gwaith ymgysylltu y flwyddyn hon. Daethom yn bartner ym Mhrosiect Cydraddoldeb 50/50 y BBC gyda'r nod o fonitro a sicrhau cydraddoldeb o ran cynrychiolaeth yn ein holl gynnwys a gwaith ymgysylltu a gwnaethom lansio'r Cyfeiriadur Siaradwyr Amrywiol ynghyd ag Energy UK a Cyngor ar Bopeth, sef cyfeiriadur sy'n hyrwyddo siaradwyr allanol ym maes ynni o gymunedau ethnig lleiafrifol. Ym mis Ebrill 2021, roedd yn bleser gennym, ar y cyd ag Energy UK, gynnal ein cynhadledd flynyddol gyntaf ar Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant, gyda'r nod o sicrhau newidiadau cadarnhaol ym mhob rhan o'r sector ynni.

Rydym wedi bod yn gwella ein prosesau gweithredol mewn meysydd fel cyllid, adnoddau dynol a rheoli risg er mwyn rhoi sicrwydd cryfach bod ein gwaith yn cael ei reoli'n dda a'i fod yn cyd-fynd â'r arferion gorau ar gyfer rheoli cronfeydd cyhoeddus. Er bod y rhain wedi arwain at welliannau cadarnhaol, mae meysydd o'n gwaith llywodraethu, rheoli risg a'n fframwaith rheoli rydym yn bwriadu eu hatgyfnerthu ymhellach yn y flwyddyn i ddod.

Fel rhan o'r newidiadau ehangach hyn, roedd yn bleser gennym groesawu rhai cydweithwyr newydd i Ofgem dros y flwyddyn ddiwethaf, yn cynnwys Neil Kenward, Charlotte Ramsay, Richard Smith, Simon Wilde a Priya Brahmbhatt-Patel, sydd wedi ymuno â thîm arwain gweithredol Ofgem.

Rydym hefyd wedi ffarwelio â nifer o gyn-gydweithwyr ardderchog. Er na allaf dalu teyrnged i bob un yma, hoffwn ddiolch yn arbennig i Mary Starks, Patricia Dreghorn, Anthony Pygram, Frances Warburton, Euan McVicar, David Ashbourne a Carola Geist-Divver – y mae pob un ohonynt wedi gwneud cyfraniad eithriadol i waith Ofgem ar ran defnyddwyr ynni.

## Y flwyddyn sydd i ddod

Gan edrych ymlaen, bydd COP26 yn fforwm hanfodol i lywio'r ymdrech fyd-eang i fynd i'r afael â'r her amgylcheddol. Mae Ofgem yn benderfynol o chwarae ei rhan, yn cynnwys drwy helpu i ddwyn ynghyd ein cymheiriaid rhyngwladol a diwydiant er mwyn datblygu'r agenda sero net.

Dylai pob un ohonom fod yn falch o weithio mewn diwydiant sy'n arwain y gwaith o gyflwyno'r newidiadau pwysig hyn dros bobl a'r blaned – ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi yn y flwyddyn sydd i ddod er mwyn gwneud rhagor o gynnydd.



**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr



# Adroddiad ar berfformiad

## Trosolwg 2020-21

### Fframwaith strategol newydd Ofgem

Mae'r system ynni yn mynd drwy drawsnewidiad sylweddol wrth i ni symud i economi sero net, gyda thwf cyflym mewn ynni adnewyddadwy, trydaneiddio ceir, a datgarboneiddio gwres, ynghyd â'r cyfleoedd cynyddol sy'n deillio o system fwy hyblyg, sy'n defnyddio data. Mae gan Ofgem rôl bwysig i'w chwarae yn arwain y trawsnewidiad hwn, gan gyflwyno system ynni fwy deallus a gwyrddach er budd defnyddwyr ynni a'r hinsawdd.

Gan adeiladu ar y blaenoriaethau a nodwyd yn ein Naratif Strategol ar gyfer 2019-2023, yn ystod 2020 gwnaethom ddatblygu a chyhoeddi Fframwaith Strategol newydd. Gwnaethom geisio adborth gan randdeiliaid drwy gydol y broses ddatblygu, a gadarnhaodd lefelau uchel o gefnogaeth i'r cyfeiriad strategol newydd a'r blaenoriaethau a nodwyd gennym.

Mabwysiadwyd ein Fframwaith Strategol yn ffurfiol ym mis Rhagfyr 2020, ac ailbwysleisiodd ein cyfrifoldeb rheoleiddio craidd i ddiogelu defnyddwyr a chyflwyno cynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol y llywodraeth, gan bennu pum rhaglen newid strategol newydd, lle gall Ofgem sicrhau'r effaith fwyaf i ddiogelu buddiannau defnyddwyr a'r hinsawdd. Ein rhaglenni newid strategol yw:

**Seilwaith Carbon Isel**
Hwyluso buddsoddiad mewn **seilwaith carbon isel** am gost deg.

**Hyblygrwydd y Gadwyn Gyflawn**
Sicrhau **hyblygrwydd y gadwyn gyflawn** o ran y ffordd rydym yn cynhyrchu, yn defnyddio ac yn storio ynni.

**Marchnad Fanwerthu yn y Dyfodol**
Darparu **marchnad fanwerthu yn y dyfodol** sy'n gweithio dros bob defnyddiwr a'r blaned.

**Llywodraethu Systemau Ynni**
Sicrhau bod trefniadau **llywodraethu systemau ynni**, gan gynnwys Ofgem, yn addas ar gyfer y dyfodol.

**Data a Digideiddio**
Gwireddu buddiannau **data a digideiddio.**

Fel gyda llawer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gwnaethom ailflaenoriaethu ein rhaglen waith ar gyfer 2020-21 yn sylweddol ym mis Ebrill 2020 oherwydd effaith argyfwng COVID-19. Ein blaenoriaeth yn ystod y cyfnod hwn oedd gweithio gyda'r llywodraeth, y diwydiant a grwpiau defnyddwyr i ddiogelu defnyddwyr, yn enwedig y rhai sydd mewn sefyllfa fregus, a dyna ein blaenoriaeth o hyd. Ond gwnaethom hefyd barhau i weithio er mwyn sicrhau buddiannau ehangach sy'n para am gyfnod hwy i ddefnyddwyr fel y nodir yn yr adroddiad hwn.

Mae ein hymrwymiadau i ddiogelu buddiannau defnyddwyr a'r hinsawdd yn cyd-fynd â chyhoeddiadau a datganiadau allweddol y llywodraeth ar ynni a'r hinsawdd, yn cynnwys Cynllun 10 Pwynt y Prif Weinidog a'r Papur Gwyn ar Ynni gyda'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, ac rydym yn cydweithio'n agos â'r llywodraeth wrth iddi ddatblygu a gweithredu ei chynlluniau.

Rydym wedi parhau i gyflawni ymrwymiadau a wnaed gennym yn ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio. Rydym hefyd wedi datblygu'r rhain yn ddull mwy strategol, gan ganolbwyntio ar y newidiadau sydd eu hangen i sicrhau system ynni wedi'i datgarboneiddio drwy ein rhaglenni newid strategol. Mae manylion y datblygiad hwnnw yn erbyn y camau gweithredu wedi'u nodi drwy'r adroddiad perfformiad hwn.

Parhaodd Ofgem hefyd i reoli risgiau yn ymwneud â threfniadau trawsffiniol ar gyfer diwedd cyfnod pontio proses y Deyrnas Unedig (y DU) o adael yr Undeb Ewropeaidd (yr UE). Gweithiodd Ofgem i sicrhau bod cynlluniau wrth gefn addas ar waith ar gyfer masnachu mewn trydan a aeth yn weithredol pan adawodd y DU y Farchnad Ynni Fewnol ar ddiwedd 2020. Rydym yn ymrwymedig o hyd i weithio gyda phartneriaid Ewropeaidd, y llywodraeth a rhanddeiliaid y diwydiant i geisio sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer defnyddwyr ynni o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng yr UE a'r DU a gyhoeddwyd ar 24 Rhagfyr 2020.

Ar ddiwedd mis Mawrth, cyhoeddwyd ein Blaenraglen Waith ar gyfer 2021-22, sy'n nodi'r gweithgareddau rydym yn bwriadu eu cyflawni er mwyn cefnogi ein rhaglenni newid strategol, yn ogystal â'n blaenoriaethau parhaus.

## Prif gyflawniadau yn 2020-21

**Buddiannau uniongyrchol cyfunol – cyfartaledd tair blynedd**

Mae Ofgem yn sicrhau gwerth sylweddol i ddefnyddwyr ynni. Ni ellir mesur llawer o hyn yn hawdd, ond rydym yn bwriadu gwneud hynny ar gyfer y penderfyniadau mawr a wneir gennym. Disgwyliwn y bydd y penderfyniadau mawr a wnaed gennym dros y tair blynedd flaenorol yn arwain at fuddiannau uniongyrchol gwerth mwy na £4.2 biliwn i ddefnyddwyr. O ystyried cost gyfartalog Ofgem o £108 miliwn, y gymhareb gyfatebol rhwng cost a buddiant yw 39. Mae hyn yn golygu ein bod yn disgwyl cyflawni buddiant o £39 ar gyfartaledd am bob £1 o'n costau.[2] Ymysg y penderfyniadau mawr rydym wedi eu mesur y flwyddyn hon drwy Asesiad Effaith ffurfiol mae Penderfyniadau Terfynol RIIO2 ac Amrywiadau Cap a Therfyn Isaf. Mae penderfyniadau Ofgem hefyd wedi galluogi amrywiaeth o fuddsoddiadau a fydd yn cefnogi ymdrechion pellach i ddatgarboneiddio'r sector ynni.

**3.2 miliwn** o fesuryddion deallus ac uwch wedi'u gosod yn y flwyddyn galendr 2020

Mwy na **£10 miliwn** ar gael drwy Gynllun Unioni Ynni ar gyfer cymorth drwy dalebau tanwydd

Buddiant o **£16.5 miliwn** i ddefnyddwyr o ganlyniad i fesurau diogelu gwarant mesurydd rhagdalu

Buddiant o **£1.5 miliwn** i ddefnyddwyr o ganlyniad i fesurau diogelu rhag hunanddatgysylltu

Ad-daliadau o ganlyniad i'r cap ar brisiau a diogelu prisiau wedi'u **sicrhau i fwy na miliwn o ddefnyddwyr**

- Pennu system rheoli prisiau ar gyfer rhwydweithiau trawsyrru nwy a thrydan a leihaodd y cyfraddau adenillion a ganiatawyd i gwmnïau rhwydwaith, gan arbed **£2.9bn** i ddefnyddwyr dros gyfnod pum mlynedd y system rheoli prisiau, ac a lwyddodd i ddatgloi **£30 biliwn** o fuddsoddiad newydd hefyd er mwyn galluogi datgarboneiddio a sicrhau cyflenwyr ynni cadarn
- **Cynyddodd capasiti rhyng-gysylltwyr i 6 gigawat** ar gyfer trydan, a bydd yn cynyddu ymhellach i **7.4 gigawat** yn 2021-22, gan helpu i leihau allyriadau carbon a chostau defnyddwyr
- **3.2 miliwn o fesuryddion deallus** ac uwch wedi'u gosod mewn cartrefi a busnesau bach (cyfanswm o 23.6 miliwn), gan wella ymgysylltiad defnyddwyr er mwyn lleihau biliau defnyddwyr a'r defnydd o garbon
- **Defnyddiodd 85 o arloeswyr ein gwasanaeth** 'Adborth Cyflym a Gonest' i ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd
- **Cymorth i'r diwydiant yn ystod argyfwng COVID-19** – caniatawyd i gyflenwyr a chludwyr ynni ohirio tua £65m o daliadau drwy gynllun Gohirio Taliadau Rhwydwaith
- **Cefnogodd y Cyswllt Arloesi** arloesedd o ran ynni a rhannodd ddirnadaethau â 18 o reoleiddwyr / cyrff ledled y byd
- **Cyhoeddwyd ein hadolygiad** o weithrediad y system ynni, a oedd yn ystyried a yw'r fframwaith llywodraethu cywir ar waith ar gyfer yr her sero net – argymhellodd y dylid rhoi mwy o gyfrifoldebau i weithredwyr system, a galwodd am sicrhau bod y gweithredwr system yn annibynnol ar berchennog y rhwydwaith trawsyrru
- **Fel rhan o'n gwaith gyda BEIS** ac Innovate UK (Moderneiddio Data Ynni), gwnaethom gynnal tri gweithdy Arferion Gorau o ran Data i'r diwydiant gyda'r Ganolfan Gatapwlt Systemau Ynni
- **Gwnaethom gyhoeddi canllawiau** a galw ar gwmnïau ynni i lunio a chyhoeddi eu strategaethau a'u cynlluniau gweithredu ar ddigideiddio

[2] Rydym yn defnyddio cyfartaledd tair blynedd i lyfnhau amrywiadau sydyn mewn penderfyniadau a wneir o flwyddyn i flwyddyn. Ceir rhagor o fanylion yn yr adran methodoleg yn yr Adroddiad ar yr Effaith ar Ddefnyddwyr t.42 https://www.ofgem.gov.uk/system/files/docs/2020/07/2020_cir_final.pdf

## Crynodeb manwl o berfformiad a chyflawniadau – 2020-21

Ym mhob adran o'r adroddiad, rydym wedi nodi'r ffordd y gwnaeth y gweithgareddau a gynhaliwyd gennym yn ystod y flwyddyn gyfrannu at ein rhaglenni strategol newydd, yn unol â'n prif amcan o ddiogelu buddiannau defnyddwyr ynni heddiw ac yn y dyfodol. Mae pob adran wedi'i his-rannu ymhellach yn ôl y canlyniadau i ddefnyddwyr y mae ein gweithgarwch wedi cyfrannu atynt yn ystod 2020-21.

# Seilwaith carbon isel

Drwy'r rhaglen newid strategol hon, ein nod yw sicrhau buddsoddiad mewn **seilwaith carbon isel am gost deg.** Isod, rydym wedi nodi'r ffordd y mae ein gweithgareddau – y rheini sy'n cyflawni'n uniongyrchol tuag at ein rhaglen newid, a'n gweithgareddau rheoleiddio craidd – a gyflawnodd ganlyniadau sy'n ein helpu i gyrraedd y nod strategol hwn.

### Gwerth strategol mesurau rheoli prisiau RIIO-2 yn dod yn weithredol

Drwy gydol 2020-21, gwnaethom barhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid ar y broses o ddatblygu ein systemau rheoli prisiau ail genhedlaeth (RIIO-2). Mae Ofgem yn rheoli fframwaith ar sail perfformiad – RIIO – i bennu systemau rheoli prisiau ar gyfer y rheini sy'n berchen ar ein monopolïau rhwydwaith trydan a nwy ac sy'n eu gweithredu, er mwyn sicrhau y gallant redeg y rhwydweithiau'n effeithiol, wrth gyflawni'r hyn sydd ei angen ar ddefnyddwyr. Mae fframwaith RIIO yn seiliedig ar Refeniw = Cymhellion + Arloesedd + Allbynnau. Am ragor o wybodaeth am y fframwaith, ewch i'n gwefan.

### Systemau rheoli prisiau – cyflwyniad

**£30bn** o fuddsoddiad ymlaen llaw ar gyfer system ynni werddach a thecach

**£660m** o gyllid arloesi ar gyfer ynni gwyrdd a defnyddwyr mewn sefyllfaoedd bregus

**£3bn** o gyllid ymlaen llaw ar gyfer prosiectau ynni gwyrdd a hwyluso sero net

**£2.3bn wedi'i arbed** wrth i gost cyfalaf leihau, ac wrth i newidiadau gael eu gwneud i lwfansau

**£60** twedi'i dalu i ddefnyddwyr domestig am bob 24 awr pan nad ydynt yn defnyddio nwy

**£10bn** o gyllid pellach posibl ar gyfer prosiectau ynni gwyrdd yn y dyfodol i helpu i sicrhau allyriadau sero net

**£10** o ostyngiad mewn taliadau rhwydwaith ar filiau o 2021

**15,500 KM** o bibellau plastig mwy diogel wedi'u gosod yn lle rhai haearn

**£132m** o gyllid i gefnogi defnyddwyr mewn sefyllfaoedd bregus

**Aeth pedair system rheoli prisiau RIIO yn fyw ym mis Ebrill 2021, yn cwmpasu:**

- **dosbarthu a thrawsyrru nwy**
- **trawsyrru trydan**
- **Gweithredu'r System Ynni (Ceir rhagor o fanylion yn yr adran ar Lywodraethu'r System Ynni).**

Dros y cyfnod rheoli prisiau nesaf (2021-22 i 2025-26), rydym yn disgwyl y bydd ein Penderfyniadau Terfynol ar gyfer y sectorau dosbarthu nwy, trawsyrru nwy a thrawsyrru trydan yn sicrhau buddiannau net o hyd at £2.9 biliwn i ddefnyddwyr.

Mae RIIO-2 yn cynnwys 'opsiynau ailagor' a 'dulliau ansicrwydd' sydd, er enghraifft, yn galluogi buddsoddiad ychwanegol mewn prosiectau sy'n dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod rheoli prisiau. Mae ein hopsiynau ailagor yn sicrhau bod cwmnïau rhwydwaith yn buddsoddi'n effeithlon ac y gallwn addasu i newidiadau mewn technoleg a pholisi, yn benodol, gan sicrhau eu bod yn cefnogi'r llwybr i sero net, wrth iddo ddod yn gliriach (Cam Gweithredu 1 o'r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio).

Rydym yn sefydlu'r Gronfa Arloesedd Strategol er mwyn sicrhau mai ffocws cyllid yw mynd i'r afael â'r heriau mwyaf yn y broses o drawsnewid ynni (Cam Gweithredu 2 o'r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio). Yn ogystal, rydym wedi dyrannu gwariant presennol ar arloesedd rhwydwaith i alluogi treialon hydrogen mewn rhwydweithiau, i geisio galluogi hydrogen fel system ynni carbon isel bosibl, ac i lywio penderfyniadau'r Llywodraeth ar wres (Cam Gweithredu 4 o'r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio).

Rydym hefyd, mewn ymgynghoriad â'r sector a rhanddeiliaid eraill, wedi bod yn datblygu ein canllawiau ar gyfer y cyfnod rheoli prisiau dosbarthu trydan nesaf (RIIO-2 ED) a fydd yn rhedeg o fis Ebrill 2023 i 2028. Bydd Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu, sy'n cludo trydan o amgylch cartrefi a busnesau Prydain, yn chwarae rhan bwysig wrth iddynt ehangu i reoli ffynonellau newydd o alw ar gyfer anghenion gwresogi trydan a chludiant, ac wrth i ni weld cynnydd yn lefelau'r trydan a gaiff ei gynhyrchu a'i storio gan gartrefi a busnesau.

## Nodir effaith systemau rheoli prisiau RIIO-1 a chydymffurfiaeth â nhw

Ym mis Mawrth 2021, gwnaethom gyhoeddi adroddiadau blynyddol 2019-20 ar berfformiad a chyllid ar gyfer cwmnïau rhwydwaith dosbarthu trydan, dosbarthu nwy, trawsyrru trydan a thrawsyrru nwy yn erbyn ein systemau rheoli prisiau RIIO-1 cenhedlaeth gyntaf.

Rydym yn cydnabod bod costau cyffredinol fframwaith RIIO-1 i ddefnyddwyr wedi bod yn rhy uchel a bod angen gwersi a newidiadau o ran ein dull o bennu cyllidebau costau, targedau cymhelliad, a'r fethodoleg ar gyfer pennu'r enillion y gall buddsoddwyr ecwiti eu cyflawni. Rydym yn derbyn yr argymhellion yn adolygiad o rwydweithiau trydan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn llawn, a gwnaed cynnydd sylweddol ar y broses o'u rhoi ar waith drwy ddyluniad systemau rheoli prisiau RIIO-2 a ddatblygwyd yn benodol i fynd i'r afael â'r gwendidau yn y genhedlaeth gyntaf o systemau rheoli prisiau.

# Rhwydweithiau trydan yn cynnig gwerth am arian

## Rhyng-gysylltwyr


Rhwydwaith o geblau tanfor yw rhyng-gysylltwyr, sy'n ein galluogi i gyfnewid trydan â gwledydd cyfagos. Mae'r hyblygrwydd hwn yn helpu i gadw costau'n isel i ddefnyddwyr, yn cefnogi sicrwydd cyflenwad, a gall sicrhau ffynhonnell ddefnyddiol o drydan carbon isel. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried cais i amrywio ein cyfundrefn 'Cap a Therfyn Isaf' gan Greenlink a NeuConnect, a fyddai'n eu galluogi i ddenu ffynonellau amgen o gyllid i ariannu'r gwaith o adeiladu a gweithredu eu prosiectau. Gwnaethom amcangyfrif yn flaenorol y byddai'r ddau brosiect sy'n ceisio amrywio'r gyfundrefn yn cynhyrchu tua £891 miliwn mewn buddiannau i ddefnyddwyr ym Mhrydain Fawr. Drwy gymeradwyo'r amrywiadau, rydym yn ceisio sicrhau'r buddiannau gorau posibl i ddefnyddwyr, gan leihau risgiau ychwanegol iddynt. Ceir rhagor o wybodaeth am rwydwaith rhyng-gysylltwyr Prydain Fawr a'r gyfundrefn 'Cap a Therfyn Isaf' ar ein gwefan.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom hefyd ddechrau adolygu polisïau i ganfod a oes angen mwy o gapasiti rhyng-gysylltwyr, y tu hwnt i'r cysylltiadau a gymeradwywyd eisoes. Mae gwaith cychwynnol yn awgrymu bod yr achos dros gael rhagor o ryng-gysylltwyr yn gryf, a byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad yn ystod haf 2021.

## Trawsyrru alltraeth

Parhaodd Ofgem i gynnal prosesau tendro ar gyfer perchnogaeth asedau perchnogion gweithrediadau trawsyrru alltraeth a'r broses o'u rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn. Mae'r gystadleuaeth a grëir drwy ein prosesau tendro yn ysgogi costau is, gan sicrhau arbedion sylweddol i ddefnyddwyr.

Rydym hefyd, ar y cyd â'r llywodraeth a'r diwydiant, yn ystyried cyfleoedd am fwy o gydgysylltu er mwyn ei gwneud yn bosibl i grid ar y môr gael ei ehangu'n gyflym am y gost isaf posibl (Cam Gweithredu 3 o'r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio). Gwnaethom gomisiynu'r Gweithredwr System Trydan i gynnal adolygiad o gosteffeithiolrwydd dull wedi'i gydgysylltu, a chyhoeddwyd Cam 1 ym mis Rhagfyr 2020. Rydym hefyd yn gweithio gyda BEIS ar ei waith cwmpasu ar gyfer yr Adolygiad o'r Rhwydwaith Trawsyrru Alltraeth, er mwyn cyflwyno dull mwy cydgysylltiedig o drawsyrru erbyn 2030.



# Hyblygrwydd cadwyn lawn

Drwy'r rhaglen newid strategol hon, ein nod yw **gwella hyblygrwydd ar draws y gadwyn cyflenwi ynni o ran y ffordd rydym yn cynhyrchu, yn defnyddio ac yn storio ynni.** Bydd hyn yn datblygu'n sylweddol ein hymrwymiad i greu system drydan fwy hyblyg, er mwyn helpu i sicrhau bod y broses o gynyddu ynni adnewyddadwy yn cael ei hintegreiddio mewn modd costeffeithiol a sicrhau y bydd defnyddwyr yn cael budd o'r broses newid i system sero net ddibynadwy am y gost isaf posibl (Cam Gweithredu 4 o'r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio).

Hefyd, byddwn yn cefnogi'r broses o gyflwyno cerbydau trydan – ffynhonnell hyblygrwydd allweddol – gan leihau costau a sicrhau'r buddiannau gorau posibl i ddefnyddwyr (Camau Gweithredu 6 a 7 o'r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio).

Isod, rydym wedi nodi'r ffordd y mae ein gweithgareddau – y rhai sy'n cyflawni ein rhaglen newid yn uniongyrchol, a'n gweithgareddau rheoleiddio craidd – wedi cyflawni canlyniadau sy'n ein helpu i gyrraedd y nod strategol hwn.

## Mwy o ddefnyddwyr yn rheoli eu hyblygrwydd ynni drwy fesuryddion deallus

### Rôl reoleiddio

Mae Ofgem yn sicrhau trosolwg rheoleiddio o'r broses o gyflwyno mesuryddion deallus gan gyflenwyr ynni, fel y gall mwy o ddefnyddwyr fanteisio ar y buddiannau a chael profiad gosod o ansawdd.

Mewn ymateb i'r her o osod mesuryddion deallus yn ystod y pandemig, ym mis Mehefin 2020, gwnaethom gyhoeddi llythyr agored i gyflenwyr, yn nodi'r estyniad i raglen gyflwyno chwe mis y Llywodraeth, yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd a'r Llywodraeth.

Ym mis Mehefin 2020, cyhoeddodd y Llywodraeth benderfyniad ar fframwaith rheoleiddio newydd a fydd yn parhau i hyrwyddo'r rhaglen o gyflwyno mesuryddion deallus ar gyfer safleoedd domestig a safleoedd annomestig llai o faint, yn cynnwys targedau gosod blynyddol hyd at ganol 2025. I gefnogi hyn, gwnaethom gyhoeddi penderfyniad ym mis Rhagfyr 2020, i'r nodi gofynion adrodd y bydd angen i gyflenwyr ynni eu dilyn o fis Gorffennaf 2021.

Gwnaethom hefyd gyhoeddi ein system rheoli prisiau flynyddol ym mis Chwefror 2021 ar gyfer y Cwmni Cyfathrebu Data (y 'DCC'), sy'n darparu gwasanaeth trwyddedig monopoli ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu mesuryddion deallus ledled Prydain Fawr. Mae'r system rheoli prisiau wedi'i phennu i sicrhau y gall y DCC barhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a chynnig gwerth am arian ac ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid ar yr un pryd.

### Setliad hanner awr drwy'r farchnad gyfan

Bydd setliad hanner awr drwy'r farchnad gyfan (MHHS) yn atgyfnerthu cymhellion i fanwerthwyr ddatblygu a chynnig tariffau newydd ac arloesedd sy'n annog ac yn galluogi defnydd mwy hyblyg o ynni, er enghraifft: tariffau amser defnyddio, datrysiadau cerbyd i grid a storio batris. Gwnaethom gyhoeddi penderfyniad terfynol i gyflwyno MHHS, yn seiliedig ar Fodel Gweithredu Targed y Gweithgor Cynllunio, ym mis Ebrill 2021. Pan fydd ar waith, rydym yn disgwyl y bydd MHHS yn cyflwyno buddiannau sylweddol iawn i ddefnyddwyr drwy sicrhau y gellir cynnig cymhellion hyblygrwydd system gwych drwy ymateb ar yr ochr galw. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd MHHS yn gwella'r gystadleuaeth rhwng cyflenwyr a manwerthwyr eraill, ac yn cefnogi newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr wrth ystyried tariffau.

## Caiff statws sero net costeffeithiol ei gefnogi drwy hyblygrwydd, gan gynnal sicrwydd cyflenwad

### Marchnadoedd capasiti

Mae'r Farchnad Gapasiti yn sicrhau bod digon o gapasiti trydan ar gael i ateb y galw. Bwriedir iddo gymell buddsoddi mewn capasiti trydan carbon isel mwy cynaliadwy am y gost isaf posibl i ddefnyddwyr, a sicrhau bod ein cyflenwad trydan yn ddiogel yn y dyfodol.

Ym mis Gorffennaf 2020, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad cychwynnol ar saith prif newid i Reolau'r Farchnad Gapasiti, yn cynnwys: gwelliannau i'r broses cyn cymhwyso, newidiadau i'r gofynion adrodd, a thrafod rhyngweithio ehangach â'r farchnad. Ym mis Medi 2020, gwnaethom gyhoeddi fersiwn gyfunol anffurfiol o Reolau'r Farchnad Gapasiti, yn dilyn diwygiadau a wnaed gan BEIS ym mis Gorffennaf 2020. Bydd hyn yn sail i ymgynghoriad pellach yn 2021-22, cyn gwneud penderfyniad ar newidiadau i'r rheolau.

## Gweithredu'r system ynni

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gyflwyno cymhellion newydd i hyrwyddo a thyfu gweithredwyr system ddosbarthu mwy gweithredol fel rhan o fethodoleg rheoli prisiau dosbarthu trydan RIIO-2. Mae'r cymhellion hyn wedi arwain at system fwy effeithlon drwy ddatblygu marchnadoedd hyblygrwydd i weithredwyr system ddosbarthu, drwy sicrhau mynediad gwell at ddata ar ynni a thrwy brosesau cydgysylltu gwell rhwng y Gweithredwr System Trydan a'r gweithredwyr rhwydwaith dosbarthu.

Mae prosesau cydgysylltu a gwaith safoni gwell rhwng marchnadoedd hyblygrwydd i weithredwyr rhwydwaith dosbarthu wedi arwain at nifer o fuddiannau i ddefnyddwyr. Mae costau trafodion is wedi gwneud y marchnadoedd hyn yn fwy hygyrch drwy fynediad gwell i ddata, prosesau gwneud penderfyniadau a phenderfyniadau buddsoddi. Mae mynediad gwell i ddata a marchnadoedd hyblygrwydd i weithredwyr rhwydwaith dosbarthu wedi bod yn sbardun i greu datrysiadau carbon isel ac i gwmnïau rhwydwaith reoli twf mewn trydaneiddio trafnidiaeth a gwres yn effeithiol.

### Mae trefniadau newid rhwydwaith effeithlon ac effeithiol ar waith

Parhaodd Ofgem i weithio ar ddau adolygiad cod sylweddol; yr Adolygiad o Daliadau Mynediad a'r Adolygiad o Daliadau Wedi'u Targedu.

Yn ystod y flwyddyn, buom yn gweithio gyda diwydiant i nodi opsiynau ar gyfer diwygio taliadau er mwyn gwella effeithlonrwydd y rhwydwaith a chefnogi'r ymgais i gyflawni statws sero net, fel rhan o'n Hadolygiad o Daliadau Mynediad. Nod yr adolygiad yw gwella'r arwyddion a roddir i ddefnyddwyr ynghylch fydd fwyaf effeithlon iddynt leoli eu hunain ac effaith eu defnydd. Dylai hyn arwain at benderfyniadau buddsoddi mwy effeithlon gan brosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a'r galw amdano, gan osgoi'r angen am atgyfnerthu a chefnogi'r gwaith o gyflawni statws sero net am y gost isaf posibl.

Buom hefyd yn gweithio gyda diwydiant i roi diwygiadau'r Adolygiad o Daliadau Wedi'u Targedu ar waith, er mwyn sicrhau bod trefniadau taliadau ar gyfer cynhyrchwyr ynni a gweithredwyr rhwydwaith yn dal i fod yn gydnaws â'r ffordd y mae'r system ynni – a chyfranogwyr yn y system ynni – yn newid.

Bydd defnyddwyr yn gweld buddiannau o'r newidiadau o fis Ebrill 2021 pan gaiff diwygiadau'r Buddiannau Ymgorfforedig eu rhoi ar waith, ac yna o fis Ebrill 2022 pan gaiff y newidiadau i daliadau gweddilliol eu rhoi ar waith.

# Dyfodol Manwerthu

Drwy'r rhaglen newid strategol hon, ein nod yw darparu marchnad fanwerthu yn y **dyfodol sy'n gweithio i bob defnyddiwr a'r blaned**. Isod, rydym wedi nodi'r ffordd y mae ein gweithgareddau – y rhai sy'n cyfrannu'n uniongyrchol tuag at gyflawni ein rhaglen newid, a'n gweithgareddau rheoleiddio craidd – wedi sicrhau canlyniadau sy'n ein helpu i gyrraedd y nod strategol hwn.

## Defnyddwyr yn talu pris teg am ynni ac yn cael budd o hawliau a mesurau diogelu

### Yr ymateb i COVID-19


Drwy gydol argyfwng COVID-19, rydym wedi casglu data gan gyflenwyr ynni manwerthu er mwyn deall yr hyn a oedd yn digwydd yn y farchnad. Roedd gennym ddiddordeb yn y canlynol:

- gwybodaeth ariannol, er mwyn monitro effeithiau ariannol COVID-19 ar gyflenwyr,
- effeithiau ar ddefnyddwyr, er mwyn deall yr effaith ar ddefnyddwyr, er enghraifft oherwydd dyled.

Ym mis Ebrill 2020, gwnaethom gyhoeddi cais swyddogol newydd am wybodaeth i gael data wythnosol gan bob cyflenwr domestig ac annomestig gweithredol, rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2020[3].

Roedd hyn yn cynnwys cwestiynau ar ryddhad ariannol a threfniadau gohirio taliadau yn cael eu cynnig gan gyflenwyr i gwsmeriaid, canslo a gostwng debydau uniongyrchol, hunanddatgysylltu mesurydd rhagdalu deallus a chredyd mewn argyfwng. Mae'r holl wybodaeth hon wedi ein helpu i gynghori ar ymateb y Llywodraeth i'r pandemig, er mwyn lleddfu'r effeithiau ar ddiwydiant a chwsmeriaid. Ynghyd â'n data chwarterol o Adroddiadau ar Rwymedigaethau Cymdeithasol, mae'r cais am wybodaeth hefyd wedi llywio ein penderfyniad i atgyfnerthu mesurau diogelu ar gyfer cwsmeriaid sy'n cael trafferth talu eu biliau ynni.

### Cap ar brisiau tariffau diofyn




**Lefelau Cap Prisiau**

1 Ebrill 2021 - £1,138
1 Hyd 2020 - £1,042
1 Ebrill 2020 - £1,126
1 Hyd 2019 – £1,143
1 Ebrill 2019 - £1,217
1 Ion 2019 - £1,104 (cap cyntaf ar brisiau)

Mae Ofgem wedi parhau i weithredu'r Cap ar Brisiau Tariffau Diofyn (y 'cap ar brisiau'), gyda'r nod o sicrhau nad yw defnyddwyr na allant newid, neu sy'n dewis peidio â gwneud hynny, yn wynebu prisiau annheg.

Ym mis Awst 2020, penderfynodd Ofgem y byddai'r cap ar brisiau yn parhau i ddiogelu cwsmeriaid mesuryddion rhagdalu diofyn ar ôl yr adeg yr oedd disgwyl i'r Cap ar Brisiau Mesuryddion Rhagdalu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ddod i ben ar ddiwedd 2020.

[3] Mae fersiwn lai o'r cais am wybodaeth yn dal i redeg bob mis, fel y gallwn barhau i fonitro effaith y pandemig.

Gwnaethom hefyd gyhoeddi lefelau cap ar gyfer pumed cyfnod y cap, a ostyngodd 7% i £1,042. Pennwyd y lefelau cap blaenorol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020 ar £1,126. Roedd y gostyngiad hwn yn adlewyrchu costau cyflwyno mesuryddion deallus a chostau cyfanwerthu gostyngol.

Yn ein diweddariad diweddaraf i'r cap ar brisiau ym mis Chwefror 2021, cynyddwyd lefelau'r cap o gyfnod pump 9%, i £1,138. Roedd hyn yn adlewyrchu cynnydd mewn costau cyfanwerthu, costau rhwydweithiau a pholisïau, ac addasiad ar gyfer COVID-19. Gwnaethom bennu'r cap ar y lefelau isaf rhesymol yn ein barn ni, gan ystyried yr effaith a gaiff biliau uwch ar ddefnyddwyr. Bydd cyflenwyr yn adennill rhywfaint o'u costau sy'n gysylltiedig â COVID-19 mewn dull gweithredu graddol dros y flwyddyn i ddod.

### Cydymffurfio a gorfodi ym maes manwerthu

Drwy gydol y flwyddyn, mae Ofgem wedi parhau i ddwyn cyflenwyr ynni manwerthu i gyfrif, er mwyn sicrhau bod y farchnad ynni yn parhau i fod yn deg i ddefnyddwyr. Gwnawn hyn drwy hyrwyddo arferion da, casglu gwybodaeth am berfformiad cyflenwyr, ac ymyrryd lle y bo angen.

Yn 2020-21, gwnaethom orffen ymarfer ymgysylltu ynghylch cydymffurfiaeth â 18 o gyflenwyr mewn perthynas â'r modd y maent yn cadw at y rheolau diogelu prisiau, gan sicrhau ad-daliadau i fwy na miliwn o ddefnyddwyr a oedd yn werth mwy na £10 miliwn. Gwnaethom hefyd orffen ymarfer ymgysylltu â 28 o gyflenwyr mewn perthynas â chydymffurfiaeth â'r cap ar brisiau, gan sicrhau mwy na £0.5 miliwn o ad-daliadau ac iawndal i fwy na 40,000 o ddefnyddwyr ar dariffau diofyn, y bu'n rhaid iddynt dalu gormod.

Nodir rhagor o fanylion am ymchwiliadau a gweithgarwch gorfodi yn Atodiad II i'r adroddiad hwn.

## Cyflenwyr yn darparu cyflenwad ynni sefydlog a gwasanaeth effeithiol i ddefnyddwyr

Yn ystod 2020-21, gwnaethom barhau i weld nifer o gyflenwyr yn methu yn y farchnad ynni fanwerthu. Gwnaethom ddefnyddio ein proses 'Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall' i sicrhau na fu tarfu ar gyflenwadau ynni cwsmeriaid a bod eu balansau credyd yn cael eu diogelu. Mewn ymateb i argyfwng COVID-19, gwnaethom wella ein proses o fonitro statws ariannol cyflenwyr, i'n galluogi i ymateb yn effeithiol pan oedd cyflenwyr yn cael problemau. Fel rhan o'n hymateb i COVID-19, gwnaethom ganiatáu i rai cyflenwyr a chludwyr ynni ohirio tua £65m o'u taliadau rhwydwaith drwy gynlluniau Gohirio Taliadau Rhwydwaith. Er mwyn parhau i leihau'r tebygolrwydd y bydd cyflenwyr yn methu mewn modd anhrefnus ac effaith hynny, gwnaethom gyflwyno rheolau newydd fel rhan o'n hadolygiad trwyddedu cyflenwyr, i adeiladu ar newidiadau i ofynion mynediad newydd a wnaed yn 2019. Cytunwyd ar y trefniadau newydd hyn ym mis Tachwedd a chawsant eu rhoi ar waith ar ddechrau 2021. Cynlluniwyd y newidiadau i atgyfnerthu ein cyfundrefn reoleiddio ymhellach, er mwyn codi safonau ymysg cyflenwyr ynni a lleihau'r risgiau ariannol sy'n wynebu'r diwydiant a defnyddwyr, a gwasanaeth cwsmeriaid gwael, cymaint â phosibl.

## Defnyddwyr, yn enwedig y rhai sydd mewn sefyllfa fregus, yn cael eu trin yn deg gan gyflenwyr

### Strategaeth ar gyfer Defnyddwyr mewn Sefyllfa Fregus 2025

Yn unol â'n prif amcan o ddiogelu buddiannau defnyddwyr, ymrwymodd ein Strategaeth ar gyfer Defnyddwyr mewn Sefyllfa Fregus 2025 i atgyfnerthu mesurau diogelu ar gyfer defnyddwyr mesuryddion rhagdalu a'r rhai sy'n cael trafferth talu eu biliau. Roedd diogelu'r cwsmeriaid sydd yn y sefyllfa fwyaf bregus yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun argyfwng COVID-19 (ceir manylion ein hymateb i COVID-19 isod.

Ym mis Rhagfyr 2020, gwnaethom gyflwyno pecyn o ddiwygiadau i wella canlyniadau i gwsmeriaid mesuryddion rhagdalu. Mae'r rhain yn cynnwys amodau trwydded newydd i gyflenwyr nodi a chynnig cymorth byrdymor i gwsmeriaid mesuryddion rhagdalu sy'n hunanddatgysylltu, yn ogystal â gofynion gwell i gefnogi pob cwsmer sy'n wynebu anawsterau ariannol, drwy gynnwys egwyddorion 'Gallu i Dalu' wedi'u diweddaru yn eu trwyddedau cyflenwi. Rydym yn amcangyfrif y bydd y buddiannau ariannol i ddefnyddwyr o ganlyniad i gyflwyno'r polisi hunanddatgysylltu yn werth tua £1.5 miliwn (heb gynnwys costau busnes) hyd at 2025.

Ehangodd Ofgem y mesurau diogelu gwarant mesurydd rhagdalu hyd at 2025 i atal taliadau anghymesur i ddyled heb ei thalu gan gwsmer a chreu cysondeb drwy'r farchnad gyfan. Rydym yn amcangyfrif mai effaith ariannol y penderfyniad polisi hwn fydd tua £16.5 miliwn.

Parhaodd Ofgem hefyd i gefnogi defnyddwyr mewn sefyllfa fregus drwy'r Gronfa Argyfwng sydd newydd ei sefydlu, gan lunio rhan o'n Cynllun Unioni Ynni, er mwyn helpu i fynd i'r afael ag effaith COVID-19. Dyrannodd y Gronfa Argyfwng £10.8 miliwn i elusennau sy'n cefnogi cartrefi sydd mewn sefyllfa fregus ac argyfyngus ac sy'n methu ag ychwanegu credyd i'w mesuryddion rhagdalu. Datblygwyd y gronfa yn gyflym mewn ymateb i'r argyfwng ac fe'i lansiwyd ym mis Mai 2020.

### Adolygiad o'r farchnad fanwerthu i ficrofusnesau

Ym mis Gorffennaf 2020, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad polisi a oedd yn amlinellu cynigion cychwynnol i ddiwygio'r farchnad fanwerthu i ficrofusnesau er mwyn grymuso defnyddwyr. Bwriadwn gyhoeddi cynigion terfynol yn ystod haf 2021, gyda'r nod o roi diwygiadau ar waith yn dechrau yn ddiweddarach y flwyddyn hon, ac yna gynnal proses fonitro ôl-weithredol i asesu'r holl fuddiannau a roddwyd i ddefnyddwyr.

## Defnyddwyr yn ymgysylltu ac yn manteisio ar farchnad fanwerthu gystadleuol a newid technolegol i gefnogi'r broses ddatgarboneiddio

### Y rhaglen newid a'r Cod Ynni Manwerthu

Amcan rhaglen newid 'cyflymach, mwy dibynadwy' Ofgem yw cyflwyno diwygiadau a fydd yn arwain at brofiadau mwy cadarnhaol i gwsmeriaid domestig, pan fyddant yn newid eu cyflenwr ynni. Ar ôl yr oedi a achoswyd gan COVID-19, ein targed ar gyfer lansio'r rhaglen newid yw haf 2022.

Er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno'r rhaglen newid, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2020, a oedd yn gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ar gyfuno'r Cod Ynni Manwerthu, a darpariaethau a fydd yn sicrhau y gellir newid yn gyflymach ac mewn ffordd fwy dibynadwy, a ddaw i rym yr un pryd â'r systemau a'r broses newid newydd.

### Cyswllt Arloesi

Er mwyn galluogi arloeswyr i greu cynhyrchion a gwasanaethau newydd sy'n helpu defnyddwyr i ddefnyddio ynni mewn ffyrdd sy'n cefnogi datgarboneiddio (Cam Gweithredu 8 o'r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio), parhawyd i gynnig ein gwasanaethau Cyswllt Arloesi, ac addasu'r ffordd rydym yn rheoleiddio.

Ym mis Gorffennaf 2020, gwnaethom lansio ac ehangu gwasanaeth Bocs Tywod Rheoleiddio Ynni, gan ymgorffori rheolau yng Nghod Cydbwyso a Setliad y diwydiant a'r Cytundeb Cysylltiad Dosbarthu a Defnyddio System. Yn ogystal â pharhau i gefnogi arloeswyr i gynnal treialon, mae'r Bocs Tywod bellach yn cynnig cymorth parhaus i'r busnesau hynny sy'n barod i gyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau newydd i'r farchnad, drwy ddarparu rhanddirymiadau (lle y bo'n briodol).

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom hefyd barhau i ddarparu ein gwasanaeth "Adborth Cyflym a Gonest", sy'n helpu arloeswyr i ddeall a fyddai eu syniadau'n bosibl ai peidio o dan y rheolau a'r rheoliadau presennol.

# Llywodraethu'r System Ynni

Drwy gydol y rhaglen newid strategol hon, ein nod yw sicrhau bod proses **lywodraethu'r system ynni, yn cynnwys rôl Ofgem, yn addas at y diben**. Isod, rydym wedi nodi'r ffordd y mae ein gweithgareddau – y rhai sy'n cyfrannu'n uniongyrchol tuag at gyflawni ein rhaglen newid, a'n gweithgareddau rheoleiddio craidd – wedi sicrhau canlyniadau sy'n ein helpu i gyrraedd y nod strategol hwn.

## Nodau trawsnewid sero net yn cael eu cyflawni drwy weithredu'r system

### Gweithredu'r System Ynni

Mae gan y Gweithredwr System Trydan (sy'n rhan o'r Grid Cenedlaethol ar hyn o bryd) rôl ganolog yn ein system ynni. Mae'n cyflawni nifer o swyddogaethau pwysig o weithrediad amser real y system, i ddatblygu'r farchnad, rheoli cysylltiadau a chynghori ar fuddsoddiadau yn y rhwydwaith. Rydym yn rheoleiddio'r Gweithredwr System Trydan er mwyn helpu i sicrhau bod y camau a gymerir ganddo yn gyson â buddiannau defnyddwyr.

Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Ofgem system rheoli prisiau bwrpasol newydd ar gyfer y Gweithredwr System Trydan, a fydd yn datblygu dulliau newydd arloesol o  weithredu'r system drydan er mwyn gostwng costau i ddefnyddwyr wrth i'r ffordd y mae'r system yn gweithredu newid mewn ymateb i brosesau datgarboneiddio ynni. Mae'r system rheoli prisiau yn cynnig cymhellion ariannol i'r Gweithredwr System Trydan i ddatblygu newidiadau sydd eu hangen i weithredu'r system drydan yn ddi-garbon erbyn 2025, er mwyn sicrhau'r gystadleuaeth fwyaf a hwyluso dull system gyfan o weithredu'r rhwydwaith a chynllunio. Nodir y buddiannau uniongyrchol yn ein hadran ar Reoli Prisiau uchod.

### Adolygiad o Drefniadau Gweithredu'r System – nwy a thrydan

Gwnaethom ddweud y byddem yn adolygu'r ffordd y caiff ein systemau ynni eu rheoli er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer dyfodol sero net (Cam Gweithredu 5 o'r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio). Daeth rhan allweddol o hyn i ben ym mis Ionawr 2021, pan gyhoeddwyd ein hadolygiad o drefniadau gweithredu'r system ynni, a oedd yn ystyried yr heriau sy'n wynebu trefniadau gweithredu'r system ym Mhrydain Fawr heddiw ac yn y dyfodol. Daeth yr adolygiad i'r casgliad mai Gweithredwr System Annibynnol gyda swyddogaethau ychwanegol fydd orau i alluogi a hwyluso'r system ynni integredig a hyblyg sydd ei hangen i gyflawni statws sero am y gost isaf posibl.

Yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn, ein hargymhellion allweddol oedd:

- Y dylid rhoi cyfrifoldebau ychwanegol i'r gweithredwyr system ynni (nwy a thrydan).
- Y dylai'r Gweithredwr System Trydan fod yn gwbl annibynnol ar berchennog y rhwydwaith trawsyrru.
- Bod achos da hefyd dros wahanu swyddogaethau cynllunio rhwydwaith nwy allweddol oddi wrth berchennog y rhwydwaith trawsyrru nwy a'u cyfuno â gofynion trydan y gweithredwr system ynni annibynnol newydd a argymhellir.

## Mae cwmnïau rhwydwaith yn seibergadarn

Er mwyn cynyddu seibergadernid a chadernid cyffredinol Gweithredwyr Gwasanaethau Hanfodol nwy a thrydan i lawr y gadwyn gyflenwi, Ofgem a BEIS yw'r Awdurdod Cymwys ar y cyd o dan Reoliadau Diogelwch Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018. Yn ystod y flwyddyn, ehangodd Ofgem ei swyddogaeth fel Awdurdod Cymwys gan ganolbwyntio ar systemau allweddol Gweithredwyr Gwasanaethau Hanfodol. Ein nod yw diogelu cyflenwad ynni defnyddwyr, drwy fonitro gwelliannau seiber a chydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth, yr agweddau diogelwch ar y Cod Ynni Clyfar, System Rheoli Prisiau RIIO a phwerau statudol eraill.

## Mae trefniadau trawsffiniol newydd ar waith gyda'r UE

Ar 31 Ionawr 2020, gadawodd y DU yr UE, ac ar ôl cymeradwyo'r Cytundeb Ymadael, daeth cyfnod pontio yn weithredol. Ym mis Hydref, gwnaethom gyhoeddi llythyr at gyfranogwyr yn y farchnad gyfanwerthu i gadarnhau y byddai trefniadau REMIT , yn cynnwys rheoliadau gorfodi, yn parhau i fod yn gymwys ym Mhrydain Fawr o 1 Ionawr 2021, ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben. Gwnaethom hefyd nodi newidiadau i'r

gofynion cofrestru, ac y byddai Ofgem yn parhau – am gyfnod amhenodol – i fonitro'r farchnad gyfanwerthu am achosion posibl o dorri'r rheoliadau, gan na fyddai'r corff Ewropeaidd, ACER , yn gyfrifol am y swyddogaethau hyn mwyach (ceir rhagor o fanylion am y gydberthnas sy'n datblygu rhwng Ofgem a chyrff yr UE yn yr adran ar ddiogelwch a sefydlogrwydd y system ynni).

### Codau o fudd i ddefnyddwyr a thrwyddedu cadarn

Drwy gydol y flwyddyn, gwnaethom barhau i wneud penderfyniadau trwyddedu yn unol â'n dangosyddion perfformiad allweddol (ceir manylion yn Atodiad I i'r adroddiad hwn).

Gwnaethom gymryd rhan ym mhrosesau codau'r diwydiant i gyflwyno penderfyniadau ar addasiadau i godau mewn modd amserol lle y bo'n bosibl, gan nodi y gall blaenoriaethau croes effeithio ar amseriad penderfyniadau ar godau.

Rydym yn disgwyl i'r newidiadau i'r codau a gymeradwywyd gennym sicrhau buddiannau ym mhob rhan o'r system, mewn meysydd yn amrywio o daliadau'r rhwydwaith i gydbwyso, mesuryddion a data agored.

Fel rhan o'n gwaith i ymateb i heriau COVID-19, buom yn gweithio gyda'r diwydiant a chyrff codau i sicrhau bod penderfyniadau brys ar godau yn cael blaenoriaeth er mwyn diogelu defnyddwyr.

## Data a digideiddio

Drwy gydol y rhaglen newid strategol hon, **ein nod yw datgloi buddiannau data a digideiddio er budd defnyddwyr.** Isod, rydym wedi nodi'r modd y mae ein gweithgareddau – y rhai sy'n cyfrannu'n uniongyrchol tuag at gyflawni ein rhaglen newid, a'n gweithgareddau rheoleiddio craidd – wedi sicrhau canlyniadau sy'n ein helpu i gyrraedd y nod strategol newydd hwn.

Drwy gydol 2020-21, buom yn gweithio gyda'r diwydiant ar ein safonau data a digideiddio, gan ymgorffori'r rhain yn amodau trwydded rheoli prisiau RIIO-2 yn ogystal â chymhellion methodoleg a chynllun busnes y sector ar gyfer y system rheoli prisiau dosbarthu trydan. Rhannwyd ein canllawiau drafft ar ein Harferion Data Gorau, a'n Strategaethau Digideiddio a'n Cynllun Gweithredu â chyfranogwyr y farchnad, gyda phob rhwydwaith yn cyhoeddi strategaethau digideiddio yn ystod y gaeaf[4].

Roedd y dogfennau canllaw hyn hefyd yn sail i'n cymeradwyaeth o addasiadau i godau, sy'n cyfeirio at un neu ddwy ddogfen ganllaw gyda'r nod o agor data systemau ynni.

Yn ogystal, rydym wedi gweithio'n agos gyda BEIS ac Innovate UK ar y Strategaeth Data a Digideiddio Ynni, a dwy gystadleuaeth arloesedd. Mae Moderneiddio Mynediad i Ddata Ynni a Moderneiddio Cymwysiadau Data Ynni yn ymateb uniongyrchol i argymhellion y Tasglu Data Ynni, a disgwylir iddynt wella mynediad i ddata.

Gwnaethom barhau i sicrhau ansawdd modelau sy'n hanfodol i'r busnes, asesu effaith a gwerthuso, yn unol â'r argymhellion yn adolygiad Trysorlys EM o sicrhau ansawdd modelau dadansoddol y Llywodraeth[5] Drwy'r gwaith hwn, rydym yn helpu ein timau polisi i ddatblygu eu modelau dadansoddol ac adolygu eu dadansoddiadau cost a budd ac asesiadau o effaith, cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

4 https://www.ofgem.gov.uk/publications-and-updates/digitalisation-strategies-modernising-energy-data
5 https://www.ofgem.gov.uk/publications-and-updates/digitalisation-strategies-modernising-energy-data

# Cyflawni cynlluniau ynni adnewyddadwy a chynlluniau cymdeithasol

Yn ogystal â'n pum rhaglen newid strategol, a'n gweithgareddau rheoleiddio craidd, mae Ofgem yn gweinyddu amrywiaeth o gynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol ar ran y llywodraeth, sy'n werth £9 biliwn y flwyddyn gyda'i gilydd. Mae'r cynlluniau yn dod o dan dri phrif gategori.

## Cynlluniau trydan adnewyddadwy

**112.8 TWh** o drydan adnewyddadwy yn cael ei gynhyrchu o'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy

**26,582** o orsafoedd cynhyrchu'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy

Y sector trydan adnewyddadwy yn **cefnogi 738,000 o swyddi**

**121.9 TWh** o gyfanswm y cyflenwad o ffynonellau adnewyddadwy yn cael eu cynhyrchu o'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy **(41.2% o gyflenwad y DU)**

Mae rhai o'r ffigurau yn rhai amodol ac mae'n bosibl y bydd y ffigurau terfynol yn wahanol. Caiff y ffigurau terfynol eu hadlewyrchu yn adroddiad blynyddol pob cynllun.

Lansiwyd y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn 2002 fel un o'r prif ddulliau o gefnogi prosiectau trydan adnewyddadwy ar raddfa fawr yn y DU. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn cefnogi 30% o'r trydan adnewyddadwy a gyflenwir yn y DU; sy'n sylweddol uwch na'r 3% pan ddechreuodd. Caiff prosesau cynhyrchu ynni adnewyddadwy carbon isel ar raddfa lai eu cefnogi'n bennaf drwy'r cynllun Tariff Cyflenwi Trydan, sy'n gwneud taliadau i gyfranogwyr sy'n gosod gosodiadau cynhyrchu trydan, fel paneli ffotofoltäig. Er bod y ddau gynllun bellach wedi rhoi'r gorau i dderbyn ymgeiswyr newydd, byddwn yn parhau i'w gweithredu nes i'r holl daliadau a thystysgrifau cymwys gael eu cyflwyno.

Bydd tystysgrifau'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn parhau i gael eu cyflwyno tan fis Mawrth 2038, a gwneir taliadau Tariff Cyflenwi Trydan hyd at fis Mawrth 2040.

Ym mis Ionawr 2020, lansiwyd y cynllun Gwarant Allforio Deallus i roi cyfle newydd i'r rhai sydd â thechnolegau'r cynllun Tariff Cyflenwi Trydan i gael pris gwarantedig gan gyflenwyr trydan ar gyfer y trydan y maent yn ei allforio i'r Grid Cenedlaethol. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweld amrywiaeth o dariffau'n cael eu cynnig, rhai yn cynnwys bwndelu â dulliau storio batris. Rydym hefyd wedi gweld tariffau eraill yn cael eu cynnig y tu allan i rwymedigaethau Gwarant Allforio Deallus, sy'n helpu i gynyddu'r gystadleuaeth yn y farchnad tariff allforio.

## Cynlluniau Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy

**59.77TWhth** o wres thermol wedi'i gynhyrchu hyd yma

**5,309MW** o gapasiti gwres thermol wedi'i osod

**O paliadau** wedi'u gwneud yn 2020-21 sy'n werth tua **£792.29m**

**235.3 Gwh** o wres wedi'i gynhyrchu gan osodiadau (Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon)

**O paliadau** wedi'u gwneud yn 2020-21 sy'n werth tua **£144.9m** (Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy domestig)

**5.52Mt $CO_2$ o arbedion carbon** dros oes y cynllun (Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy domestig)

**Gwnaed cyfanswm o £3.58m o daliadau** i gyfranogwyr y cynllun (Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon)

Mae rhai o'r ffigurau yn rhai amodol ac mae'n bosibl y bydd y ffigurau terfynol yn wahanol. Caiff y ffigurau terfynol eu hadlewyrchu yn adroddiad blynyddol pob cynllun.

Sefydlwyd cynlluniau Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy i helpu defnyddwyr – domestig ac annomestig – i oresgyn y costau sy'n gysylltiedig â gosod systemau gwresogi adnewyddadwy, o gymharu â systemau gwresogi tanwydd ffosil mwy confensiynol. Mae'r cynlluniau wedi helpu addaswyr cynnar i gyflawni tuag at nodau'r DU o sicrhau statws sero net, drwy osod technolegau fel pympiau gwres a chwistrellu bionwy.

Ar ddechrau 2021, gosodwyd rheoliadau gerbron Senedd y DU i baratoi ar gyfer cau'r cynlluniau domestig ac annomestig, a oedd yn llacio rhai o'r gofynion ymgeisio hefyd mewn ymateb i bwysau ar ymgeiswyr yn sgil argyfwng COVID-19.

Er i'r cynlluniau annomestig roi'r gorau i dderbyn ymgeiswyr newydd ym mis Mawrth 2021, byddant yn parhau i wneud taliadau i gyfranogwyr hyd at fis Mawrth 2024, gyda thaliadau domestig yn parhau hyd at fis Mawrth 2029. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i weithio gyda BEIS i ddatblygu cynlluniau gwres newydd, er mwyn parhau i gynnig cymhellion i gynhyrchu gwres adnewyddadwy a defnyddio bionwy.

## Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni a Chymdeithasol

**Mwy na 400** o osodwyr yn gosod **830** o fesurau'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni bob dydd ar gyfartaledd

**Mwy na 830k** o fesurau'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni wedi'u gosod mewn **500k o gartrefi hyd yma**

**£6.62 Biliwn o arbedion biliau** gydol oes yn gyflawnadwy i aelwydydd sydd mewn sefyllfa fregus

Mae rhai o'r ffigurau yn rhai amodol ac mae'n bosibl y bydd y ffigurau terfynol yn wahanol. Caiff y ffigurau terfynol eu hadlewyrchu yn adroddiad blynyddol pob cynllun.

Mae'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni yn parhau i wella effeithlonrwydd ynni yn y cartrefi hynny sydd mewn tlodi tanwydd, drwy leihau eu defnydd o ynni a'u biliau yn barhaol. Caiff y gwelliannau hyn eu cyflawni gan gyflenwyr ynni mwy o faint. Mae'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes hefyd yn parhau i roi cymorth uniongyrchol gyda chostau ynni i'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd neu wynebu risg o dlodi tanwydd, yn bennaf ar ffurf ad-daliad o £140.

Yn ystod y flwyddyn, gostyngodd y trothwy i gyflenwyr ar gyfer y ddau gynllun i 150,000 o gwsmeriaid, a gynyddodd nifer y cyflenwyr ynni y mae rhwymedigaeth arnynt i gefnogi eu cwsmeriaid sydd mewn sefyllfa fregus.

Er gwaethaf y cynnydd yn y ddarpariaeth, effeithiodd argyfwng COVID-19 ar osodiadau'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni, drwy gyfyngu ar fynediad i gartrefi. Mae hyn yn golygu bod cyflenwyr yn parhau i fod ar ei hôl hi gyda'u gosodiadau, a'u bod yn wynebu cynnydd sylweddol yn yr hyn sy'n ofynnol iddynt gyflawni eu rhwymedigaethau erbyn mis Mawrth 2022.

# Ein rhanddeiliaid ym Mhrydain Fawr

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn hanfodol er mwyn helpu i lywio ein penderfyniadau, felly cânt eu trwytho mewn dealltwriaeth gadarn o anghenion pob defnyddiwr ynni. Yn ystod y pandemig, mae trefniadau ymgysylltu rhithwir wedi ein galluogi i ddysgu am anghenion a blaenoriaethau amrywiol ein rhanddeiliaid, gan helpu i sicrhau ein bod yn ymateb yn rhagweithiol.

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Yn 2022-21, gwnaethom ganolbwyntio ar barhau i gynnig cyfleoedd rheolaidd ac ystyrlon i ymgysylltu; er mwyn cynnal ein rhwydwaith eang o randdeiliaid ac i ddeall effeithiau pellgyrhaeddol y pandemig. Roedd ymgysylltu o'r fath yn allweddol wrth i ni wneud penderfyniadau ac ymateb o hyd i COVID-19.

Oherwydd y cyfyngiadau symud ledled Prydain Fawr, gwnaethom ddefnyddio dull gweithredu ar-lein i gynnal digwyddiadau er mwyn ein galluogi i barhau i ymgysylltu â threfnwyr digwyddiadau allanol gyda siaradwyr Ofcom yn cyflwyno areithiau allweddol mewn cynadleddau rhithwir, yn ymuno â gweminarau, neu'n siarad mewn podlediadau. Gwnaethom hefyd lansio ymgynghoriad ar ein Blaenraglen Waith ar gyfer 2021-22 yn ystod gweminar fyw, a ddenodd gynulleidfa o fwy na 600 o bobl.

Y flwyddyn hon, rydym wedi cynnig cyfleoedd amrywiol i randdeiliaid allu lleisio eu barn ynghyd â thryloywder cynyddol. Ym mhroses gwneud penderfyniadau RIIO-2, gwnaethom gynnal Cyfarfodydd Agored a chyfres o weminarau a ddenodd fwy na 600 o bobl i lywio ein systemau rheoli prisiau.

Rydym wedi creu sianeli newydd ar gyfer ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr ac elusennau y flwyddyn hon. Ym mis Ebrill 2020, gwnaethom lansio galwad grŵp defnyddwyr misol i ysgogi sgyrsiau ar fregusrwydd yn ystod y pandemig ac arwain sesiynau brifio a chyfarfodydd polisi rheolaidd â'n Huwch-dîm Arwain i rannu pryderon a safbwyntiau cyfredol defnyddwyr.

Rydym yn parhau i gynnal ein rhaglen ymgysylltu fewnol, Cysylltiadau Cwsmeriaid, sy'n cynnig cyfleoedd rheolaidd i bob aelod o staff glywed am brofiadau defnyddwyr ynni. Drwy gydol 2020-21 gwnaethom drefnu mwy na 15 o ymweliadau ymgysylltu rhithwir i'n Huwch-dîm Arwain gwrdd â grwpiau defnyddwyr ac elusennau, yn cynnwys Cristnogion yn erbyn Tlodi, y Sefydliad Banc Tanwydd a Chanolfan Bromley-By-Bow.

Rydym yn parhau i ymgysylltu â nifer o randdeiliaid allweddol drwy ein 'gweithgorau' fel y Grŵp Defnyddwyr Mawr ar gyfer defnyddwyr annomestig, y panel academaidd, a dau weithgor gyda rhanddeiliaid datgarboneiddio.

# Adroddiad cynaliadwyedd

**Rydym yn ymrwymedig o hyd i gyflawni Targedau Gwyrddu'r Llywodraeth, sy'n cynnwys yr amcanion canlynol (yn erbyn llinell sylfaen o 2009-10):**

**Lleihau carbon cyffredinol 32%**

**Lleihau gwastraff tirlenwi i 10% o gyfanswm gwastraff**

**Lleihau gwastraff tirlenwi i 10% o gyfanswm gwastraff**

**Lleihau defnydd o bapur 50%**


**Lleihau'r defnydd o ddŵr**

## Uchafbwyntiau

- Mae lefelau carbon, yn enwedig carbon teithio, wedi gostwng yn ddramatig
- Mae lefelau gwastraff wedi gostwng yn sylweddol
- Mae'r defnydd o ddŵr wedi gostwng i'r isafswm sy'n angenrheidiol i gadw'r systemau yn lân ac yn weithredol


Un o ysgogwyr allweddol gostyngiadau 2020-21 oedd y lefelau is o deithio yn sgil COVID-19 a'r ffaith bod y mwyafrif o staff Ofgem wedi bod yn gweithio o bell. Felly, nid ydym yn disgwyl y caiff y gostyngiadau sylweddol hyn eu cynnal yn y dyfodol ond rydym ar y trywydd cywir i gyrraedd ein targedau yn gyffredinol.

### Defnydd o garbon fesul CALI





Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, lefelau isel o deithio a welwyd yn ystod y flwyddyn a niferoedd bach iawn o'r staff a oedd yn y swyddfeydd. O ganlyniad, mae ein defnydd o Garbon yn 2020-21 wedi mwy na haneru o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mewn byd ar ôl COVID-19, ni fydd yn bosibl cynnal y lefel isel hon o ddefnydd o garbon, ond rydym yn ceisio cyfyngu ar yr adlam i sicrhau ei fod o fewn y lefelau blaenorol.

## Cyfanswm Carbon




Er bod ein swyddfeydd yn wag ar y cyfan drwy gydol y flwyddyn, nid yw ein defnydd o drydan na nwy wedi gostwng gan fod angen i'n heiddo fod mewn cyflwr defnyddiadwy yn unol â chanllawiau llywodraeth ganolog (Llundain) a'r cyngor lleol (Glasgow) ac felly mae'r systemau mecanyddol a thrydanol sy'n gweithredu ynddynt, fel systemau diogelwch, awyru a goleuo (hyd yn oed pan fydd y goleuadau wedi'u diffodd) yn dal i redeg.

## Carbon Teithio




Y flwyddyn ddiwethaf, roedd teithio yn cyfrif am hanner o'n defnydd o garbon. Y flwyddyn hon, oherwydd y cyfyngiadau teithio, dim ond 0.08 tunnell o garbon teithio a gynhyrchwyd. Rydym yn gweithio i atal teithio rhag dychwelyd i'r lefelau blaenorol mewn byd ar ôl COVID-19, drwy gymhwyso ein polisi teithio yn fwy llym a mabwysiadu ffyrdd gwahanol o weithio.

| Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr | | 2009-10 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol (tCO2e) | Cyfanswm yr allyriadau gros | 1,670 | 671 | 278 |
| | Fesul CALI | 2.23 | 0.92 | 0.23 |
| | Cyfanswm yr allyriadau net | 1,671 | 860 | 278 |
| | Cwmpas 1: Allyriadau NTG uniongyrchol | 511 | 7 | 6 |
| | Cwmpas 2: Allyriadau NTG anuniongyrchol ynni | 1,045 | 330 | 273 |
| | Cwmpas 3: Allyriadau NTG anuniongyrchol eraill | 115 | 334 | 0 |
| Data Defnydd Cysylltiedig (kWh) | Trydan: Adnewyddadwy (k) | 1,130 | 1,292 | 1,170 |
| | Nwy (k) | 1,578 | 35 | 30 |


## Y Dystysgrif Ynni i'w Harddangos

Gradd y Dystysgrif Ynni i'w Harddangos ar gyfer swyddfa 10SC yw E-125. Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â F-143 y llynedd. Rydym yn disgwyl gwerthusiad gwell mewn adeilad â gradd BREEAM 'Da Iawn' ac i'r perwyl hwnnw, byddwn yn gweithio gyda thîm rheoli 10SC i wella hyn.

Ar y cyd, rydym wedi gosod is-fesuryddion, i allu olrhain yn well ble y caiff ynni ei ddefnyddio. Rydym wedi cynnal adolygiad ac arolwg o effeithlonrwydd ynni. Bydd yr adroddiad dilynol yn ysgogi cynnydd i sicrhau Ardystiad Rheoli Ynni ISO50001 ar gyfer 10SC.

# Gwastraff

## Cyfanswm y Gwastraff




Gwastraff yw'r dangosydd cliriaf fod adeilad yn cael ei ddefnyddio o ran yr effaith ar yr amgylchedd, gan nad yw dŵr na phŵer yn cael eu dylanwadu'n llwyr gan ddefnydd o adeilad.

Mae'r lefelau gwastraff wedi gostwng 66%. Ni chynhyrchwyd bron dim gwastraff tan fis Hydref ac ers hynny gwelwyd llif cyson o wastraff cyfrinachol. Mae'r nifer bach sy'n mynd i mewn i'r swyddfa yn cael gwared ar waith papur ac mae pob un ohonom wedi dysgu i weithio heb waith papur dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae archwiliad o wastraff cyfrinachol wedi'i drefnu ar gyfer pan fydd y mwyafrif o'r staff wedi dychwelyd i'r swyddfa er mwyn nodi'r hyn sy'n mynd allan a ph'un a ellir ei ddargyfeirio i gyfleuster ailgylchu arferol, lle mae angen llai o waith prosesu a chost.


| **Gwastraff** | | | **2009-10** | **2019-20** | **2020-21** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunnell)** | **Targed** | | - | - | - |
| | Cyfanswm y Gwastraff | | 149 | 43 | 14 |
| | Cyfanswm y Gwastraff fesul CALl | | 0.2 | 0.05 | 0.02 |
| | Gwastraff Peryglus | | 1 | - | - |
| | Gwastraff nad yw'n Beryglus | Safleoedd Tirlenwi | 23 | 0 | 0 |
| | | Ailddefnyddiwyd/ Ailgylchwyd | 81 | 28 | 11 |
| | | Llosgwyd/ynni o wastraff | 44 | 16 | 3 |

Gan fod cyn lleied o bobl wedi bod yn y swyddfa, nid ydym wedi prynu unrhyw bapur yn ystod y flwyddyn.

## Dŵr

Er bod ein defnydd o ddŵr wedi gostwng gan fod pobl wedi bod yn gweithio gartref, nid yw wedi cyrraedd sero. Mae'n rhaid i ni fflysio'r systemau dŵr am o leiaf 10 munud bob wythnos er mwyn lleihau'r risg y bydd clefyd y lleng filwyr a bacteria yn cronni mewn merddwr.

### Gwastraff fesul CALI




| Dŵr | | | 2009-10 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol** | **Targed** | | | | |
| | Defnydd o Ddŵr ($m^3$) | Cyflenwyd | 7,116 | 3,875 | 896 |
| | | Fesul CALI | 9.5 | 4.2 | 1.0 |

Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd uchod sy'n gysylltiedig â'r defnydd o ynni a dŵr a'r gwastraff a gynhyrchir yn ymwneud â'n swyddfa yn Llundain yn unig, y mae ei chyfleustodau'n cael eu mesur a'u dosrannu rhwng tenantiaid yr adeilad. Ni all landlord ein swyddfa yn Glasgow rannu gwybodaeth am y defnydd o ynni, dŵr na gwastraff, a gan ein bod yn talu cost sefydlog am y cyfleustodau a ddefnyddir gennym, ni allwn amcangyfrif nac adrodd ar y defnydd yn swyddfa Glasgow. Rydym yn parhau i roi pwysau ar ein landlord yn Glasgow i rannu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i amcangyfrif neu adrodd ar y defnydd perthnasol. Byddwn yn adrodd ar y materion hyn yn y dyfodol os daw'r wybodaeth angenrheidiol i law.



**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr

**12 Gorffennaf 2021**



# Adroddiad ar Atebolrwydd

# Adolygiad ariannol

## Mae Datganiad Ofgem ynghylch y Cyflenwad Seneddol wedi'i nodi ar dudalen 60.

Yn ystod y flwyddyn, defnyddiodd Ofgem ei chyllideb i gefnogi ei Blaengynllun Gwaith ar gyfer 2020-21, gan wario cyfanswm o £121.1 miliwn ar wariant gweithredu yn erbyn cyfanswm incwm gweithredu o £109.1 miliwn. Felly, ar ddiwedd y flwyddyn, cyfanswm alldro adnoddau Ofgem oedd £12.0 miliwn: mae'r ffigur hwn yn cynnwys gwariant gweithredu net o £0.7 miliwn ar gyfer Gwarantau Tarddiad Ynni Adnewyddadwy ac £11.3 miliwn ar gyfer darpariaethau; sy'n ymwneud yn bennaf ag apeliadau mewn perthynas â'r system rheoli prisiau. Mae'r alldro hwn yn danwariant o £2.8 miliwn o gymharu â'r amcangyfrif cyllideb adnoddau, sef £14.8 miliwn, yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod gwerth y darpariaethau ariannol ychydig yn is na'r amcangyfrifon ar eu cyfer.

Prif ffynhonnell incwm Ofgem yw'r ffioedd trwyddedu sy'n daladwy gan y sector. Caiff unrhyw warged (dros adennill ffioedd, lle mae'r gwariant yn llai na'r gyllideb) ei ad-dalu i'r sector. Mae gwarged o £0.7 miliwn o ffioedd trwyddedu 2020-21 a godwyd ar y sector (o gymharu â gwarged o £3.955 miliwn o ffioedd trwyddedu 2019-20).

Costau staff yw'r rhan fwyaf o gostau Ofgem. Yn gyffredinol, roedd gwariant Ofgem £8.2 miliwn (8.1%) yn fwy yn 2020-21 (£110.4 miliwn) o gymharu â 2019-20 (£102.2 miliwn wedi'i ailddatgan, o ganlyniad i addasiad yn y flwyddyn flaenorol ar gyfer darpariaeth £2.4 miliwn ar gyfer TAW), yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yn nifer y staff, a oedd yn adlewyrchu'r gofynion ychwanegol o ran rheoleiddio a chyflawni cynlluniau.

Dewisodd Ofgem beidio â defnyddio'r gyllideb gyfalaf a neilltuwyd at ddibenion adnewyddu swyddfa Glasgow yn llawn, gan wario £2.1 miliwn yn llai na'r amcangyfrif. Mae hyn yn deillio o'r penderfyniad i beidio â symud i swyddfa mwy yn Glasgow yn wyneb pandemig COVID-19 ac adolygiad o'n harferion gweithio ac amser yn y swyddfa. Yn lle hynny, byddwn yn gwneud newidiadau i'n swyddfa bresennol yn Glasgow er mwyn creu mwy o ardaloedd cydweithio a gwell ystafelloedd cyfarfod.

## Gwariant yn ymwneud â COVID-19

Mae'r adroddiad perfformiad yn disgrifio effaith COVID-19 ar weithgarwch Ofgem yn 2020-21. Gwariodd Ofgem £0.2 miliwn yn ystod 2020-21 ar wariant yn ymwneud â COVID-19. Mae'r mwyafrif o'r gwariant hwn i'w briodoli i gost prynu'r cyfarpar angenrheidiol i alluogi'r staff i weithio o bell.

## Gwariant yn ymwneud ag ymadael â'r UE

Gwariodd Ofgem £0.7 miliwn ar gostau staff a oedd yn gysylltiedig â gweithgarwch yn ymwneud ag ymadael â'r UE.

# Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan (GEMA) yw Bwrdd Ofgem. Cyfeirir at yr Awdurdod fel y Bwrdd yn y ddogfen hon. Ar hyn o bryd, mae'n cynnwys saith aelod anweithredol, gan gynnwys Cadeirydd anweithredol, ac un aelod gweithredol, sef y Prif Weithredwr. Ceir rhestr o aelodau Bwrdd Ofgem ar wefan Ofgem.

Nid yw aelodau'r bwrdd rheoli yn gyfarwyddwyr mewn unrhyw gwmni arall nac yn meddu ar fuddiannau arwyddocaol eraill a all wrthdaro â chyfrifoldebau rheoli.

Ni hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ffurfiol am unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â data personol yn ystod y flwyddyn.

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo Ofgem i baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gyfrifon adnoddau yn nodi'r adnoddau a gafwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd ohonynt gan yr adran yn ystod y flwyddyn. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Ofgem a'i hincwm a'i gwariant, ei Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'i llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu fodloni gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gwneud y canlynol yn benodol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol;
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.


Mae Trysorlys EM wedi penodi'r Prif Swyddog Gweithredol yn Swyddog Cyfrifyddu Ofgem. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau Ofgem, wedi'u nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr Ofgem yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad llywodraethu

## Bwrdd Ofgem

### Strwythur Llywodraethu Ofgem




*Diddymwyd Bwrdd E-Serve (yn ogystal â Phwyllgor Sicrwydd Risg E-Serve) ym mis Hydref 2020 ac integreiddiwyd y trefniadau llywodraethu yn y Bwrdd a'i is-bwyllgorau eraill.

### Rôl y Bwrdd

Darperir ar gyfer pwerau a dyletswyddau'r Bwrdd drwy statud yn bennaf. Mae'r statud yn pennu mai Ofgem yw'r 'Awdurdod', ac wrth gyfeirio at yr Awdurdod, mae'n golygu Cadeirydd ac aelodau eraill Bwrdd Ofgem. Mae hyn yn golygu pan fydd deddfwriaeth yn rhoi pŵer penodol i Ofgem, mater i Fwrdd Ofgem yw arfer y pŵer hwnnw, oni bai bod dirprwyaeth ddilys ar waith.

### Sut y gwneir penodiadau

Mater i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yw penodi aelodau anweithredol yr Awdurdod, ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd.

Penodir aelodau gweithredol yr Awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn unol â Chod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil. Maent yn dal eu swyddi gyhyd ag y byddant yn dal eu huwch-swyddi yn Ofgem, yn amodol ar yr uchafswm cyfnodau swydd.

Ni wnaed unrhyw benodiadau i'r Bwrdd yn 2020-21. Ymddiswyddodd un aelod anweithredol o'r Bwrdd, sef Ann Robinson. Hefyd, ymddiswyddodd Mary Starks, aelod gweithredol o'r Bwrdd, pan adawodd ei rôl yn Ofgem.

## Rhannu cyfrifoldebau

Mae'r Bwrdd wedi cadw rhai penderfyniadau yn ôl. Mae'r rhain wedi'u nodi mewn atodlen i Reolau Trefniadaeth y Bwrdd a chyfeirir atynt hefyd fel "Swyddogaethau a Gadwyd yn Ôl.

Mater i'r Bwrdd yw gwneud penderfyniadau yn ymwneud ag unrhyw un o'r Swyddogaethau hyn a Gadwyd yn Ôl, oni bai bod y Bwrdd yn dirprwyo'r penderfyniad hwnnw i un o gyflogeion Ofgem, neu un o Bwyllgorau'r Bwrdd, yn benodol. [Gall dirprwyaeth gan y Bwrdd fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau. Caiff unrhyw ddirprwyaeth ychwanegol gan y Bwrdd ei chofnodi yng nghofnodion y Bwrdd. Yr unig eithriad i hyn yw llunio Offeryn Statudol. Ni all y Bwrdd – yn ôl y gyfraith – wneud dirprwyaeth o'r fath.]

Cyfeirir at holl swyddogaethau'r Bwrdd nad ydynt yn Swyddogaethau a Gadwyd yn Ôl, a ddirprwyir i un o Bwyllgorau'r Bwrdd, neu gan Drysorlys EM i'r Swyddog Cyfrifyddu, fel "Swyddogaethau Cyffredinol".

Ym mis Hydref 2018, pasiodd y Bwrdd benderfyniad cyffredin a oedd yn caniatáu i'r Swyddogaethau Cyffredinol hyn gael eu dirprwyo i unrhyw un o gyflogeion Ofgem ar lefel Band D (uwch-reolwr) neu uwch. At hynny, dirprwywyd dwy swyddogaeth orfodi benodol i bob cyflogai.

Mae gwaith wedi'i wneud eleni i gryfhau'r Rheolaethau Rheoli, sy'n pennu sut y dylid cyflawni'r Swyddogaethau Cyffredinol hyn – ac, yn benodol, pwy sydd wedi'i awdurdodi gan y Prif Weithredwr i wneud penderfyniadau neu arfer swyddogaethau o dan y Ddirprwyaeth Gyffredinol. Mae hyn yn dilyn adolygiad Archwilio Mewnol o 'r trefniadau llywodraethu corfforaethol, a nododd hyn yn faes i'w wella.

Cyhoeddir Rheolau Trefniadaeth y Bwrdd, gan gynnwys ei Faterion a Gadwyd yn Ôl, ar wefan Ofgem.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu pedwar is-bwyllgor i gefnogi ei waith, sef: y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth, Pwyllgor RIIO-2, a'r Panel Penderfyniadau Gorfodi.

Ceir rhagor o wybodaeth am gyfrifoldebau a gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth mewn adran ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Mae Pwyllgor RIIO-2 yn cyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn er mwyn sicrhau y caiff proses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd mewn perthynas â RIIO-2 ei chynnal yn ddidrafferth ac yn effeithiol. Mae'n ystyried manylion y polisi ac yn gwneud argymhellion ynglŷn â materion penodol cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Bwrdd wneud penderfyniad yn eu cylch. Mae hefyd yn rhoi canllawiau ychwanegol i dîm RIIO-2 ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar adegau priodol yn ystod y broses rheoli prisiau.

Un o bwyllgorau'r Bwrdd yw'r Panel Penderfyniadau Gorfodi, a sefydlwyd ym mis Mehefin 2014 er mwyn gwneud penderfyniadau gorfodi ar ran y Bwrdd ei hun. Cafodd ei sefydlu er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch achosion gorfodi fel bod gwahaniad gweladwy rhwng y swyddogaethau ymchwilio a'r swyddogaethau gwneud penderfyniadau. Mae aelodau'r panel a'i ysgrifenyddiaeth yn gyflogeion Ofgem sy'n annibynnol ar dîm yr achos. Mae'r Panel Penderfyniadau Gorfodi yn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol ei hun, sydd ar gael ar wefan Ofgem.

Yn 2020, penderfynodd y Bwrdd integreiddio'r gwaith o lywodraethu E-Serve yng ngwaith y Bwrdd o oruchwylio Ofgem. O ganlyniad, diddymwyd Bwrdd E-Serve a Phwyllgor Risg a Sicrwydd E-Serve, a chafodd eu gwaith ei integreiddio yn yr un broses lywodraethu â gweddill Ofgem. Ceir rhagor o wybodaeth am oruchwyliaeth y Bwrdd o waith a gweithgareddau E-Serve isod.

Cyhoeddir cylch gorchwyl Pwyllgorau'r Bwrdd ar wefan Ofgem.

## Cyfarfodydd y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod tua deg gwaith y flwyddyn ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol. Fel llawer o sefydliadau, cynhaliwyd holl gyfarfodydd y Bwrdd yn 2020-21 ar-lein, mewn ymateb i'r pandemig, ac ni fu modd cynnal unrhyw un o gyfarfodydd y Bwrdd yng ngwledydd a rhanbarthau Prydain Fawr, fel y gwneir fel arfer. Mae'r Bwrdd yn gobeithio gallu ailddechrau cynnal y cyfarfodydd hyn, cyn gynted ag y bydd yn ddiogel, ac y bydd y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn caniatáu.

Yn ei gyfarfodydd, mae'r Bwrdd fel arfer yn ystyried amrywiaeth o faterion. Mae hyn fel arfer yn cynnwys diweddariadau gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, diweddariadau gan Gadeiryddion ei Bwyllgorau ar unrhyw gyfarfodydd diweddar, trafodaethau am strategaeth Ofgem, ei hamcanion strategol

a'r dirwedd ehangach, materion sefydliadol, a phenderfyniadau ynghylch materion penodol nad ydynt wedi'u dirprwyo.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd wedi ystyried y materion canlynol:

- Adolygu datganiad o ddiben a gwerthoedd y sefydliad
- Cymeradwyo strategaeth rheoli risg Ofgem a'i datganiad o'i hawydd i fentro
- Cymeradwyo Blaenraglen Waith Ofgem
- Cymeradwyo cyllideb flynyddol Ofgem
- Cymeradwyo cyflwyniad Ofgem i'r Adolygiad o Wariant
- Cymeradwyo Ofgem i barhau i weinyddu cynllun effeithlonrwydd ynni
- Trafod goblygiadau datblygiadau sylweddol, megis cyhoeddi'r Papur Gwyn ar Ynni a Chweched Gyllideb Garbon y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd
- Gwneud nifer o benderfyniadau rheoleiddio pwysig, gan gynnwys mewn perthynas â systemau rheoli prisiau cwmnïau'r rhwydwaith RIIO-2 a'r cap ar dariffau diofyn.

At hynny, ac fel arfer cyn pob cyfarfod ffurfiol, mae'r Bwrdd yn cynnal sesiwn friffio lai ffurfiol. Mae'r sesiwn hon yn gyfle i'r Bwrdd drafod materion sy'n dod i'r amlwg, cael gwybodaeth am agweddau ar waith Ofgem, a chlywed gan randdeiliaid ar faterion amserol.

Eleni, roedd y Bwrdd yn falch o groesawu nifer o randdeiliaid i'w gyfarfodydd cyntaf, gan gynnwys Prif Weinidog Cymru, Gweinidog Llywodraeth Cymru dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, a Gweinidog Llywodraeth yr Alban dros Ynni, Cysylltedd a'r Ynysoedd.

Yn dilyn integreiddio E-Serve yn yr un broses lywodraethu â gweddill Ofgem, mae ei weithgareddau a'i waith bellach yn cael eu hadolygu'n fwy rheolaidd gan y Bwrdd ei hun. Mae hyn yn cynnwys adroddiad misol ar weithgareddau E-Serve, yn ogystal ag archwiliad manwl chwarterol newydd, lle mae'r Bwrdd yn cael cyfle i drafod materion strategol yn ymwneud ag E-Serve.

Cyhoeddir cofnodion ac agendâu'r Bwrdd ar wefan Ofgem.

## Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd

Mae'r Cadeirydd a'r aelodau anweithredol eraill yn chwarae rhan lawn ym musnes y Bwrdd. Mae eu presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd llawn a chyfarfodydd y Pwyllgorau y maent yn aelod ohonynt wedi'i gofnodi isod. Gall aelodau'r Bwrdd arsylwi ar gyfarfodydd Pwyllgorau eraill.

| Aelodau | Yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan | Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Bwrdd E-Serve | Y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth | Y Pwyllgor RIIO-2 |
|---|---|---|---|---|---|
| Barry Panayi | 10/10 | - | - | 1/1 | - |
| Christine Farnish | 10/10 | - | - | 4/4 | 10/10 |
| John Crackett | 10/10 | - | - | - | 10/10 |
| Jonathan Brearley | 10/10 | 5/5 | 2/2 | 4/4 | 10/10 |
| Lynne Embleton | 10/10 | 5/5 | - | 1/1 | 10/10 |
| Martin Cave | 10/10 | 5/5 | 2/2 | - | 10/10 |
| Myriam Madden | 9/10 | 5/5 | - | - | 8/8 |
| Paul Grout | 10/10 | - | - | 3/3 | 10/10 |
| Ann Robinson | 3/4 | - | - | 1/2 | - |
| Mary Starks | 3/3 | - | - | - | - |

**Nodiadau:**

1. Ymddiswyddodd Ann Robinson fel aelod o'r Bwrdd (ac fel aelod o'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth) ym mis Medi 2020
2. Ymddiswyddodd Mike Starks fel aelod o'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2020
3. Penodwyd Lynne Embleton a Barry Panayi o'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth ym mis Tachwedd 2020
4. Ymddiswyddodd Paul Grout o'r Pwyllgor o'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth ym mis Tachwedd 2020
5. Penodwyd Myriam Madden i'r Pwyllgor RIIO 2 Committee ym mis Mai 2020
6. Cwblhawyd y broses drosglwyddo ym mis Hydref 2020

## Gwerthuso'r Bwrdd

Caiff effeithiolrwydd y Bwrdd ei werthuso'n flynyddol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r adolygiadau hyn wedi cael eu cynnal yn fewnol a'u cydgysylltu gan y Cadeirydd, gyda chymorth gan dîm Llywodraethu ac Ysgrifenyddiaeth Ofgem.

Mae'n arfer dda o safbwynt llywodraethu corfforaethol cynnal Adolygiad allanol o Effeithiolrwydd y Bwrdd o leiaf unwaith bob tair blynedd. Yn dilyn proses gaffael gystadleuol, penodwyd Campbell Tickell i gynnal Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd eleni.

Adolygodd ac ystyriodd y Bwrdd ganlyniadau'r adolygiad yn ei gyfarfod ym mis Mai 2021.

Canfu'r adolygiad hwn nifer o agweddau da ar brosesau llywodraethu Ofgem, a thynnodd sylw at feysydd i'w gwella ymhellach, gan nodi bod cynnydd eisoes yn cael ei wneud mewn nifer o'r rhain. Nododd yr adolygiad sgìl ac ymrwymiad aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol, cynnydd cadarnhaol ym mherfformiad y Pwyllgorau a phrosesau rheoli risg, a'r cymorth a roddir gan yr Ysgrifenyddiaeth.

Tynnodd yr adolygiad sylw hefyd at bwysigrwydd eglurder strategol rhwng y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol, a fframwaith monitro cynnydd cadarn sy'n galluogi'r Bwrdd i fonitro cynnydd yn erbyn amcanion strategol ac addasrwydd y sefydliad i gyflawni. I gefnogi hyn, mae nifer o welliannau pellach yn yr arfaeth.

Er bod y Bwrdd yn hyderus bod y penderfyniadau a wnaed ganddo yn ystod y flwyddyn wedi'u hategu gan y wybodaeth gywir, nododd yr Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd y byddai darpariaeth fwy cyson o wybodaeth reoli, a gwelliannau i fformat a hyd papurau yn helpu i barhau i hwyluso trafodaeth a phenderfyniadau ar sail gwybodaeth gan y Bwrdd.

Eleni, mae'r Bwrdd hefyd wedi cyflwyno eitem fyfyrio reolaidd ar ddiwedd pob cyfarfod o'r Bwrdd, lle y gall aelodau'r Bwrdd roi adborth ar unrhyw un o'r eitemau, papurau, neu feysydd eraill a drafodwyd yn y cyfarfod, a gwneud unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliannau, y mae nifer ohonynt eisoes wedi'u rhoi ar waith.

At hynny, yn 2020-21, adolygodd y Cadeirydd berfformiad unigol aelodau'r Awdurdod, gan ystyried eu cyfraniadau at waith y Bwrdd. Cynhaliwyd yr asesiad blynyddol o berfformiad y Cadeirydd gan Gadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth, gan ystyried ei amcanion ar gyfer y flwyddyn a mewnbwn gan aelodau eraill y Bwrdd.

## Llywodraethu corfforaethol

At hynny, cynhaliodd archwilwyr mewnol Ofgem archwiliad o drefniadau Llywodraethu Corfforaethol Ofgem hefyd, yn ystod haf 2020. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Hydref 2020.

Ei brif ffocws oedd trefniadau llywodraethu ar lefel weithredol, neu lefel reoli, yn hytrach na threfniadau llywodraethu ar lefel y Bwrdd. Cafodd ei ategu gan yr Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd, y cyfeiriwyd ato yn gynharach, a ganolbwyntiodd yn bennaf ar drefniadau llywodraethu ar lefel y Bwrdd.

At ei gilydd, rhoddodd yr adroddiad sicrwydd digonol. Fodd bynnag, tynnodd sylw at nifer o feysydd i'w gwella, gan gynnwys un maes â blaenoriaeth yn ymwneud â chryfhau Rheolaethau Rheoli Ofgem, sy'n nodi pwy sydd â'r awdurdod i wneud penderfyniadau neu arfer swyddogaethau o dan y Ddirprwyaeth Gyffredinol. Mae'r gwelliant hwn wrthi'n cael ei roi ar waith.

Ochr yn ochr â hyn, mae nifer o welliannau eraill wedi'u gwneud, gan gynnwys cryfhau rhai o brosesau'r Tîm Llywodraethu ac Ysgrifenyddiaeth, a chyfuno'r datganiadau Gwrthdaro Buddiannau unigol gan aelodau'r Bwrdd mewn un gofrestr, sydd bellach yn cael ei chyhoeddi ar wefan Ofgem. Mae'r holl argymhellion naill ai wedi'u rhoi ar waith neu ar y trywydd cywir i gael eu rhoi ar waith erbyn y dyddiad cytunwyd arno.

Yn fwy cyffredinol, dros y flwyddyn, mae Ofgem wedi cymryd nifer o gamau i gryfhau ei threfniadau llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys lle y gall gael ei llywio gan God Llywodraethu Corfforaethol y DU a'r cod llywodraethu corfforaethol ar gyfer adrannau llywodraeth ganolog. Serch hynny, ac fel y nododd yr Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd, mae angen gwneud rhagor o welliannau fel bod trefniadau llywodraethu Ofgem yn cefnogi'r Bwrdd a'r sefydliad ehangach i weithredu mor effeithiol â phosibl.

## Nodi a Rheoli Achosion o Wrthdaro Buddiannau

Mae gan Ofgem bolisi gwrthdaro buddiannau, sydd wedi'i chyhoeddi ar wefan Ofgem. Mae canllawiau pellach i'r staff hefyd ar gael ar fewnrwyd staff Ofgem.

O dan y polisi, mae'n ofynnol i bob aelod o staff ein hysbysu am unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau pan fyddant yn ymuno â'r sefydliad, a'n hysbysu am unrhyw newidiadau wedi hynny. Mae'r polisi'n gymwys i bob aelod o staff, ni waeth a yw'n aelod o staff parhaol, achlysurol, cyfnod penodol, asiantaeth neu gontractwr.

Caiff unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau eu hasesu gan y tîm Cyllid, Caffael a Risg, sy'n ystyried a oes achos o wrthdaro ac, os felly, pa gamau y dylid eu cymryd, ac erbyn pryd. Mae'r polisi hefyd yn nodi y caiff camau disgyblu eu cymryd yn erbyn unrhyw aelod o staff y canfyddir nad yw wedi cydymffurfio â'r trefniadau hyn. Yn unol ag arfer da, ar gyfer adolygiadau polisi rheolaidd, mae'r polisi hwn wrthi'n cael ei adolygu a disgwylir iddo gael ei ddiweddaru'n fuan.

Eleni, rydym hefyd wedi cymryd camau i gynyddu tryloywder, ac rydym bellach yn cyhoeddi cofrestr o fuddiannau aelodau'r Bwrdd ar wefan Ofgem.

At hynny, yn dilyn cais gan Ysgrifennydd y Cabinet i bob un o adrannau'r llywodraeth ym mis Ebrill 2021, gwnaethom adolygu ein cofrestr o fuddiannau staff yr Uwch-wasanaeth Sifil a gofyn i bob un o'r staff sy'n uwch-weision sifil gadarnhau a oes ganddynt unrhyw swyddi â thâl neu fuddiannau eraill a allai wrthdaro â'u rhwymedigaethau o dan God y Gwasanaeth Sifil neu effeithio – neu ymddangos felly – ar eu gallu i gyflawni dyletswyddau eraill.

Drwy wneud hyn, gwnaethom gadarnhau, er bod gan nifer bach o staff benodiadau allanol (megis rolau gwirfoddol, neu rolau anweithredol yn y sector cyhoeddus ehangach) neu fuddiannau eraill wedi'u datgan yn ein cofrestr, nad oes unrhyw achosion, yn ein barn ni, lle mae gan staff yr Uwch-wasanaeth Sifil unrhyw swyddi â thâl neu fuddiannau eraill a allai wrthdaro â'u rhwymedigaethau o dan God y Gwasanaeth Sifil neu effeithio – neu ymddangos felly – ar eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

Pan fydd staff yn gadael y sefydliad, mae gennym broses ar waith i ystyried a oes angen cais o dan y Rheolau Penodiadau Busnes cyn iddynt dderbyn penodiad newydd y tu allan i'r Gwasanaeth Sifil. Diben hyn yw sicrhau na ddylai fod achos cyfiawn dros bryder, beirniadaeth na chamddehongliad cyhoeddus pan fydd cyn aelod o staff yn ymgymryd â phenodiad neu gyflogaeth allanol.

Eleni, rydym hefyd wedi cryfhau'r trefniadau ar gyfer staff yr Uwch-wasanaeth Sifil fel bod yn rhaid i unrhyw gais y byddant yn ei wneud o dan y Rheolau Penodiadau Busnes gael ei gymeradwyo gan Bwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth anweithredol Ofgem.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys tri aelod anweithredol o'r Bwrdd, sef Myriam Madden (Cadeirydd), Lynne Embleton a Martin Cave. Mae'n cynnal pedwar prif gyfarfod y flwyddyn, yn ogystal â chyfarfod penodol i adolygu'r adroddiad blynyddol a chyfrifon drafft. Gwahoddir y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, y Cwnsler Cyffredinol, Pennaeth Cyllid Corfforaethol a Phennaeth Risg a Sicrwydd i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor, yn ogystal ag aelodau eraill o staff yn ôl yr angen.

Gwahoddir cynrychiolwyr o Archwilwyr Allanol Ofgem, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a chynrychiolwyr o Archwilwyr Mewnol Ofgem, Mazars, i fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd. Yn unol ag arfer da, bydd aelodau anweithredol y Pwyllgor fel arfer yn cynnal sesiwn breifat â'r archwilwyr ar ddiwedd pob cyfarfod. At hynny, mae'r Archwilwyr Mewnol a'r Archwilwyr Allanol yn cynnal trafodaethau rheolaidd ac yn cadw mewn cysylltiad uniongyrchol â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

## Rôl a chyfrifoldebau

Cyhoeddir cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar wefan Ofgem. Cafodd ei adolygu yn ystod y flwyddyn, a disgwylir iddo gael ei ddiweddaru yn ystod 2021-22. Ei gyfrifoldebau allweddol yw cynghori'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd ynghylch prosesau rheoli risg, systemau rheolaeth fewnol ac ariannol, rhaglen o adolygiadau'r Archwilydd Mewnol a'r gwaith o fynd i'r afael ag unrhyw wendidau a nodir mewn adroddiadau sicrwydd, a'r cyfrifon statudol a datganiadau ariannol eraill a gyhoeddir.

Eleni, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi canolbwyntio'n benodol ar waith i gryfhau sylfeini sicrwydd a chydymffurfiaeth yn y sefydliad. Mae hyn wedi cynnwys normaleiddio parhad gwasanaethau archwilio mewnol ac ymgysylltu â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a chymeradwyo'r cynllun Archwilio Mewnol a sicrhau ei fod yn seiliedig ar risg.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd wedi monitro cyflymder a chynnydd y gwaith o gyflawni argymhellion archwilio, gan gynnwys argymhellion archwilio etifeddol – a bu'n falch o nodi cynnydd sylweddol o ran sicrhau y caiff argymhellion eu rhoi ar waith yn brydlon. At hynny, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi goruchwylio'r gwaith o ddatblygu fframwaith rheoli risg cryfach (ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn yr adran ar reoli risg) ac ymgorffori egwyddorion gwelliant parhaus drwy gynnal dadansoddiad ôl-weithredol rheolaidd o'r gwersi a ddysgwyd.

## Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn

Yn ystod y flwyddyn, prif feysydd gweithgarwch y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg oedd:

- Monitro cynnydd y cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2020-21, gan gynnwys ystyried a chymeradwyo newidiadau yn ystod y flwyddyn i'r rhaglenni archwilio.
- Adolygu adroddiadau Archwilio Mewnol, ac adroddiadau sicrwydd eraill a gomisiynwyd gan reolwyr, ac ymatebion rheolwyr i faterion, gan gynnwys: Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau, Ailstrwythuro Sefydliadol, a Fframwaith Sicrwydd E-Serve.
- Adolygu a chymeradwyo'r cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2021-22.
- Adolygu diweddariadau gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yn enwedig mewn perthynas â'i harchwiliad o ddatganiadau ariannol Ofgem.
- Adolygu fframwaith rheoli risg Ofgem.
- Cynnal archwiliadau trylwyr o feysydd gwaith neu risgiau strategol Ofgem, gan gynnwys ei gwaith mewn perthynas ag E-Serve, seiberddiogelwch, a diogelwch gwybodaeth.
- Adolygu cynnydd a datblygiad Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ofgem.

## Adrodd

Rhennir cofnodion y Pwyllgor â'r Bwrdd yn ei gyfarfod nesaf, a chaiff Cadeirydd y Pwyllgor gyfle i roi diweddariad i'r Bwrdd ar unrhyw faterion y mae'n dymuno eu codi.

## Y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth

Mae'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth yn cynnwys tri aelod anweithredol o'r Bwrdd, sef Christine Farnish (Cadeirydd), Lynne Embleton a Barry Panayi. Caiff Martin Cave, Cadeirydd y Bwrdd, hefyd wahoddiad i fynychu. Ymddeolodd Paul Grout o'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2020, yn ogystal ag Ann Robinson, yn sgil ei hymddeoliad o'r Bwrdd. Mae'n cynnal pedwar prif gyfarfod y flwyddyn.

Eleni, mae hefyd wedi ysgwyddo cyfrifoldeb penodol am gefnogi'r Rhaglen Trawsnewid sefydliadol – ac wedi cynnal nifer o gyfarfodydd ychwanegol mewn perthynas â hynny ers mis Ionawr 2021. Mae hyn wedi galluogi'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth i roi canllawiau ar ddatblygu cynigion, diben a gwerthoedd sefydliadol a dyluniad sefydliadol, a goruchwylio'r gwaith hwnnw, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ddatblygu proffesiynau, modelau gyrfa, a thimau dynamig ac amlddisgyblaethol i ymateb i anghenion sy'n newid a chyflawni ein blaenoriaethau.

Gwahoddir y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl ac Ystadau i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth hefyd, yn ogystal ag aelodau eraill o staff yn ôl yr angen.

## Rôl a chyfrifoldebau

Cyhoeddir cylch gorchwyl y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth ar wefan Ofgem. Cafodd ei adolygu yn ystod y flwyddyn a'i ddiweddaru er mwyn cryfhau rôl y Pwyllgor i gynnal adolygiad blynyddol o strwythur, maint a chyfansoddiad y Bwrdd a'i Bwyllgorau. Ei gyfrifoldebau allweddol eraill yw cynghori'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr ar gydnabyddiaeth yr Uwch-wasanaeth Sifil, a dulliau strategol o ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â phobl sy'n effeithio ar berfformiad a llwyddiant Ofgem, ynghyd â pholisïau ar faterion o'r fath.

## Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn

Yn ystod y flwyddyn, prif feysydd gweithgarwch y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth oedd:

- Cymeradwyo amcanion blynyddol tîm gweithredol Ofgem.
- Adolygu perfformiad a chydnabyddiaeth tîm gweithredol Ofgem.
- Monitro a chynghori tîm gweithredol Ofgem ar y Rhaglen Trawsnewid sefydliadol barhaus.
- Adolygu canlyniadau'r Arolwg Pobl blynyddol ac ystyried meysydd i'w gwella.
- Cynnal archwiliadau trylwyr thematig o faterion pobl, gan gynnwys cyfraddau gadael staff a threfniadau gweithio a lles staff yn ystod pandemig COVID-19.
- Adolygu strwythur, maint a chyfansoddiad (gan gynnwys sgiliau, gwybodaeth, profiad ac amrywiaeth) y Bwrdd a'i Bwyllgorau, a gwneud argymhellion i'r Bwrdd.
- Adolygu ceisiadau a wneir gan staff sy'n gadael yr Uwch-wasanaeth Sifil o dan y Rheolau Penodiadau Busnes, a'u cymeradwyo.

At hynny, mae nifer o aelodau'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth wedi bod yn aelodau panel wrth recriwtio rolau i'r Pwyllgor Gweithredol, yn arbennig yn dilyn y gwaith ailstrwythuro ar lefel uwch.

## Adrodd

Rhennir cofnodion y Pwyllgor â'r Bwrdd yn ei gyfarfod nesaf, a chaiff Cadeirydd y Pwyllgor gyfle i roi diweddariad i'r Bwrdd ar unrhyw faterion y mae'n dymuno eu codi.

## Y Pwyllgor Gweithredol

Sefydlwyd y Pwyllgor Gweithredol yn 2020-21 yn dilyn gwaith ailstrwythuro ar lefel uwch gan y Prif Weithredwr yn ystod y flwyddyn. Disodlodd nifer o bwyllgorau rheoli blaenorol, gan gynnwys y Bwrdd Rheoleiddio a'r Bwrdd Perfformiad, ac mae'n cynnig un fforwm rheoli i drafod materion rheoleiddio a materion sefydliadol.

## Rôl a chyfrifoldebau

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cefnogi'r Prif Weithredwr wrth gynnal y sefydliad, ac nid yw'n Bwyllgor ffurfiol o'r Awdurdod. Caiff ei gadeirio gan y Prif Weithredwr ac mae'n cyfarfod yn fisol. Mae hefyd yn cynnal sesiwn dal i fyny wythnosol anffurfiol. Mae aelodau'r Pwyllgor Gweithredol wedi'u rhestru ar wefan Ofgem. Gwahoddir aelodau eraill o staff Ofgem i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol yn ôl yr angen.

## Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn

Yn ystod y flwyddyn, prif feysydd gweithgarwch y Pwyllgor Gweithredol oedd rhoi cyngor i'r Prif Weithredwr mewn perthynas â'r canlynol:

- Cymeradwyo dyraniadau cyllidebol ac addasiadau cyllidebol sylweddol yn ystod y flwyddyn, ac adolygu'r sefyllfa gyllidebol bob mis ac unrhyw faterion eraill pwysig sy'n ymwneud â chyllid.
- Ystyried ymatebion y rheolwyr i adroddiadau Archwilio Mewnol ac adroddiadau sicrwydd eraill a monitro cynnydd wrth roi argymhellion yr adroddiadau hynny ar waith.
- Adolygu risgiau strategol bob mis, a'r fframwaith rheoli risgiau ehangach fel y bo'n briodol.
- Ystyried materion pwysig sy'n ymwneud â phobl, a strategaeth a pholisïau amrywiaeth a chynhwysiant y sefydliad.
- Adolygu cynigion polisi neu reoliadol pwysig neu drawsbynciol, neu faterion pwysig sy'n ymwneud â threfniadau Ofgem ar gyfer rhoi cynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol ar waith.
- Adolygu papurau a gyflwynir gan y rheolwyr i'r Bwrdd neu un o is-bwyllgorau'r Bwrdd.

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Gweithredol wedi chwarae rhan weithgar wrth gefnogi'r Prif Weithredwr mewn perthynas â Rhaglen Drawsnewid barhaus y sefydliad.

## Adrodd

Mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn darparu adroddiad misol i'r Bwrdd, gan grynhoi materion proffil uchel a materion llosg sy'n wynebu'r sefydliad, gan gynnwys gweithgareddau'r Pwyllgor Gweithredol fel y bo'n briodol.

## Presenoldeb Ofgem yng Nghymru a'r Alban

Yng Nghymru, rhagwelir y bydd presenoldeb Ofgem yn cynyddu, ac y bydd ein cydweithwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn ymuno â 4,000 o weision sifil llywodraeth y DU yn swyddfeydd canolfan newydd Tŷ William Morgan yng Nghaerdydd.Gwnaethom gwrdd ag amrywiaeth o randdeiliaid ynni ledled Cymru, gan gynnwys y grwpiau tlodi tanwydd National Energy Action Cymru a Cymru Gynnes. Roedd Prif Weinidog Cymru a Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn bresennol yng nghyfarfod bwrdd Ofgem ym mis Chwefror 2021. Rhoddodd hyn y cyfle i'n huwch-dîm arwain ac aelodau'r bwrdd drafod y prif faterion o ran ynni yng Nghymru, a helpu i sicrhau bod defnyddwyr yng Nghymru yn parhau i gael llais cryf yn Ofgem.

Mae gan Ofgem bresenoldeb sylweddol yn yr Alban eisoes, ond mae'n parhau i dyfu. Mae ein swyddfa yn Glasgow yn cyflogi tua 497 o bobl – y mae llawer ohonynt yn gweithio i gyflwyno cynlluniau ynni cynaliadwy ac amgylcheddol i ddefnyddwyr ledled Prydain Fawr fel rhan o'n hisadran E-Serve. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled yr Alban, er gwaethaf heriau'r pandemig. Mae gennym fwrdd a grŵp arwain amrywiol, ac rydym wedi treulio llawer o amser dros y flwyddyn ddiwethaf yn cyfarfod ag arbenigwyr ynni a ffigurau dylanwadol , gan gynnwys Llywodraeth yr Alban, diwydiant, arloeswyr a grwpiau defnyddwyr.

## Rheoli Risg

Mae ein strategaeth Rheoli Risg yn amlinellu sut y dylid ymgorffori rheoli risg ym mhob rhan o Ofgem: sut y dylem nodi, gweinyddu a rheoli risgiau. Rydym yn cydnabod y gall amlygiad i risg arwain at ganlyniadau negyddol ond hefyd ganlyniadau cadarnhaol: ein tasg yw rheoli nid yn unig y risgiau a all fod yn andwyol i ddefnyddwyr ond hefyd y cyfleoedd hynny a allai amlygu defnyddwyr i'r canlyniadau cadarnhaol sy'n deillio o gystadleuaeth a rheoleiddio gwell.

Mae'r Bwrdd yn defnyddio cyngor a chymorth gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i gyflawni ei gyfrifoldeb cyffredinol am y Fframwaith Rheoli Risg a phennu ein parodrwydd i dderbyn risg. Cymeradwyodd Ddatganiad ffurfiol o Barodrwydd i Dderbyn Risg ym mis Medi 2020 a diwygiodd y Strategaeth Rheoli Risg ym mis Ionawr 2021.

Mae ein tîm gweithredol yn ystyried ein risgiau a'n materion strategol bob mis, ac yn adolygu cynlluniau lliniaru cysylltiedig. Lle mae'r risgiau y tu allan i'r Datganiad o Barodrwydd i Fentro a gymeradwywyd gan y Bwrdd, cytunir ar gamau gweithredu clir i'w adfer i lefelau goddefiant. Caiff archwiliadau annibynnol o'n prosesau rheoli risg eu cynnal gan ein swyddogaeth Archwilio Mewnol ar gylch o ddwy i dair blynedd.

Ym mis Mehefin 2020, cytunodd ein tîm gweithredol ar yr angen i gryfhau ein prosesau a'n harferion rheoli risg, ar ôl nodi rhai gwendidau ac anghysondebau o ran y ffordd y mae'n gweithio yn flaenorol.

Nododd ein hasesiad mewnol nifer o feysydd penodol i'w gwella, a gwnaethom ymrwymo i gynllun i wella ein haeddfedrwydd risg drwy gyflwyno fframwaith rheoli risg mwy ffurfiol a chefnogi hyn drwy ddulliau cyfathrebu cadarn, staff risg ymroddedig a hyfforddiant i sicrhau bod arferion gorau safonol effeithiol ar waith ym mhob rhan o'r Adran.

Yn asesiad mis Mehefin 2020, nodwyd bod ein haeddfedrwydd risg yn perthyn i'r categori Ymwybodol o Risg, sef yr ail bwynt ar raddfa pum pwynt o Naïf o ran Risg i Risg wedi'i Galluogi, a chytunwyd ar raglen sefydliadol i wella ein prosesau a'n harferion. Gwnaethom osod nod gwella dau gam. Targed Cam Un oedd gwella ein haeddfedrwydd risg i'r safle Risg wedi'i Diffinio (pwynt tri ar y raddfa pum pwynt) erbyn 30 Medi 2020 ac i Risg wedi'i Rheoli (pwynt pedwar) erbyn 31 Mawrth 2020. Cyflwynwyd y fframwaith rheoli gofynnol er mwyn cyflawni'r nodau hyn o fewn yr amserlen uchelgeisiol ar gyfer gwella a bennwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Mae Ofgem bellach yn canolbwyntio ar y cam gweithredu.

| | **Naïf o ran risg** | **Ymwybodol o risg** | **Risg wedi'i diffinio** | **Risg wedi'i rheoli** | **Risg wedi'i galluogi** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion y risg** | Dim dull ffurfiol wedi'i ddatblygu ar gyfer rheoli risg | Dull gwasgaredig yn seiliedig ar seilos o reoli risg | Strategaeth a pholisïau ar waith ac wedi'u rhannu<br><br>Parodrwydd i dderbyn risg wedi'i ddiffinio. | Dull menter o reoli risg wedi'i ddatblygu a'i rannu | Rheolaethau mewnol a rheoli risg wedi'u hymgorffori'n llawn yn y gweithrediadau |
| | | Mehefin 2020 | Medi 2020 | Mawrth 2021 | |

## Ein hasesiad risg

Yn ystod y flwyddyn, dyma'r risgiau mwyaf sylweddol a nodwyd ac a oedd yn cael eu lliniaru:

| Risg | Ymateb |
|---|---|
| **Ymadael â'r UE:** y risg o oedi o ran y negodiadau yn golygu na fyddai gan Ofgem lawer o amser i lunio cynllun manwl ar gyfer rhoi Cytundeb Masnachu Teg ar waith. | Gwnaethom weithio gydag adrannau eraill o Lywodraeth EM i fonitro hynt negodiadau Brexit yn ofalus, a gwnaethom reoli ein hadnoddau mewnol yn hyblyg er mwyn sicrhau y gallem ymateb yn effeithiol i gyflawni ein gwaith i roi Cytundeb Masnachu Teg ar waith pan fyddai angen. |
| **Methiant cadernid technoleg neu ymosodiad seiber ar weithredwyr nwy neu drydan,** gan arwain at doriad yn y cyflenwad lleol | Gwnaethom gryfhau ein Hawdurdod Cymwys ar y cyd â BEIS i fonitro a chefnogi ymateb y diwydiant i risgiau i seiberddiogelwch a chadernid. |

| Risg | Ymateb |
| --- | --- |
| **Y tarfu a fu ar weithgareddau'r diwydiant o ganlyniad i COVID-19,** gan arwain at fethiant i gyflawni rhwymedigaethau rheoliadol neu ganlyniadau andwyol i ddefnyddwyr. | Gwnaethom flaenoriaethu ein gwaith er mwyn cyfeirio adnoddau at y materion a'r risgiau pwysicaf sy'n wynebu defnyddwyr, yn enwedig yn ystod camau cynnar y pandemig. Gwnaethom hefyd gydgysylltu'n agos â'r diwydiant, gan fonitro ei ymateb i'r pandemig er mwyn sicrhau y cafodd y risgiau i ddefnyddwyr eu rheoli'n effeithiol. |
| **Anallu'r diwydiant i weithredu'n effeithiol yn sgil COVID-19,** gan arwain at fethiant i gyflawni rhwymedigaethau rheoliadol, neu ganlyniadau andwyol i ddefnyddwyr. | Gwnaethom weithio'n agos gyda'r diwydiant i flaenoriaethu gwaith craffu dros ymateb i risgiau'r haint. Roedd hyn yn golygu lleihau'r gwaith o fonitro ar weithgareddau nad oeddent yn rhai hanfodol. |
| **Defnyddwyr mewn Sefyllfa Fregus:** Mae newidiadau yn y farchnad ynni a/neu natur y gwasanaethau a gynigir yn cael effaith anghymesur neu annerbyniol ar ddefnyddwyr mewn sefyllfa fregus. | Rydym yn dilyn strategaeth glir i sicrhau ein bod yn parhau i ddiogelu defnyddwyr mewn sefyllfa fregus wrth i farchnadoedd ynni newid, fel y nodir yn Strategaeth Defnyddwyr mewn Sefyllfa Fregus 2025. |
| **Sicrwydd cyflenwad.** Mae sioc allanol (e.e. sy'n gysylltiedig â'r tywydd), methiant technegol annisgwyl neu achos o derfysgaeth, na all ein trefniadau fynd i'r afael ag ef, yn arwain at faterion o ran sicrwydd cyflenwad. | Rydym yn cynnal prosesau effeithiol i fonitro risgiau craidd i'r diwydiant a sicrhau bod gan gyfranogwyr yn y diwydiant gynlluniau cadernid effeithiol ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau hyn. |
| **Methiant Cyflenwr:** Mae methiant cyflenwr yn arwain at darfu a niwed sylweddol i gwsmeriaid a/neu'r farchnad fanwerthu ehangach. | Rydym wedi gwella ein trefniadau ar gyfer monitro gallu ariannol a gweithredol cyflenwyr yn ystod y pandemig, er mwyn sicrhau y gallwn nodi materion a mynd i'r afael â nhw'n gynnar.<br><br>Rydym wedi cyflwyno gwiriadau manylach ar y pwynt mynediad, yn ogystal â gwiriadau parhaus, a fydd, ymhen amser, yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd cyflenwr yn gadael y farchnad mewn ffordd anhrefnus, ac effaith hynny. At hynny, mae gennym brosesau sefydledig ar waith i sicrhau y caiff 'Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall' ei benodi er mwyn atal tarfu pan fydd cyflenwr yn methu. |
| **Stiwardiaeth Data/Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth Reoliadol;** Rheoli neu amlygu gwybodaeth neu ddata heb awdurdod a/neu mewn ffordd amhriodol, gan arwain at effaith andwyol ar Ofgem, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill yn y diwydiant. | Rydym wedi rhoi polisïau ac arferion cadarn ar waith ar gyfer trin data ac wedi ategu'r rhain ag hyfforddiant a rolau a chyfrifoldebau clir. Rydym wedi gwella'r trefniadau ar gyfer monitro gweithgareddau trin data er mwyn nodi gwendidau a mynd i'r afael â nhw. |
| **Hen galedwedd a systemau TG neu rai nad ydynt yn addas at y diben** yn arwain at doriadau yn y gwasanaeth TG i staff Ofgem a phartïon allanol sy'n defnyddio ein systemau. | Rydym yn adolygu, yn profi ac yn cryfhau ein cynlluniau cadernid technoleg ac yn uwchraddio ein seilwaith TG er mwyn symud cymwysiadau ar y gweinydd i wasanaethau cwmwl, a gosod caledwedd newydd yn lle dyfeisiau defnyddwyr hŷn. |
| Diffyg llesiant ac ymgysylltu ymhlith y staff o ganlyniad i orfod gweithio gartref yn ystod y pandemig byd-eang yn effeithio ar **gynhyrchiant ac effeithiolrwydd staff.** | Gwnaethom gyflwyno mesurau i gryfhau'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â staff yn ystod y pandemig a sicrhau bod cyflogeion yn cael mwy o gymorth er budd eu llesiant. |

## Barn Sicrwydd Archwilio Mewnol

Cwblhaodd ein Harchwilydd Mewnol, Mazars LLP, amserlen y cytunwyd arni o adolygiadau yn ystod y flwyddyn. Nodwyd yr adolygiadau hyn drwy waith cynllunio Archwilio Mewnol yn seiliedig ar risg a chyfweliadau â rheolwyr Ofgem a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Roedd y rhaglen Archwilio Mewnol yn cynnwys 10 archwiliad, a chyhoeddwyd wyth adroddiad a oedd yn rhoi 'Sicrwydd Digonol', un a oedd yn rhoi 'Sicrwydd Cyfyngedig', ac un a oedd yn rhoi 'Sicrwydd Sylweddol'. Argymhellodd yr adolygiadau gyfanswm o chwe argymhelliad â blaenoriaeth uchel a 71 o argymhellion eraill. Gwnaethom fonitro'r gwaith o roi'r camau dilynol ar waith, ac roedd 96% o'r camau a oedd ar agor yn ystod y flwyddyn naill ai wedi'u cwblhau'n foddhaol erbyn 31 Mawrth 2021 neu'n dal i fynd rhagddynt o fewn y dyddiadau y cytunwyd arnynt yn yr adroddiadau archwilio.

Rhoddodd Barn Archwilio Mewnol Mazars sicrwydd cymedrol ynghylch fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheoli Ofgem. Yn benodol, cadarnhaodd y farn fod angen gwneud rhai gwelliannau er mwyn gwella digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheoli Ofgem. Nododd gynnydd da mewn perthynas â gweithgareddau rheolaeth fewnol yn ystod y flwyddyn, a thynnodd sylw at wendidau ac eithriadau drwy ei waith archwilio, er nad ystyriwyd bod yr un ohonynt yn sylfaenol. Roedd sawl agwedd ar y farn sicrwydd 'Digonol' a roddwyd yn yr adroddiadau archwilio mewnol unigol yn amodol ar y cynnydd da y cyfeiriwyd ato, a bydd yn bwysig bod Ofgem yn sicrhau ei bod yn parhau i roi ei hargymhellion ar waith mewn modd amserol er mwyn osgoi cynnydd mewn barn sicrwydd anffafriol yn y dyfodol.

## Ffynonellau sicrwydd ychwanegol

Yn ychwanegol at Farn Sicrwydd Flynyddol yr Archwilydd Mewnol, rydym hefyd yn cynnal asesiad mewnol o amgylchedd rheoli Ofgem. Mae pob Cyfarwyddwr yn gyfrifol am lofnodi Datganiad Sicrwydd blynyddol, sy'n rhoi sicrwydd bod systemau rheoli Ofgem yn cael eu cymhwyso'n gyson ac yn effeithiol yn ei adran berthnasol.

Mae asesiad y Datganiad Sicrwydd yn cwmpasu 33 o reolaethau mewnol allweddol. Eleni, roedd prif gasgliadau'r adolygiad yn cynnwys:

- Gwelliant sylweddol i ddull Ofgem o reoli risg.
- Mae'r gwaith o drawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol wedi gwneud rhywfaint o gynnydd i gryfhau'r cymorth a gynigir i weddill Ofgem a meithrin galluoedd ariannol, rheoli pobl a digidol cryfach drwy'r Adran gyfan, er bod angen ei gryfhau ymhellach.
- Erys rhai diffygion mewn systemau a phrosesau cyllid ac adnoddau dynol, a dylid mynd i'r afael â'r rhain drwy gyfuniad o welliannau mewnol a gwaith cysoni â chynlluniau'r llywodraeth ar gyfer safoni a gwella systemau cyllid ac adnoddau dynol.
- Gwnaed gwelliannau sylweddol  mewn perthynas â dangos arferion trin data gwael a mynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio â pholisïau cysylltiedig Ofgem, gan arwain at ddarlun mwy cywir o gydymffurfiaeth na'r hyn a oedd ar gael yn flaenorol. Y ffocws ar gyfer y dyfodol yw rhoi argymhellion allweddol gan y Swyddog Diogelu Data a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ar waith, gyda chymorth gan y Prif Swyddog Data a benodwyd yn ddiweddar, er mwyn sicrhau rheolaeth effeithiol dros ddata.

## Chwythu'r Chwiban

Mae polisi chwythu'r chwiban mewnol Ofgem yn cynnig proses i'r staff godi unrhyw bryderon chwythu'r chwiban ac yn cefnogi diwylliant lle mae cyflogeion yn teimlo'n hyderus i godi materion sy'n achos pryder. Mae'n gyson â'r argymhellion a'r arferion da a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Sifil a Public Concern at Work.

Codwyd un mater o dan y polisi hwn yn ystod y flwyddyn.

## Cwynion i'r Ombwdsmon Seneddol

Ni chafodd unrhyw achosion eu hatgyfeirio at yr Ombwdsmon Seneddol yn ystod y flwyddyn.

## Casgliad

Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud dros y flwyddyn i gryfhau fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheoli Ofgem, ac rwy'n falch iawn o nodi bod y gwaith hwn wedi arwain at welliant yn ein Barn Sicrwydd Archwilio Mewnol gyffredinol.

Serch hynny, cydnabyddir mai sicrhau bod y prosesau a'r adnoddau cywir ar waith fu'r ffocws pennaf. Mae angen gwneud rhagor o waith i ymgorffori'r trefniadau newydd a diwylliant o gydymffurfio ym mhob rhan o'r sefydliad, yn ogystal â meysydd eraill – megis rheoli prosiectau – lle rydym wedi nodi'r angen am welliannau ychwanegol yn y flwyddyn i ddod. Rwy'n hyderus y bydd y gwelliannau hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i gryfhau ein gallu i ddiogelu buddiannau defnyddwyr, a chynnig gwerth am arian iddynt.



**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr

**12 Gorffennaf 2021**



# Adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff

# Adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff

## Contractau Gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau'r Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud ar sail teilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddir gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi pryd y gellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir fel arall, mae'r swyddogion a gwmpesir yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n ben agored. Byddai terfynu penodiad yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn **https://civilservicecommission.independent.gov.uk**

## Polisi Cydnabyddiaeth

Nodir cydnabyddiaeth pob un o'r cyflogeion yn eu contractau a chaiff ei hadolygu'n flynyddol yn unol â'r dyfarniadau y cytunwyd arnynt gan Swyddfa'r Cabinet ac, ar gyfer uwch-weision sifil, yn unol ag argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch. Ar wahân i'r Cadeirydd, mae pob un o'n huwch gyflogeion yn aelodau parhaol o staff. Nid oes gan yr un ohonynt gyfnod rhybudd sy'n hwy na chwe mis.

Mae pob un o gyflogeion yr Uwch Dîm Rheoli yn gymwys i fod yn rhan o gynllun bonws sy'n unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet. Mae'r bonws yn seiliedig ar berfformiad yr unigolyn. Mae taliadau bonws yn rhai ar wahân i gyflog ac nid ydynt yn bensiynadwy.

## Cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliadau pensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am gydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn y rhan fwyaf o uwch-reolwyr (h.y. aelodau'r Bwrdd) yr adran.

## Cydnabyddiaeth (cyflog, buddiannau mewn da a phensiynau - archwiliedig)

Yn ystod y flwyddyn, aeth Ofgem ati i ailstrwythuro haen ei huwch-reolwyr gyda'r nod o greu arweinyddiaeth fwy gwastad â llai o haenau. Mae rolau newydd y Cyfarwyddwyr yn cynnwys mwy o gyfrifoldebau am arweinyddiaeth gorfforaethol, gan weithio gyda'i gilydd drwy'r Pwyllgor Gweithredol.

## Cyfanswm cydnabyddiaeth gyfan

| | Cyflog (£000) | | Taliadau bonws (£000) | | Buddiannau mewn da (i'r £100 agosaf) | | Buddiannau pensiwn (i'r £1,000 agosaf) | | Cyfanswm (£000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2020-21 | 2019-20 | 2020-21 | 2019-20 | 2020-21 | 2019-20 | 2020-21 | 2019-20 | 2020-21 | 2019-20 |
| **Aelodau Pwyllgor Gweithredol Ofgem** [6] [7] | | | | | | | | | | |
| **Jonathan Brearley**[8] Prif Weithredwr | 185-190 | 155-160 | 15-20 | 5-10 | - | - | 108,000 | 92,000 | 305-310 | 255-260 |
| **Akshay Kaul** | 115-120 | - | 10-15 | - | - | - | 46,000 | - | 170-175 | - |
| **Amana Humayun**[9] | 85-90 | - | - | - | - | - | 36,000 | - | 120-125 | - |
| **Anthony Pygram**[10] | 70-75 | - | - | - | - | - | 36,000 | - | 105-110 | - |
| **Cathryn Scott** | 120-125 | - | 15-20 | - | - | - | 64,000 | - | 195-200 | - |
| **Charlotte Ramsay**[11] | 0 - 5 | - | - | - | - | - | 2,000 | - | 5-10 | - |
| **Euan McVicar** | 130-135 | - | - | - | - | - | 52,000 | - | 180-185 | - |
| **Frances Warburton**[12] | 85 - 90 | - | - | - | - | - | 34,000 | - | 120-125 | - |
| **Mark Wiltsher**[13] | 95-100 | - | 5-10 | - | - | - | 38,000 | - | 140-145 | - |
| **Mary Starks**[14] | 70-75 | 165-170 | - | 0-5 | - | - | 29,000 | 64,000 | 100-105 | 235-240 |
| **Neil Kenward** | 100-105 | - | - | - | - | - | 133,000 | - | 230-235 | - |
| **Patricia Dreghorn**[15] | 105-110 | - | 15-20 | - | - | - | 42,000 | - | 160-165 | - |
| **Philippa Pickford** | 85-90 | - | - | - | - | - | 34,000 | - | 115-120 | - |
| **Priya Brahmbhatt-Patel**[16] | 15-20 | - | - | - | - | - | 29,000 | - | 45-50 | - |
| **Richard Smith**[17] | 10-15 | - | - | - | - | - | 5,000 | - | 15-20 | - |
| **Simon Wilde**[18] | 150-155 | - | 5-10 | - | - | - | 20,000 | - | 175-180 | - |
| **Stephanie Broadribb** | 95-100 | - | 10-15 | - | - | - | 39,000 | - | 145-150 | - |
| **Aelodau anweithredol yr Awdurdod** | | | | | | | | | | |
| **Martin Cave** Cadeirydd | 160-165 | 160-165 | - | - | - | - | - | - | 160-165 | 160-165 |

[6] Lle roedd cyfarwyddwyr yn eu swydd yn 2019-20 ond nad oeddent yn cael eu hystyried yn rhan o'r strwythur rheoli ar y pryd, nid yw'n ofynnol datgelu ffigurau cymaradwy.
[7] Hefyd, ymgymerodd Anna Rossington â rôl Cyfarwyddwr Manwerthu Dros Dro ym mis Chwefror 2021
[8] Cyflog sylfaenol cyfatebol blynyddol yn 2019-20 ar gyfer rôl Cyfarwyddwr Gweithredol (heb gynnwys tâl perfformiad) yw £150,000-155,000 a rôl Prif Swyddog Gweithredol (heb gynnwys tâl perfformiad) yw £180,000-185,000.
[9] Gadawodd Ofgem ym mis Ionawr 2021
[10] Gadawodd Ofgem ym mis Tachwedd 2020, a derbyniodd gyfanswm taliad iawndal o £ 230,000 - £ 235,000
[11] Ymunodd ag Ofgem ym mis Chwefror 2021
[12] Gadawodd Ofgem ym mis Rhagfyr 2020, a derbyniodd gyfanswm taliad iawndal o £ 55,000 - £ 60,000
[13] Bu'n aelod o'r Pwyllgor Gweithredol rhwng mis Ebrill 2020 a mis Ionawr 2021
[14] Gadawodd Ofgem ym mis Medi 2020, a derbyniodd gyfanswm taliad iawndal o £ 45,000 - £ 50,000
[15] Gadawodd Ofgem ym mis Ionawr 2021
[16] Ymunodd ag Ofgem ym mis Ionawr 2021
[17] Ymunodd ag Ofgem ym mis Chwefror 2021
[18] Ymunodd â'r Pwyllgor Gweithredol ym mis Rhagfyr 2020

| Cydnabyddiaeth aelodau anweithredol eraill o'r Awdurdod | 2020-21 | | 2019-20 | |
|---|---|---|---|---|
| | Honorariwm | Lwfans | Honorariwm | Lwfans |
| Paul Grout | £20,000 | £3,000 | £20,000 | £3,000 |
| Christine Farnish | £20,000 | £3,000 | £20,000 | £3,000 |
| Lynne Embleton | £20,000 | - | £20,000 | - |
| John Crackett | £20,000 | - | £20,000 | £1,500 |
| Ann Robinson[19] | £10,500 | - | £20,000 | - |
| Myriam Madden[20] | £20,000 | £3,000 | £5,000 | - |
| Barry Panayi[21] | £20,000 | - | £860 | - |

| Cydnabyddiaeth aelodau'r Panel Penderfyniadau Gorfodi | | |
|---|---|---|
| | 2020-21 (£'000) | 2019-20 (£'000) |
| Megan Forbes | 40-45 | 35-40 |
| Amelia Fletcher | 5-10 | 0-5 |
| Elizabeth France | 0-5 | 5-10 |
| Andrew Long | 0-5 | 5-10 |
| Dr Ulrike Hotopp | 10-15 | 5-10 |
| Ali Nikpay | 0-5 | 5-10 |
| Dr Philip Marsden | 5-10 | 0-5 |
| Peter Hinchliffe | 5-10 | 10-15 |

[19] Gadawodd Ofgem ym mis Medi 2020
[20] Fe'i penodwyd ym mis Ionawr 2020
[21] Fe'i penodwyd ym mis Mawrth 2020

## Cyflog

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog gros ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n drethadwy yn y DU.

## Buddiannau mewn da

Mae gwerth ariannol buddiannau mewn da yn cwmpasu unrhyw fuddiannau a ddarperir gan yr adran ac a gaiff eu trin yn dâl trethadwy gan Cyllid a Thollau EM.

## Taliadau Bonws

Mae bonysau yn seiliedig ar lefelau perfformiad a chânt eu rhoi fel rhan o'r broses arfarnu. Mae bonysau yn ymwneud â pherfformiad yn ystod y flwyddyn y daethant yn daladwy i'r unigolyn. Mae'r bonysau yr adroddwyd arnynt yn 2020-21 yn ymwneud â pherfformiad yn 2019-20 ac mae'r bonysau cymaradwy yr adroddwyd arnynt yn 2019-20 yn ymwneud â pherfformiad yn 2018-19.

Yn 2020-21, rhoddwyd bonws i 777 o aelodau o staff (697 yn 2019-20). Y taliad bonws cyfartalog oedd £1,336.26 (£1,277.84 yn 2019/20) a'r cyfanswm a dalwyd mewn taliadau bonws oedd £1,038,276.88 (2019-20 £890,651.12). Cafodd tri unigolyn y taliad bonws mwyaf o £15,000 (2019-20: cafodd tri unigolyn y taliad bonws mwyaf sef £12,500).

## Lluosrifau cyflog

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r gydberthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf yn eu sefydliad a chydnabyddiaeth ariannol ganolrifol gweithlu'r sefydliad.

Cydnabyddiaeth ariannol wedi'i bandio'r cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf yn y flwyddyn ariannol 2020/21 oedd £200-£205,000 (2019/20: £185,000-190,000). Roedd hyn 5.3 gwaith (2019-20: 4.7) yn fwy na chydnabyddiaeth ganolrifol y gweithlu, sef £38,454.50 (2019-20, £40,009).

Yn 2020-21 ni chafodd dim un (2019-20: dim) o gyflogeion Ofgem gydnabyddiaeth a oedd yn fwy na'r cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf. Roedd cydnabyddiaeth yn amrywio o £18,182 i £205,000 (2019-20: £18,182 i £190,000).

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl anghyfunol yn gysylltiedig â pherfformiad a buddiannau mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

## Buddiannau Pensiwn (archwiliedig)

| | Cyfanswm y pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ar 31/3/21 a chyfandaliad cysylltiedig | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn | CETV at 31/3/21 | CETV at 31/3/20 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddogion** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Jonathan Brearley**<br>Prif Weithredwr | 40 - 45 ynghyd â chyfandaliad o 70 - 75 | 5 - 7.5 ynghyd â chyfandaliad o 2.5 - 5 | 633 | 540 | 62 |
| **Akshay Kaul** | 10 - 15 | 2.5 - 5 | 120 | 86 | 22 |
| **Amana Humayun** | 15 - 20 | 0 - 2.5 | 151 | 133 | 14 |
| **Anthony Pygram** | 40 - 45 ynghyd â chyfandaliad o 115 - 120 | 0 - 2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 - 2.5 | 941 | 911 | 23 |
| **Cathryn Scott** | 40 - 45 | 2.5 - 5 | 636 | 571 | 38 |
| **Charlotte Ramsay** | 0 - 5 | 0 - 2.5 | 1 | 0 | 1 |
| **Euan McVicar** | 5 - 10 | 2.5 - 5 | 93 | 56 | 26 |
| **Frances Warburton** | 15 - 20 | 0 - 2.5 | 207 | 174 | 20 |
| **Mark Wiltsher** | 20 - 25 | 0 - 2.5 | 373 | 332 | 23 |
| **Mary Starks** | 5 - 10 | 0 - 2.5 | 89 | 67 | 14 |
| **Neil Kenward** | 30 - 35 ynghyd â chyfandaliad o 55 - 60 | 5 - 7.5 ynghyd â chyfandaliad o 10 - 12.5 | 483 | 368 | 95 |
| **Patricia Dreghorn** | 10 - 15 | 2.5 - 5 | 157 | 122 | 22 |
| **Philippa Pickford** | 25 - 30 ynghyd â chyfandaliad o 45 - 50 | 0 - 2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 - 2.5 | 396 | 363 | 16 |
| **Priya Brahmbhatt-Patel** | 25 - 30 | 0 - 2.5 | 323 | 295 | 18 |
| **Richard Smith** | 0 - 5 | 0 - 2.5 | 3 | 0 | 2 |
| **Simon Wilde** | 5 - 10 | 0 - 2.5 | 115 | 96 | 11 |
| **Stephanie Broadribb** | 0 - 5 | 0 - 2.5 | 42 | 15 | 19 |

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd bron bob gwas sifil newydd ei benodi a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd eisoes yn weision sifil ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, bu gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran: tair yn rhoi buddiannau ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60 oed; ac un yn rhoi buddiannau ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65 oed.

Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a chaiff costau'r buddiannau eu talu gan arian a gymeradwyir drwy bleidlais gan Senedd y DU bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth y Cynnydd mewn Pensiynau. Arhosodd unigolion a oedd eisoes yn aelodau o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai sydd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Mae buddiannau pob aelod o dan y PCSPS sy'n newid i alpha wedi'u 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddiannau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael eu buddiannau yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos bod pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu alpha – fel y bo'n briodol. Pan fydd gan y swyddog fuddiannau yn y PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfun ei fuddiannau yn y ddau gynllun.) Gall aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddiannau diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' sy'n cynnwys cyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â'u cyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% i aelodau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddiannau classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol adeg ymddeol. Mae buddiannau premium yn cronni ar gyfradd o 1/60ain o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth ar gyfer premium. Yn wahanol i'r cynllun classic, ni cheir unrhyw gyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae'r cynllun classic plus yn gynllun hybrid â buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun classic a buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel y cynllun premium. Bydd aelod o gynllun nuvos yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) credydir cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth y Cynnydd mewn Pensiynau. Mae buddiannau yn y cynllun alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio'r ffaith y ceir cyfradd gronni o 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (gohirio) i ddarparu cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel gan y darparwr penodedig - Legal & General. Nid oes angen i'r cyflogai gyfrannu ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, telir cyfraniad cyfatebol gan y cyflogwr hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy hefyd i gwmpasu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl iddo orffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Chwe deg oed yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 oed ar gyfer aelodau nuvos, a 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, p'un bynnag sydd uchaf, i aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos bod pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu alpha yn briodol. Lle mae gan y swyddog fuddiannau yn y PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfun eu buddiannau yn y ddau gynllun ond noder y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.)

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**

## Gwerthoedd Trosglwyddo'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV) yw'r gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraidd o fuddiannau'r cynllun pensiwn sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddiannau pensiwn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd ar lefel uwch y mae datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol sydd wedi'i gronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl mewn buddiannau sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan fydd buddiannau pensiwn yn cael eu codi.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau cyffredin prisio'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Iawndal am golli swydd (archwiliedig)

Gadawodd tri aelod o'r Pwyllgor Gweithredol o dan delerau Ymadael Gwirfoddol y llynedd. Y taliad iawndal cronnus (gan gynnwys cyflog yn lle rhybudd, costau ymadael trethadwy ac anhrethadwy) oedd £345,000.

Ni adawodd neb o dan delerau Diswyddo Gwirfoddol.

# Adroddiad staff

## Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd (archwiliedig)

Roedd nifer y staff cyfwerth â llawn amser a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | | | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Rheoleiddio | 375 | 20 | **395** | 392 |
| E-serve | 329 | 94 | **423** | 288 |
| Operations | 308 | 61 | **369** | 250 |
| **Cyfanswm** | **1,012** | **175** | **1,187** | **930** |

Roedd 43.5 o bobl sy'n gyfwerth ag amser cyfan ar gyfartaledd ar radd SCS yn ystod y flwyddyn. O'r rhain roedd 28.1 ym mand cyflog 1, 14 ym mand cyflog 2, a 1.4 ym mand cyflog 3.

## Costau staff (archwiliedig)

| Mae costau staff yn cynnwys | | | 2020-21 £000 | 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Cyflogau | 45,775 | 11,741 | **57,516** | 48,233 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 5,163 | 467 | **5,630** | 4,901 |
| Costau pensiwn eraill | 11,813 | 1,098 | **12,911** | 11,023 |
| Costau staff eraill | 235 | 22 | **257** | 610 |
| Lefi Prentisiaethau (gwariant treth) | 231 | 3 | **234** | 199 |
| **Cyfanswm** | **63,217** | **13,331** | **76,548** | **64,966** |

Cynlluniau buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr heb eu hariannu yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn "alpha", ond ni all Ofgem nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol.

Prisiodd actiwari'r cynllun PCSPS ar 31 Mawrth 2016. Ceir y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet:Pensiwn Sifil.

Ar gyfer 2020-21, roedd cyfraniadau'r cyflogwr o £12,729,324 yn daladwy i'r PCSPS (2019-20 £10,806,569) ar un o bedair gradd yn yr amrediad 26.6% i 30.3% o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Mae actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir y cyfraddau cyfrannu i dalu cost y buddiannau sy'n cronni yn ystod 2020-21 a delir pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddiannau a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn **partneriaeth**, sef pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £175,202.30 i un neu fwy o banel o dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8% i 14.75%.

Bydd cyflogwyr hefyd yn talu cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniad y cyflogai hyd at 3% o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal, roedd y cyflogwr yn cyfrannu £6,798, sef 0.5% o gyflog pensiynadwy i'r PCSPS i dalu'r gost o ddarparu buddiannau yn y dyfodol ar ffurf cyfandaliad ar farwolaeth mewn gwasanaeth neu ymddeoliad oherwydd salwch i'r cyflogeion hyn.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn **partneriaeth** ar ddyddiad y fantolen. Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y dyddiad hwnnw.

Nid ymddeolodd neb (2019-20: neb) yn gynnar oherwydd salwch; ni chronnwyd unrhyw rwymedigaethau pensiwn ychwanegol yn ystod y flwyddyn (2019-20: dim).

## Gwariant ar wasanaethau ymgynghori

Ein gwariant ar wasanaethau ymgynghori eraill yn 2020-21 oedd £18.6 miliwn, yn unol â nodyn 3 o'r cyfrifon (2019-20: £15.83 miliwn; 2018-19: £18.04 miliwn). Rydym yn ceisio lleihau ein dibyniaeth ar gymorth allanol drwy gynnal ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu ar gyfer y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni ein strategaeth. Rydym yn parhau i ddefnyddio cymorth gwasanaethau proffesiynol i gael gafael ar arbenigwyr sy'n rhoi cyngor proffesiynol neu gyfreithiol mewn perthynas â chyflawni ein portffolio o waith, yn ogystal â'r rhai sy'n rhoi cymorth cyflawni arbenigol lle nad yw'n ddarbodus cynnal yr arbenigedd hwn yn fewnol.

## Penodeion nad ydynt ar y gyflogres

Roedd 10 o weithwyr oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2021 a oedd yn ennill £245 y dydd neu fwy. Roedd pump ohonynt am gyfnod o lai na blwyddyn ac roedd pump ohonynt am gyfnod o rhwng blwyddyn a dwy flynedd.

Yn ystod 2020-21, roedd 10 penodiad yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac yn cael eu hystyried o fewn cwmpas IR35. Roedd un yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac yn cael ei ystyried o fewn cwmpas IR35. Ailaseswyd un penodiad at ddibenion cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn ac ni newidiwyd ei statws IR35 yn dilyn yr adolygiad.

Ni fu unrhyw benodiadau oddi ar y gyflogres o ran aelodau'r bwrdd a/neu uwch-swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol.

## Amser cyfleuster undeb llafur

Roedd 14 o gyflogeion yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod 2020-21 (14 cyfwerth ag amser llawn). Treuliodd pob un o'r 14 o gyflogeion 1-50% o'u horiau gwaith ar amser cyfleuster. Cyfanswm cost amser cyfleuster yn ystod y flwyddyn oedd £6,479 allan o gyfanswm bil cyflogau o £76.058 miliwn (gwariwyd 0.008% o'r cyfanswm bil cyflogau ar amser cyfleuster). Canran yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl oedd 42%.

Ceir gwybodaeth am benodeion presennol oddi ar y gyflogres yn Atodiad III. Ceir gwybodaeth am amser cyfleuster i undebau llafur yn Atodiad IV.

## Adrodd ar gynlluniau'r gwasanaeth sifil a chynlluniau iawndal eraill – pecynnau ymadael (archwiliedig)

| Band costau pecyn ymadael | 2020-21 | | | 2019-20 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y swyddi a ddilëwyd yn orfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band costau | Nifer y swyddi a ddilëwyd yn orfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band costau |
| <£10,000 | - | 1 | 1 | - | 1 | 1 |
| £10,000 - £25,000 | 1 | 1 | 1 | 1 | 10 | 11 |
| £25,000 - £50,000 | - | 1 | 1 | - | 11 | 11 |
| £50,000 - £100,000 | - | 2 | 2 | - | 5 | 5 |
| £100,000 - £150,000 | - | - | - | - | - | - |
| £150,000 - £200,000 | - | - | - | - | - | - |
| £200,000 - £250,000 | - | 1 | 1 | - | - | - |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael | 1 | 5 | 6 | 1 | 27 | 28 |
| **Cyfanswm y gost £000** | **16** | **413** | **413** | **16** | **868** | **884** |

Talwyd costau dileu swyddi a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae'r tabl uchod yn dangos cyfanswm costau pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y cyfrifwyd amdanynt yn 2020-21 (rhoddir ffigurau cymaradwy 2019-20 hefyd). Talwyd £413,000 mewn costau ymadael yn 2020-21, sef y flwyddyn ymadael (2019-20 ffigurau cymaradwy).

Lle mae'r adran wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir y costau ychwanegol gan yr adran yn hytrach na chynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff costau ymddeol oherwydd salwch eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

| Cyfansoddiad y staff | Menywod | | Dynion | |
|---|---|---|---|---|
| Pob cyflogai | 544 | 46% | 642 | 54% |
| Band cyflog 1 SCS | 14 | 45% | 17 | 55% |
| Band cyflog 2 SCS | 7 | 47% | 8 | 53% |
| Band cyflog 3 SCS | 0 | 0% | 1 | 100% |

## Cynnwys cyflogeion

Y flwyddyn hon, cafodd ein harolwg ymgysylltu â staff gyfradd ymateb o 82%, a mynegai ymgysylltu o 65%, sef cynnydd o dri phwynt canrannol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae ein staff yn parhau i nodi bod eu rolau yn ddiddorol (90%), gan gredu bod eu gwaith yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad personol iddynt (77%), a byddent yn argymell Ofgem fel lle gwych i weithio (70% – cynnydd o dri phwynt canrannol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol).

## Polisi cyfle cyfartal

Rydym yn recriwtio staff ar sail teilyngdod drwy gystadleuaeth deg ac agored, yn unol ag egwyddorion recriwtio'r Gwasanaeth Sifil a lywodraethir gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil.

Mae hyn yn sicrhau cystadleuaeth deg ac agored, heb ystyried:

- hil;
- rhyw;
- cyfeiriadedd rhywiol;
- oedran;
- statws priodasol;
- anabledd;
- crefydd a chred;
- ailbennu rhywedd;
- beichiogrwydd a mamolaeth; na
- phatrwm gweithio.

Caiff yr holl weithgarwch recriwtio ei archwilio gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r canllawiau a nodir yn yr egwyddorion recriwtio.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Yn ein rôl ddeuol fel cyflogwr a rheoleiddiwr, rydym yn ymrwymedig i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith ein gweithlu, yn y ffordd rydym yn gweithio ac yn y diwydiant rydym yn ei reoleiddio.

Rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gwaith: wrth recriwtio, cyflogi, hyfforddi a datblygu gyrfa staff. Ni ddylai neb wynebu gwahaniaethu oherwydd oedran, anabledd, ailbennu rhyw, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Nid ydym yn goddef gwahaniaethu, bwlio nac aflonyddu. Yn arolwg ymgysylltu â staff 2020 cawsom sgôr o 83% ar gyfer cynhwysiant a thriniaeth deg. Yn 2020-21, rhoesom gefnogaeth ychwanegol bellach i amrywiaeth, gan gynnwys adnewyddu ein statws Hyderus o ran Anabledd, lansio rhaglen Menywod mewn Arweinyddiaeth a lleihau'r potensial ar gyfer rhagfarn wrth recriwtio a dethol drwy gyflwyno rhestri byrion dall. Rydym wedi penodi trydydd parti i gynnal adolygiad annibynnol o'n strategaeth a'n rhaglenni ym maes amrywiaeth.

Mae Ofgem hefyd wedi parhau i gefnogi ein rhwydweithiau amrywiaeth sy'n cwmpasu menywod, LGBT+, ethnigrwydd ac anabledd.

Yn 2020-21, parhawyd i ddarparu hyfforddiant ar amrywiaeth a chynhwysiant i staff. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i sicrhau bod staff yn deall ac yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ym mhopeth a wnânt. Ar 31 Mawrth 2021:

- gwyddys bod gan 4.3% (2019-20: 3.1%) o staff anabledd.
- roedd 46% (2019-20: 47%) o staff yn fenywod.
- roedd 43% (2019-20: 43%) o'r staff mewn swyddi rheoli (Band D i SCS3) yn fenywod.
- roedd 45% (2019-20: 46%) o aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil yn Ofgem yn fenywod.
- gwyddys bod 19% (2019-20: 19%) o'r staff o darddiad lleiafrif ethnig.
- gwyddys bod 35% (2019-20: 35%) o'r staff o darddiad ethnig lleiafrif mewn swyddi rheoli (Band D i SCS3).

Mae ein datganiad polisi am gyfle cyfartal ar gael i bob cyflogai.

Gellir gweld data ar fwlch cyflog Ofgem rhwng y rhywiau yn https://gender-pay-gap.service.gov.uk/Employer/LkjznjGE/2020

## Buddsoddi mewn dysgu a datblygu

Mae'r gwaith o drawsnewid y swyddogaeth Dysgu a Datblygu Sefydliadol yn mynd rhagddo ac mae strategaeth wrthi'n cael ei llunio, gan sicrhau bod darpariaeth a chynhyrchion sy'n addas at y diben ar gael i helpu i roi'r model gweithredu targed a'r rhaglen drawsnewid ar waith yn llwyddiannus, gan ganolbwyntio ar 5 piler/maes datblygu allweddol; cyfuniad o waith datblygu technegol ac ymddygiadol

â 5 piler ychwanegol sy'n gydnaws â gofynion dysgu a datblygu sefydliadol – er enghraifft Amrywiaeth a Chynhwysiant. Dylunio a gweithredu diwylliant dysgu a datblygu yn Ofgem gan gynnig cyfleoedd dysgu ystwyth, hyblyg, hygyrch a mesuradwy o ran yr adenillion ar fuddsoddiad i unigolion, timau a'r sefydliad cyfan.

## Ymgysylltu â'r gymuned

Rydym yn mynd ati i gefnogi cyflogeion sy'n rhoi o'u hamser neu eu harian eu hunain i helpu elusennau, neu weithgareddau cymunedol neu wirfoddol eraill. Er enghraifft, efallai y byddem yn rhoi amser i ffwrdd i rywun sy'n gweithredu fel llywodraethwr ysgol, ynad heddwch, aelod o banel tribiwnlys cyflogaeth, neu rywun sy'n gwirfoddoli'n rheolaidd. Rydym yn parhau i weithio gyda Career Ready ac mae aelodau o'n staff yn rhoi cymorth ac arweiniad un i un i bobl ifanc 16-19 oed drwy gynllun mentora. Yn 2018, gwnaethom hefyd dreialu gweithio gyda'r Prince's Trust yn ein swyddfa yn Glasgow. O ganlyniad i lwyddiant y treial hwn, mae E-Serve wedi ymrwymo i gydberthynas barhaus drwy gynnig mentora a phrofiad gwaith i'r rhai sy'n chwilio am gyfleoedd drwy waith y Prince's Trust.

Yn Llundain, rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwaith ymgysylltu â'r gymuned drwy Ganolfan Bromley-by-Bow (BBC). Elusen leol yw BBC sy'n rhoi cymorth cymunedol a chyfleoedd i ddysgu a gwella llesiant i drigolion Tower Hamlets. Yn Glasgow, rydym wedi ymgysylltu â Chymuned Simon. Mae Cymuned Simon yn canolbwyntio ar frwydo yn erbyn achosion ac effeithiau digartrefedd.

## Hybu iechyd a diogelwch yn y gwaith

Rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb cyfreithiol am iechyd, diogelwch a lles ein cyflogeion o ddifrif. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n gweithio gyda ni neu i ni, ac unrhyw un arall sy'n defnyddio ein safleoedd. Ein nod yw atal unrhyw ddamwain sy'n cynnwys anaf personol, salwch neu niwed.

Rydym yn cydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac unrhyw ddeddfwriaeth arall. Mae ein datganiad polisi am iechyd a diogelwch yn disgrifio ein cyfrifoldebau a'n nodau yn fanylach. Mae ar gael i bob cyflogai.

Yn ein swyddfeydd yn Commonwealth House a Canary Wharf, rydym wedi llwyddo i ddarparu amgylcheddau gwaith i gefnogi llesiant ein staff. Mae hyn yn cynnwys cynnig amgylcheddau gwaith gwahanol, desgiau eistedd/sefyll ac offer arbenigol eraill.

## Diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb

Yn 2020-21, collwyd 2.7 diwrnod y flwyddyn fesul cyflogai ar gyfartaledd (2019-20: 4.6 diwrnod). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd y sector cyhoeddus sef 8.4 diwrnod y flwyddyn fesul cyflogai.



**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr

**12 Gorffennaf 2021**



# Adroddiad ar atebolrwydd seneddol ac archwiliad

# Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol

## Crynodeb o'r alldro adnoddau a chyfalaf 2020-21

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r adran baratoi Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol a nodiadau ategol. Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig yn cael eu harchwilio, fel y nodwyd yn Nhystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Tŷ'r Cyffredin.

Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn ddatganiad atebolrwydd allweddol sy'n dangos, yn fanwl, sut mae endid wedi gwario yn erbyn ei Amcangyfrif o Gyflenwad. Cyflenwad yw'r ddarpariaeth ariannol (at ddibenion adnoddau a chyfalaf) ac arian parod (a ddaw o'r Gronfa Gyfunol yn bennaf), y mae Senedd y DU yn rhoi awdurdod statudol i endidau ei defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn manylu ar y cyflenwad ac mae Senedd y DU yn ei gymeradwyo drwy bleidlais ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Os bydd endid yn mynd dros y terfynau a bennir gan ei Amcangyfrif o Gyflenwad, a elwir yn derfynau rheoli, bydd barn amodol yn cael ei rhoi ar ei gyfrifon. Mae fformat y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn adlewyrchu'r Amcangyfrifon o'r Cyflenwad, a gyhoeddir ar gov.uk, er mwyn ei gwneud yn bosibl cymharu'r hyn y mae Senedd y DU yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol.

Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn cynnwys tabl cryno, sy'n manylu ar berfformiad yn erbyn y terfynau rheoli y mae Senedd y DU wedi'u cymeradwyo drwy bleidlais, arian parod a wariwyd (llunnir cyllidebau ar sail croniadau ac felly ni fyddai alldro yn cyfateb yn union i'r arian parod a wariwyd) a gweinyddiaeth.

Mae'r nodiadau ategol yn manylu ar y canlynol: Alldro fesul llinell o'r Amcangyfrif, sy'n rhoi dadansoddiad manylach (nodyn 1); cysoni alldro â gwariant gweithredu net yn y SOCNE, i gysylltu'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol â'r datganiadau ariannol (nodyn 2); cysoni alldro â'r gofyniad arian parod net (nodyn 3); a, dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy at y Gronfa Gyfunol (nodyn 4).

| Tabl cryno, 2020-21, cyflwynir pob ffigur mewn £000'oedd | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Alldro | | | Amcangyfrif | | | | |
| **Math o Wariant** | **Nodyn SoPS** | **Cymeradwywyd drwy bleidlais** | **Nis cymeradwywyd drwy bleidlais** | **Cyfanswm** | **Cymeradwywyd drwy bleidlais** | **Nis cymeradwywyd drwy bleidlais** | **Cyfanswm** | **Alldro yn erbyn Amcangyfrif, arbediad** | **Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2019-20** |
| **Gwariant Adrannol Terfynau** | | | | | | | | | |
| Adnoddau | 1.1 | 11,994 | - | 11,994 | 14,801 | - | 14,801 | 2,807 | 701 |
| Cyfalaf | 1.2 | 2,199 | - | 2,199 | 4,300 | - | 4,300 | 2,101 | 1,000 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | | | |
| Adnoddau | | | - | | | - | | | - |
| Cyfalaf | | | - | | | - | | | - |
| **Cyfanswm y Gyllideb Anghyllidebol** | | 14,193 | - | 14,193 | 19,101 | - | 19,101 | 4,908 | 1,701 |
| Adnoddau | | 2,388 | - | 2,388 | 5,900 | - | 5,900 | 3,512 | - |
| **Cyfanswm y Gwariant Cyllidebol ac Anghyllidebol** | | **16,581** | **-** | **16,581** | **25,001** | **-** | **25,001** | **8,420** | **1,701** |
| Cyfanswm Alldro Adnoddau | | 11,994 | - | 11,994 | 14,801 | - | 14,801 | 2,807 | 701 |
| Cyfanswm Alldro Cyfalaf | | 2,199 | - | 2,199 | 4,300 | - | 4,300 | 2,101 | 1,000 |
| **Cyfanswm** | | **14,193** | **-** | **14,193** | **19,101** | **-** | **19,101** | **4,908** | **1,701** |

**Gofyniad arian parod net 2020-21, cyflwynir pob ffigur mewn £000'oedd**

| Math o wariant | Nodyn SoPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro yn erbyn Amcangyfrif, Arbediad | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad arian parod net** | **3** | 6,812 | 10,416 | 3,604 | (8,746) |

**Costau gweinyddol 2020-21, cyflwynir pob ffigur mewn £000'oedd**

| Math o wariant | Nodyn SoPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro yn erbyn Amcangyfrif, Arbediad | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau gweinyddol** | **1.1** | 11,994 | 14,801 | 2,807 | 53 |

Er nad yw'n derfyn a gymeradwyir drwy bleidlais ar wahân, bydd unrhyw achos o fynd dros y gyllideb weinyddol hefyd yn arwain at bleidlais uwchlaw'r terfyn. Rhoddir esboniadau o'r amrywiannau rhwng yr amcangyfrif a'r alldro yn adroddiad ar Atebolrwydd. Mae gan yr adran Addasiadau o'r Cyfnod Blaenorol oherwydd, yn ystod 2020-21, nododd Ofgem fod swm anghywir o TAW wedi cael ei adennill gan

CThEM mewn blynyddoedd blaenorol. Dylai darpariaeth fod wedi'i chydnabod ar gyfer y swm sy'n ddyledus i CThEM. Mae datganiadau ariannol 2019-20 wedi cael eu hailddatgan i gydnabod y ddarpariaeth hon. Felly, cynyddodd cyllideb RDEL Gweinyddol ar gyfer 2019-20 £5.9m. Mae'n briodol bod yr adran yn ceisio awdurdod seneddol ar gyfer y ddarpariaeth y dylid bod wedi'i geisio'n flaenorol. Yn 2020-21, mae'r Addasiad hwn o'r Cyfnod Blaenorol wedi cael ei wneud, sydd wedi'i gynnwys yn y Cyflenwad yn yr Amcangyfrif a gymeradwywyd drwy bleidlais.

Nodiadau i'r Datganiad o Ganlyniad yn erbyn Cyflenwad Seneddol, 2020-21 (£000's)

# SoPS1. Manylion yr Alldro, fesul Llinell o'r Amcangyfrif

## SoPS1.1 Dadansoddiad o'r alldro adnoddau fesul llinell o'r Amcangyfrife

| | Alldro Adnoddau – Gweinyddu | | | Amcangyfrif | | | Alldro yn erbyn Amcangyfrif, Arbediad | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o Wariant (Adnoddau)** | **Gros** | **Incwm** | **Cyfanswm net** | **Cyfanswm** | **Trosglwyddiadau** | **Cyfanswm gan gynnwys trosglwyddiadau** | | |
| **Gwariant mewn terfynau gwariant adrannol (DEL)** | | | | | | | | |
| A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan: gweinyddu | 92,013 | (80,717) | 11,296 | 14,100 | - | 14,100 | 2,804 | 701 |
| B E-Serve Ofgem: gweinyddu | 29,100 | (28,402) | 698 | 701 | - | 701 | 3 | 648 |
| **Cyfanswm yr adnoddau** | **121,113** | **(109,119)** | **11,994** | **14,801** | - | **14,801** | **2,807** | **53** |

## SoPS1.2 Dadansoddiad o'r alldro cyfalaf net fesul Llinell o'r Amcangyfrif

| | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Alldro yn erbyn Amcangyfrif, Arbediad | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o Wariant (Cyfalaf)** | **Gros** | **Incwm** | **Cyfanswm net** | **Cyfanswm** | **Trosglwyddiadau** | **Cyfanswm gan gynnwys trosglwyddiadau** | | |
| **Gwariant mewn terfynau gwariant adrannol (DEL)** | | | | | | | | |
| A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan: gweinyddu | 2,199 | - | 2,199 | 4,300 | - | 4,300 | 2,101 | 318 |
| B E-Serve Ofgem: gweinyddu | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm cyfalaf** | **2,199** | **-** | **2,199** | **4,300** | **-** | **4,300** | **2,101** | **318** |

Rhoddir esboniadau o'r amrywiannau rhwng yr amcangyfrif a'r alldro yn adroddiad ar Atebolrwydd.t.

Mae colofnau cyfanswm yr Amcangyfrif yn cynnwys trosglwyddiadau. Trosglwyddiadau yw ailddyrannu darpariaeth yn yr Amcangyfrifon nad oes angen awdurdod seneddol ar eu cyfer (am nad yw Senedd y DU yn pleidleisio ar lefelau mor fanwl â hynny ac yn dirprwyo i Drysorlys EM). Rhoddir rhagor o wybodaeth am drosglwyddiadau yn y Llawlyfr ar Amcangyfrifon o'r Cyflenwad, sydd ar gael yn gov.uk. Mae'r golofn alldro v amcangyfrif yn seiliedig ar y cyfanswm, gan gynnwys trosglwyddiadau. Mae cyfanswm yr amcangyfrif cyn trosglwyddiadau wedi'i gynnwys fel y gall defnyddwyr gysylltu'r amcangyfrif â'r Amcangyfrifon a osodwyd gerbron Senedd y DU.

## SoPS2 Cysoni alldro â'r gost weithredu net

Nid oes angen SoPS2 am fod cyfanswm yr alldro adnoddau yn y SoPS yr un peth â'r gwariant gweithredu net yn yr SoCNE.

## SoPS3 Cysoni alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net

| Eitem | Cyfeirnod | Cyfanswm yr alldro | Amcangyfrif | Alldro yn erbyn Amcangyfrif, arbedion/(dros ben) |
|---|---|---|---|---|
| | Note | £000 | £000 | £000 |
| **Alldro adnoddau** | SoPS1.1 | **11,994** | **14,801** | **2,807** |
| **Alldro cyfalaf** | SoPS1.2 | **2,199** | **4,300** | **2,101** |
| **Croniadau i addasiadau arian parod:** | | | | |
| ▪ Dibrisiant ac amhariad | 3 | (1,416) | (1,500) | (84) |
| ▪ Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau | | (10,924) | (14,100) | (3,176) |
| ▪ Eitemau anariannol eraill | | (92) | (85) | (7) |
| **Symudiad mewn cyfalaf gwaith:** | | | | |
| - Dyledwyr | | 7,873 | 6,000 | (1,873) |
| - Credydwyr | | (3,512) | 1,000 | 4,512 |
| ▪ Defnydd o ddarpariaeth | 11 | 690 | | (690) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **6,812** | **10,416** | **3,604** |

Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r SoPS uchod, caiff alldro a'r Amcangyfrifon eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, yn hytrach nag ar sail arian parod. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio rhwng yr alldro adnoddau a chyfalaf a'r gofyniad arian parod net.

## SoPS4 Dadansoddiad o incwm i'r gronfa gyfunol

Ni chasglwyd unrhyw incwm o'r gronfa gyfunol gennym yn 2020-21. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw symiau a gasglwyd gennym wrth weithredu fel asiant y gronfa gyfunol yn hytrach na phenadur. Ceir manylion llawn yr incwm a gasglwyd fel asiant y gronfa gyfunol yn natganiad ymddiriedaeth yr adran, a gyhoeddwyd ar wahân i'r datganiadau ariannol hyn ond ochr yn ochr â hwy.

## Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol (archwiliedig)

**Rheoleiddio gwariant**

Cymhwyswyd gwariant Ofgem at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU.
Nid oes gan Ofgem ddim i'w nodi mewn perthynas â'r canlynol:

- Colledion a thaliadau arbennig;
- Datgeliadau ffioedd a thaliadau;
- Rhwymedigaethau digwyddiadol annhebygol;
- Tueddiadau gwariant hirdymor..



**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr

**12 Gorffennaf 2021**

# Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Tŷ'r Cyffredin

## Barn ar y datganiadau ariannol

- Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llifau Arian Parod, Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u dehonglir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM.

Rwyf hefyd wedi archwilio'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig, a'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Atebolrwydd a'r Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel datganiad sydd wedi cael ei archwilio.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Adran ar 31 Mawrth 2021, ac o wariant net cynhwysfawr yr Adran ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a gymeradwywyd drwy bleidlais ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 ac yn dangos nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hyn; a'r
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU), cyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio'n fanylach o dan gyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer yr archwiliad yn adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2019. Rwyf hefyd wedi dewis cymhwyso'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau rhestredig. Rwy'n annibynnol ar Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Rwyf i a'm staff wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol o ran cynnig sail dros fy marn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn gwneud defnydd priodol o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau nac achosion a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuon sylweddol ar allu Swyddfa'r

Marchnadoedd Nwy a Thrydan i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad awdurdodi'r datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail gyfrifyddu busnes gweithredol Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd y Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y disgwylir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau yn y dyfodol.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys rhannau o'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Atebolrwydd na'r Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol y disgrifir yn yr adroddiad hwnnw eu bod wedi'u harchwilio, y datganiadau ariannol a thystysgrif yr archwilydd a luniwyd gennyf. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif. Mewn perthynas â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd gennyf yn yr archwiliad neu sy'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn berthnasol fel arall. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol neu gamddatganiadau perthnasol amlwg o'r fath, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, os dof i gasgliad bod y wybodaeth arall wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi roi gwybod am hynny. Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

Paratowyd rhagymadroddion ar wahân i ragair y Cadeirydd i'r adroddiad blynyddol mewn perthynas â fersiynau o'r adroddiad blynyddol i'w cyflwyno gerbron Senedd Cymru a Senedd yr Alban.

Nid yw'r rhagymadroddion hynny wedi'u cynnwys yn y wybodaeth arall a nodir uchod ac nid ydynt wedi'u harchwilio.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Atebolrwydd a'r Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau ar Berfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion rwyf yn rhoi adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad na'r Adroddiad ar Atebolrwydd. Nid oes gennyf ddim i'w nodi o ran y materion canlynol yr wyf yn cyflwyno adroddiad i chi yn eu cylch os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu na chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw;
- nid yw'r datganiadau ariannol na'r rhannau o'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd na'r adroddiad Atebolrwydd Seneddol i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- na wneir datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM;
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad;
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am gael ei fodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- y rheolaethau mewnol sydd eu hangen ym marn y Swyddog Cyfrifyddu er mwyn gallu paratoi'r datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall.
- asesu gallu Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni fydd y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Fy nod yw cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys ein barn mewn adroddiad archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod unrhyw gamddatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan mewn perthynas â'r canlynol:
    - o nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a ph'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
    - o canfod ac ymateb i'r risg o dwyll a ph'un a ydynt yn ymwybodol o unrhyw achosion gwirioneddol, a amheuir neu honedig o dwyll.
    - o y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys Deddfwriaeth Rheoli Arian Cyhoeddus a Threth;
- trafod â'r tîm ymgysylltu sut a ble y gallai achosion o dwyll godi yn y datganiadau ariannol ac unrhyw arwyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, cyhoeddi cyfnodolion anarferol sy'n rhoi cyfrif am amcangyfrifon a meysydd eraill o farn rheolwyr megis cydnabod a phrisio darpariaethau;
- cael a deall fframwaith awdurdod Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddio eraill y mae Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn gweithredu yn unol â nhw, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan. Ymhlith y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf mae'r canlynol: Deddfwriaeth Rheoli Arian Cyhoeddus a Threth, gan gynnwys y Ddeddf Treth ar Werth (1994),

Yn ogystal â'r uchod, ymhlith fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd roedd y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennaeth ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a'r cwnsleriaid cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth fynd i'r afael â'r risg y byddai'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn dangos rhagfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg fusnes unrhyw drafodion o bwys sy'n anarferol neu'r tu hwnt i fusnes arferol;
- gwaith archwilio, gan gynnwys ymgymryd â gweithdrefnau i ddibynnu ar waith arbenigwr y rheolwyr, mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer ad-dalu TAW;
- herio asesiad y rheolwyr o amlygiad i gostau posibl mewn perthynas ag apeliadau cwmnïau ynni yn erbyn penderfyniad prisiau 2020 Ofgem.

Hefyd, rhannais y cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o dwyll â holl aelodau'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr mewnol, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Gellir gweld disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a gymeradwywyd drwy bleidlais ac nad aed uwchlaw'r cyfansymiau hynny. Mae'r cyfansymiau rheoli Seneddol a gymeradwywyd drwy bleidlais yn Derfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), (Adnodd) Nad yw'n Gyllidebol a Gofyniad Arian Parod Net. Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu mewn perthynas ag, ymhlith materion eraill, y cwmpas a'r amseru a gynlluniwyd ar gyfer yr archwiliad a chanfyddiadau sylweddol o'r archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol ym maes rheolaeth fewnol rwyf yn eu canfod yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**
Dyddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria, London SW1W 9SP

**13 Gorffennaf 2021**



# Cyfrifon adnoddau

# Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

Mae'r cyfrif hwn yn crynhoi'r gwariant a'r incwm a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd ar sail croniadau. Mae hefyd yn cynnwys incwm a gwariant cynhwysfawr arall, sy'n cynnwys newidiadau i werthoedd asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol eraill na ellir eu cydnabod fel incwm na gwariant eto.

| | Nodyn | 2020-21<br>£000 | 2019-20<br>Ailddatganwyd<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Incwm Gweithredu | 4 | (109,119) | (99,145) |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | | **(109,119)** | **(99,145)** |
| Costau staff | 3 | 76,548 | 64,966 |
| Gwariant gweithredu arall | 3 | 44,565 | 35,297 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | **121,113** | **100,263** |
| **Gwariant gweithredu net ar gyfer y cyfnod** | 2 | **11,994** | **1,118** |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **11,994** | **1,118** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 73 i 87 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol
# Ar 31 Mawrth 2021

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno sefyllfa ariannol yr adran. Mae iddo dair prif ran: asedau a berchenogir neu a reolir; rhwymedigaethau sy'n ddyledus i gyrff eraill; ac ecwiti, sef gwerth gweddilliol yr endid.

| | Note | 2020-21 £000 | 2019-20 Ailddatganwyd £000 | 1 Ebrill 2019 Ailddatganwyd £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 5 | 2,285 | 1,502 | 2,677 |
| ***Cyfanswm yr asedau anghyfredol*** | | **2,285** | **1,502** | **2,677** |
| **Asedau cyfredol:** | | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 9 | 15,575 | 7,702 | 7,189 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 8 | 3,604 | 12,269 | 9,036 |
| ***Cyfanswm asedau cyfredol*** | | **19,179** | **19,971** | **16,225** |
| ***Cyfanswm yr asedau*** | | **21,464** | **21,473** | **18,902** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 10 | (23,137) | (28,290) | (18,382) |
| Darpariaethau | 11 | (14,308) | (1,131) | (570) |
| ***Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredo*** | | **(37,445)** | **(29,421)** | **(18,952)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **(15,981)** | **(7,948)** | **(50)** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | | |
| Darpariaethau | 11 | (2,298) | (5,241) | (3,254) |
| ***Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol*** | | **(2,298)** | **(5,241)** | **(3,254)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau** | | **(18,279)** | **(13,189)** | **(3,304)** |
| **Ecwiti trethdalwyr:** | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | (18,279) | (13,189) | (3,304) |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **(18,279)** | **(13,189)** | **(3,304)** |



**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr

**12 Gorffennaf 2021**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 73 i 87 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Datganiad o Lifau Arian Parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

Mae'r Datganiad o Lifau Arian Parod yn dangos y newidiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar gyfer yr adran yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r adran yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo drwy ddosbarthu llifau arian parod fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian parod net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o gostau gwasanaeth a'r graddau y caiff y gweithrediadau hyn eu hariannu drwy incwm gan dderbynyddion gwasanaethau a ddarparwyd gan yr adran. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli i ba raddau y mae llifau arian parod i mewn ac allan wedi cael eu gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan yr adran yn y dyfodol.

| | Nodyn | 2020-21 £000 | 2019-20 Ailddatganwyd £000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu:** | | | |
| Gwariant gweithredu net | SoPS1.1 | (11,994) | (1,118) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod | SoPS3 | 12,432 | 4,564 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 9 | (7,873) | (513) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy | 10 | (5,153) | 9,908 |
| llai symudiadau mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r SoCNE. | 10 | 8,665 | (3,233) |
| Defnydd o ddarpariaethau | 11 | (690) | (544) |
| **Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(4,613)** | **9,064** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi:** | | - | - |
| Eiddo, offer a chyfarpar a brynwyd | 5 | (2,199) | (318) |
| **Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(2,199)** | **(318)** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau cyllido** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol | SOCiTE | 6,893 | 1,389 |
| Blaendaliadau o'r Gronfa wrth Gefn | | 27,000 | 20,000 |
| Taliadau i'r Gronfa wrth Gefn | | (27,000) | (20,000) |
| **Ariannu net** | | **6,893** | **1,389** |
| **Gostyngiad net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod cyn addasiad ar gyfer taliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **81** | **10,135** |
| Taliadau symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | | (8,746) | (6,902) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn y cyfnod cyn addasiad ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **(8,665)** | **3,233** |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod | 8 | 12,269 | 9,036 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y cyfnod** | 8 | **3,604** | **12,269** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 73 i 87 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn ar y cronfeydd wrth gefn gwahanol a ddelir gan yr adran, wedi'u dadansoddi'n 'gronfeydd cyffredinol wrth gefn' (h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny sy'n adlewyrchu cyfraniad o'r Gronfa Gyfunol). Mae'r Gronfa Gyffredinol yn cynrychioli cyfanswm asedau adran llai rhwymedigaethau, i'r graddau nad yw'r cyfanswm wedi ei gynrychioli gan gronfeydd wrth gefn nac eitemau ariannu eraill.

| | | **Cronfa gyffredinol** |
|---|---|---|
| | **Nodyn** | **£000** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | | **(3,304)** |
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr | 3 | 100 |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | SoCNE | (1,118) |
| Enillion/colledion sy'n ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn | 11 | - |
| Cyllid Seneddol Net – tybiedig | | 2,134 |
| Cyllid Seneddol Net – a hawliwyd | | 1,389 |
| Addasiad taladwy i'r cyflenwad | | (12,269) |
| Derbyniadau arian parod o 2018-19 nad ydynt yn ddyledus i'r gronfa gyfunol | | (121) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020 (ailddatganwyd)** | | **(13,189)** |
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr | 3 | 100 |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | SoCNE | (11,994) |
| Cyllid Seneddol Net – tybiedig | | 3,523 |
| Cyllid Seneddol Net – a hawliwyd | | 6,893 |
| Addasiad taladwy i'r cyflenwad | | (3,604) |
| Derbyniadau arian parod o 2019-20 nad ydynt yn ddyledus i'r gronfa gyfunol | | (8) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | | **(18,279)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 73 i 87 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu a nodir yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd yng nghyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fo'r Llawlyfr yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae Ofgem wedi dewis y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i'r amgylchiadau penodol at ddiben rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gennym isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae'r Llawlyfr Adrodd Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r adran baratoi un prif ddatganiad ychwanegol. Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol (SoPS) a'r nodiadau ategol yn dangos alldro yn erbyn amcangyfrif o ran y gofyniad adnoddau net a'r gofyniad arian parod net, ac maent wedi'u cynnwys yn yr adran yn yr Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwiliad sy'n dechrau ar dudalen 60.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail busnes gweithredol o dan y confensiwn cost hanesyddol. Cyflwynir y cyfrifon i'r £'000 agosaf. Yn debyg i adrannau eraill y llywodraeth, caiff ein rhwymedigaethau eu hariannu yn y dyfodol drwy grantiau cyflenwi yn y dyfodol a defnyddio incwm yn y dyfodol, y ddau i'w cymeradwyo'n flynyddol gan Senedd y DU. Mae'r symiau sydd eu hangen ar gyfer 2021-22 eisoes wedi'u cymeradwyo ac nid oes unrhyw reswm dros gredu na chaiff symiau yn y dyfodol eu cymeradwyo. Felly, rydym wedi ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes gweithredol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

### Busnes gweithredol

Yn debyg i adrannau eraill y llywodraeth, caiff ein rhwymedigaethau eu hariannu yn y dyfodol drwy grantiau cyflenwi yn y dyfodol a defnyddio incwm yn y dyfodol, y ddau i'w cymeradwyo'n flynyddol gan Senedd y DU. Mae'r symiau sydd eu hangen ar gyfer 2021-22 eisoes wedi'u cymeradwyo ac nid oes unrhyw reswm dros gredu na chaiff symiau yn y dyfodol eu cymeradwyo. Rydym yn disgwyl parhau i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Felly rydym wedi ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes gweithredol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

### 1.2 Incwm gweithredu

Incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu Ofgem yw incwm gweithredu. Yn bennaf, mae'n cynnwys ffioedd am drwyddedau a ffioedd a thaliadau a godir am wasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn.

- **Ffioedd trwydded** - Ym mhob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i Ofgem fantoli ei wariant â'i incwm. Mae'n ofynnol i Ofgem godi incwm o'r sector a reoleiddir ganddi er mwyn talu'r costau y mae Ofgem yn mynd iddynt wrth reoleiddio'r sector hwnnw. Felly, mae'r ddeddfwriaeth yn darparu'r gorfodadwyedd ar y naill barti a'r llall er mwyn galluogi Ofgem i adennill ei chostau gan drydydd partïon. Mae'r rhwymedigaethau perfformiad yn gysylltiedig â'r gwaith sylfaenol sydd i'w gyflawni gan Ofgem fel rheoleiddiwr y Farchnad Nwy a Thrydan, ac fel y nodir yn y Flaenraglen Waith. Cydnabyddir refeniw yn y flwyddyn pan eir i'r rhwymedigaeth perfformiad (cost).

- **Taliadau a ailgodir drwy gynlluniau** - O dan gytundebau lefel gwasanaeth/contractau â'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a chyrff eraill y llywodraeth, mae Ofgem yn gweinyddu cynlluniau ynni ac amgylcheddol ar eu rhan. Darperir y gwasanaethau hyn ar sail cost lawn. Cydnabyddir incwm ar sail croniadau wrth i'r rhwymedigaethau perfformiad a amlinellir yn y cytundebau lefel gwasanaeth/contractau gael eu bodloni dros amser.

- **Incwm arall** - Cyfrifir am incwm arall ar sail croniadau.

## 1.3 Pensiynau

Cwmpesir cyn-gyflogeion a chyflogeion presennol gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS). Disgrifir y rhain yn yr Adroddiad ar Staff. Mae'r ddau gynllun yn anghyfrannol a heb eu hariannu. Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill a gwmpesir gan y ddau gynllun yn cyflawni cost pensiynau a ddarperir ar gyfer y staff a gyflogir ganddynt drwy dalu taliadau a gyfrifir ar sail croniadau. Mae rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol yn arwystl ar y cynlluniau. Ceir datganiad cynllun ar wahân ar gyfer y PCSPS a'r CSOPS yn eu cyfanrwydd.

## 1.4 Costau gadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i Ofgem dalu cost buddiannau ychwanegol y tu hwnt i fuddiannau arferol y PCSPS i gyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar. Darparwyd ar gyfer y gost lawn pan fydd y rhaglen ymddeol yn gynnar wedi'i chyhoeddi a'i bod yn gyfrwymol.

## 1.5 Eiddo, offer, cyfarpar a dibrisiant

Delir eiddo, offer a chyfarpar ar gost hanesyddol wedi'i dibrisio fel procsi am werth cyfredol, gan fod hyn yn adlewyrchu'r defnydd o'r ased yn realistig Ni fyddai ailbrisiadau yn achosi gwahaniaeth perthnasol.

Darperir dibrisiant ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu eiddo, offer a chyfarpar mewn rhandaliadau hafal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig, ar ôl ystyried gwerth gweddilliol. Mae oes asedau o fewn yr amrediadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Gwelliannau lesddaliadol | Oes y brydles |
| Cyfarpar, dodrefn a ffitiadau swyddfa | Pum mlynedd |
| Cyfarpar TG | Tair blynedd |

Yr isafswm lefel ar gyfer cyfalafu eiddo, offer a chyfarpar yw £2,000. Caiff cyfarpar TG a dodrefn, lle y gall asedau unigol gostio llai nag £2,000, eu cyfalafu ar sail grŵp.

## 1.6 Prydlesau gweithredu

Caiff rhenti sy'n ddyledus o dan brydlesau gweithredu eu codi ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr dros dymor y brydles ar sail llinell syth, neu ar sail rhenti gwirioneddol sy'n daladwy sy'n adlewyrchu'r defnydd yn deg (ceir rhagor o fanylion yn nodyn 11).

## 1.7 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol yn cynnwys arian parod yn y banc ac mewn llaw. At ddiben y datganiad llif arian parod, mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn cynnwys arian parod yn unig.

## 1.8 Darpariaethau

Lle mae gan Ofgem rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongladwy i dalu costau penodol, bydd Ofgem yn darparu ar gyfer hynny ar sail amcangyfrif y rheolwyr o werth, tebygolrwydd ac amseru taliadau yn y dyfodol.

Lle mae gwerth amser arian yn berthnasol, caiff y ddarpariaeth ei disgowntio i'w werth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio safonol y llywodraeth (sef cyfradd nominal o (0.02%) am hyd at y pum mlynedd gyntaf a 0.18% dros bum mlynedd).Bob blwyddyn mae'r taliadau ariannol yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr yn cynnwys yr addasiadau i amorteiddio disgownt blwyddyn ac ailddatgan rhwymedigaethau i lefelau prisiau presennol.

## 1.9 Treth ar werth

Dangosir symiau yn glir o dreth ar werth (TAW), ac eithrio'r canlynol:

- codir TAW na ellir ei hadennill ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr ac mae wedi'i chynnwys o dan y pennawd sy'n berthnasol i'r math o wariant
- mae TAW na ellir ei adennill ar brynu ased wedi'i chynnwys yng nghost prynu wedi'i chyfalafu yr ased.

Mae'r swm sy'n ddyledus gan Gyllid a Thollau EM ar gyfer TAW wedi'i gynnwys yn y symiau derbyniadwy yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

## 1.10 Cyfnewid tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi'n sterling ar y gyfradd gyfnewid gyfredol ar ddyddiad pob trafodyn.

## 1.11 Risgiau ariannol

Nid yw Ofgem yn sylweddol agored i risgiau sy'n gysylltiedig â hylifedd, cyfradd llog nac arian cyfred. Oherwydd natur ei gweithgareddau a'r ffordd y caiff Ofgem ei hariannu, ni chaiff ei hamlygu i'r un graddau o risg ariannol y mae endidau busnes yn eu hwynebu.

## 1.12 Rhwymedigaethau digwyddiadol

Yn ogystal â rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir yn unol ag IAS 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Amodol), cyflwynir adroddiad ar rwymedigaethau digwyddiadol statudol ac anstatudol penodol at ddibenion adrodd ac atebolrwydd seneddol. Digwydd hyn lle cred y rheolwyr ei bod yn annhebygol iawn y caiff budd economaidd ei drosglwyddo, ond lle mae adroddiad ar y rhwymedigaethau wedi cael ei gyflwyno i Senedd y DU yn unol â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus.

## 1.13 Asedau sy'n eiddo i drydydd partïon

Ni chaiff asedau sy'n eiddo i drydydd partïon fel y'u datgelir yn Nodyn 13 (megis arian a ddelir mewn perthynas â'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a chynlluniau Tariff Cyflenwi Trydan) eu cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol gan nad oes gan Ofgem unrhyw fudd ynddynt.

## 1.14 Mabwysiadu safonau cyfrifyddu newydd a diwygiedig

- **IFRS 16**

Bydd IFRS 16 Prydlesau yn gymwys o 1 Ebrill 2022 (wedi'u gohirio o 1 Ebrill 2021) i gyrff FReM ac yn disodli IAS 17 Prydlesau. Mae IFRS 16 Prydlesau yn cynnig model cyfrifyddu un prydlesai, sy'n ei gwneud yn ofynnol i brydleseion gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles oni fydd tymor y brydles yn para 12 mis neu lai, neu os bydd yr ased sylfaenol yn bodloni meini prawf IFRS 16 i gael ei ddosbarthu'n ased "gwerth isel".

Mae IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i asedau a rhwymedigaethau gael eu cydnabod ar werth wedi'i ddisgowntio'r isafswm taliadau prydles i ddechrau, ac i'r asedau, sydd i'w disgrifio fel asedau "hawl defnyddio", eu cyflwyno o dan Eiddo, Offer a Chyfarpar. Felly, bydd gweithredu IFRS 16 yn cynyddu gwerth eiddo, offer a chyfarpar a gwerth rhwymedigaethau prydles.

Ar ôl cael eu cydnabod i ddechrau, caiff asedau hawl defnyddio eu hamorteiddio ar sail llinell syth a chaiff llog ei gydnabod ar y rhwymedigaethau. O ganlyniad, bydd amseriad cydnabod cyfanswm costau prydlesau yn newid, gan y bydd costau llog yn uwch ar ddechrau prydles.

Caiff IFRS 16 ei rhoi ar waith drwy ddefnyddio'r dull dal i fyny cronnus, sy'n golygu na chaiff ffigurau cymaradwy ar gyfer 2021-22 eu hailddatgan, a chaiff yr addasiad i asedau net ei wneud yn weithredol o 1 Ebrill 2022. Mae'r dull hwn wedi'i orfodi gan Drysorlys EM. Mae prydlesau perthnasol Ofgem yn ymwneud â rhenti eiddo ar gyfer swyddfeydd. Amcangyfrifir mai effaith gweithredu yw cynnydd o tua £22 miliwn mewn asedau a rhwymedigaethau yn seiliedig ar dybiaethau, cyfraddau llog a chyfraddau disgowntio 2020-21.

- **IFRS 17**

Nid yw'n debygol y caiff IFRS 17 Contractau yswiriant ei mabwysiadu gan y sector cyhoeddus tan 2023 neu ar ôl hynny. Ni ddisgwylir i'r effaith fod yn berthnasol i'r adran.

## 1.15 Polisi Cyfrifyddu ar Benderfyniadau Cyfrifyddu Hanfodol ac Ansicrwydd ynghylch Amcangyfrifon

- **Darpariaethau**

Mae darpariaethau yn dibynnu ar arfer barn broffesiynol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill y disgwylir iddynt ddylanwadu ar ddigwyddiadau yn y dyfodol. Lle y bernir bod rhwymedigaeth yn debygol o grisialu ac y gellir ei mesur gyda sicrwydd rhesymol, cydnabyddir darpariaeth. Datgelir rhagor o wybodaeth yn nodyn 11.

- **Oes ddefnyddiol asedau anghyfredol**

Ceir ansicrwydd ynglŷn ag oes ddefnyddiol amcangyfrifedig asedau anghyfredol; caiff y rhain eu hadolygu ar y dyddiad adrodd a'u diweddaru os bydd disgwyliadau yn wahanol i'r amcangyfrifon blaenorol oherwydd traul, darfodiad technegol neu fasnachol neu gyfyngiadau cyfreithiol neu gyfyngiadau eraill ar y defnydd a wneir ohonynt.

## 1.16 Addasiad y Cyfnod Blaenorol

Yn ystod 2020-21, nododd Ofgem fod swm anghywir o TAW wedi cael ei adennill gan CThEM mewn blynyddoedd blaenorol. Dylai darpariaeth fod wedi'i chydnabod ar gyfer y swm sy'n ddyledus i CThEM. Mae datganiadau ariannol 2019-20 wedi cael eu hailddatgan i gydnabod y ddarpariaeth hon.

## 2. Datganiad o wariant gweithredu fesul cylchran weithredu

| 2020-21 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gweithgareddau Rheoleiddio £000 | Ofgem E-Serve £000 | Gwasanaethau Corfforaethol £000 | Cyfanswm £000 |
| Gwariant gros | 44,340 | 29,100 | 47,673 | 121,113 |
| Incwm | (44,340) | (28,402) | (36,377) | (109,119) |
| **Gwariant net** | **-** | **698** | **11,296** | **11,994** |

| 2019-20 Ailddatganwyd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gweithgareddau Rheoleiddio £000 | Ofgem E-Serve £000 | Gwasanaethau Corfforaethol £000 | Cyfanswm £000 |
| Gwariant gros | 36,117 | 24,443 | 39,703 | 100,263 |
| Incwm | (36,117) | (23,795) | (39,233) | (99,145) |
| **Gwariant net** | **-** | **648** | **470** | **1,118** |

Mae adroddiadau cylchrannol yn cael eu cyflwyno ar sail gweithgarwch, yn unol ag adroddiadau misol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y sefydliad.

## 3. Gwariant

| | Nodyn | 2020-21 £000 | 2019-20 Ailddatganwyd £000 |
|---|---|---|---|
| **Costau staff:*** | | | |
| Cyflogau | | 57,516 | 48,233 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | | 5,630 | 4,901 |
| Costau Pensiwn Eraill | | 12,911 | 11,023 |
| Costau Staff Eraill | | 257 | 610 |
| Lefi Prentisiaethau | | 234 | 199 |
| | | **76,548** | **64,966** |
| **Rhenti o dan brydlesau gweithredu:** | | | |
| Prydlesau gweithredu (tir ac adeiladau) | 6 | 2,792 | 3,479 |
| | | **2,792** | **3,479** |
| **Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod:** | | | |
| Cydnabyddiaeth a threuliau'r archwilwyr** | | 100 | 100 |
| Dibrisiant | 5 | 1,416 | 973 |
| Amhariad | 5 | | 515 |
| Addasiad tâl gwyliau | | 1,310 | |
| | | **2,826** | **1,588** |
| **Gwariant arall:** | | | |
| Ymgynghoriaeth | | 18,689 | 15,829 |
| Costau swyddfeydd | | 2,594 | 1,945 |
| Recriwtio a hyfforddiant | | 1,132 | 1,350 |
| Teithio a chynhaliaeth | | 31 | 984 |
| Cyflenwadau a chyfarpar swyddfa | | 4,831 | 4,648 |
| Gwasanaethau Proffesiynol | | 929 | 1,352 |
| Costau sy'n ymwneud â staff | | 254 | 366 |
| Gwariant arall | | 484 | 670 |
| | | **28,944** | **27,144** |
| **Darpariaethau:** | | | |
| Symudiad mewn darpariaeth | 11 | 10,003 | 3,086 |
| **Cyfanswm** | | **121,113** | **100,263** |

* Ceir rhagor o ddadansoddiad o gostau staff yn yr Adroddiad ar Staff ar dudalen 54
** Nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth i archwilwyr am waith nad oedd yn waith archwilio.

## 4. Dadansoddiad o incwm gweithredu

| | 2020-21 £000 | | | 2019-20 Ailddatganwyd £000 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Incwm** | **Costau llawn** | **Diffyg** | **Incwm** | **Costau llawn** | **Diffyg** |
| Ffioedd trwydded (allanol) | 77,301 | 77,301 | - | 72,194 | 72,194 | - |
| Arall | 31,818 | 43,812 | (11,994) | 26,951 | 28,069 | (1,118) |
| **Cyfanswm** | **109,119** | **121,113** | **(11,994)** | **99,145** | **100,263** | **(1,118)** |

| **Mae incwm arall yn cynnwys:** | **Nodyn** | **2020-21 £000** | **2019-20 Ailddatganwyd £000** |
|---|---|---|---|
| Tâl Tendr Trawsyrru ar y Môr a Ailgodir | | 2,638 | 2,629 |
| Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (yn ymwneud â rhaglenni amgylcheddol a throsglwyddo staff) | 13 | 24,269 | 16,806 |
| Taliadau wedi'u hailgodi a ariennir gan gynlluniau | | 4,045 | 6,105 |
| Adrannau eraill | | | 180 |
| Amrywiol* | | 866 | 1,231 |
| | | **31,818** | **26,951** |

* Mae incwm amrywiol yn cynnwys ffioedd ar gyfer ceisiadau am drwydded, a mân eitemau eraill.

## 5. Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Dodrefn | Cyfarpar swyddfa | TG | Lesddaliadol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 229 | 121 | 1,382 | 6,038 | 7,770 |
| Ychwanegiadau | - | 322 | 1,811 | 66 | 2,199 |
| Gwarediadau | - | - | - | - | - |
| Amhariadau | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **229** | **443** | **3,193** | **6,104** | **9,969** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 114 | 8 | 827 | 5,319 | 6,268 |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 66 | 42 | 877 | 431 | 1,416 |
| Gwarediadau | - | - | - | - | - |
| Amhariadau | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **180** | **50** | **1,704** | **5,750** | **7,684** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2021** | **49** | **393** | **1,489** | **354** | **2,285** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2020 | 116 | 113 | 555 | 718 | 1,502 |

| | Dodrefn | Cyfarpar swyddfa | TG | Lesddaliadol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 332 | 1,999 | 7,162 | 7,533 | 17,026 |
| Ychwanegiadau | 47 | 121 | 109 | 41 | 318 |
| Gwarediadau | (150) | (1,999) | (5,889) | (1,536) | (9,574) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **229** | **121** | **1,382** | **6,038** | **7,770** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 211 | 1,997 | 6,022 | 6,119 | 14,349 |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 52 | 73 | 632 | 216 | 973 |
| Gwarediadau | (150) | (2,062) | (5,827) | (1,530) | (9,569) |
| Amhariadau | - | - | - | 515 | 515 |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **113** | **8** | **827** | **5,320** | **6,268** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2020** | **116** | **113** | **555** | **718** | **1,502** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2019 | 121 | 2 | 1,140 | 1,414 | 2,677 |

## 6. Prydlesau gweithredu

Roedd £2.8m (2019-20: £3.5m) wedi'i gynnwys fel traul ar brydlesau gweithredu yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Nodir cyfanswm yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesau gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol.

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Adeiladau: | | |
| O fewn blwyddyn | 2,218 | 2,194 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 8,222 | 8,095 |
| Ar ôl pum mlynedd | 14,014 | 16,292 |
| | **24,454** | **26,581** |

Mae'r swyddfa yn Llundain o dan gontract tan fis Mehefin 2032.

Mae'r swyddfa yn Glasgow o dan brydles tan 2026-27 gyda thoriadau blynyddol o 2021-22.

Mae'r swyddfa yng Nghaerdydd wedi'i chontractio tan fis Mawrth 2026 gydag opsiwn i ymestyn tan 2045.

## 7. Offerynnau ariannol

Gan fod gofynion arian parod yr adran yn cael eu bodloni drwy'r broses Amcangyfrifon, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig o ran creu a rheoli risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae'r mwyafrif o'r offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig yr adran ac felly fel arfer nid yw'r adran yn agored i fawr ddim risg o ran credyd, hylifedd na'r farchnad.

## 8. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 12,269 | 9,036 |
| Newid net mewn balansau arian parod: | (8,665) | 3,233 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **3,604** | **12,269** |
| Daliwyd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn y canlynol: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 3,604 | 1,996 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | - | 10,273 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **3,604** | **12,269** |

Yn ogystal â'r balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo a ddatgelir uchod, mae Ofgem yn dal asedau trydydd parti arian parod a llythyrau credyd sy'n ymwneud â gwarannau datblygwyr tendrau ar y môr, y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, a chronfa Tariffau Cyflenwi Trydan a'r cynlluniau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy. Disgrifir y rhain yn nodyn 14.

## 9. Symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | **£000** | **£000** |
| Incwm a gronnwyd | 12,987 | 5,787 |
| Symiau masnach derbyniadwy | 793 | 564 |
| Rhagdaliadau | 1,309 | 639 |
| TAW | 468 | 660 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 18 | 52 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **15,575** | **7,702** |

Y symiau derbyniadwy eraill yw benthyciadau staff sy'n ddyledus, megis benthyciadau tocyn tymor a benthyciadau drwy'r cynllun beicio i'r gwaith.

## 10. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | **£000** | **£000** |
| Symiau a roddwyd o'r Gronfa Gyfunol i'w cyflenwi ond nas gwariwyd erbyn diwedd y flwyddyn | 3,604 | 3,523 |
| Arian parod dros ben sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | | 8,746 |
| Ffioedd trwydded gohiriedig | 745 | 3,955 |
| Croniadau | 5,502 | 6,290 |
| Incwm gohiriedig arall | 5,477 | 555 |
| Symiau taladwy eraill | 3,108 | 1,799 |
| Trethiant arall a nawdd cymdeithasol | 2,952 | 2,497 |
| Symiau masnach taladwy | 1,749 | 925 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **23,137** | **28,290** |

Mae Ofgem yn annog staff i ddefnyddio eu hawl lawn i wyliau bob blwyddyn. Fodd bynnag, gall staff gario hyd at ddeg diwrnod o wyliau nas defnyddiwyd drosodd i'r flwyddyn nesaf. Caiff symiau nas defnyddiwyd ar 31 Mawrth eu cronni fel "symiau taladwy eraill".

## 11. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

**Addasiad y cyfnod blaenorol: Ailddatgan y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r Datganid o Wariant Net Cynhwysfawr**

Wrth baratoi adroddiad blynyddol 2020-21, nodwyd gorhawliad hanesyddol o TAW. Mae Ofgem wedi ailddatgan datganiadau ariannol 2019-20 i gynnwys darpariaeth o £0.47 yn ôl-weithredol ar gyfer TAW a orhawliwyd.

Effaith ailddatgan Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr 2019-20 yw cynyddu "Gwariant Gweithredu Arall" £2.388m a chynyddu "Darpariaethau" o fewn "Rhwymedigaethau Anghyfredol" o'r un swm. Mae'r rhwymedigaethau ar 1 Ebrill 2019 yn cynyddu £1.918 miliwn.

Dyfyniadau o'r datganiad o wariant net cynhwysfawr a'r datganiad o'r sefyllfa ariannol.

| | 2019-20 (fel yr adroddwyd arno'n flaenorol) | Ailddatganwyd | 2019-20 (ailddatganwyd) |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Incwm Gweithredu** | **(99,145)** | **-** | **(99,145)** |
| Costau staff | 64,966 | - | 64,966 |
| Gwariant gweithredu arall | 34,827 | 470 | 35,297 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | **99,793** | **470** | **100,263** |
| **Gwariant gweithredu net ar gyfer y cyfnod** | **648** | **470** | **1,118** |

| | 2019-20 (fel yr adroddwyd arno'n flaenorol) | Ailddat-ganwyd | 2019-20 (ailddatgan-wyd) | Fel yn 1 Ebrill 2019 (ailddat-ganwyd) | Ailddat-ganwyd | Fel yn 1 Ebrill 2019 (ailddatgan-wyd) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Darn o'r datganiad o'r sefyllfa ariannol | | | | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | (28,290) | - | (28,290) | (18,382) | - | (18,382) |
| Darpariaethau | (1,131) | - | (1,131) | (570) | - | (570) |
| ***Cyfanswm y rhwymedi-gaethau cyfredol*** | **(29,421)** | **-** | **(29,421)** | **(18,952)** | **-** | **(18,952)** |
| | | - | | | - | |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | **(7,948)** | **-** | **(7,948)** | **(50)** | **-** | **(50)** |
| **Rhwymedigaethau ang-hyfredol:** | | | | | | |
| Darpariaethau | (2,853) | (2,388) | (5,241) | (1,336) | (1,918) | (3,254) |
| ***Cyfanswm y rhwymedi-gaethau anghyfredol*** | **(2,853)** | **(2,388)** | **(5,241)** | **(1,336)** | **(1,918)** | **(3,254)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedi-gaethau** | **(10,801)** | **(2,388)** | **(13,189)** | **(1,386)** | **(1,918)** | **(3,304)** |
| **Cronfa gyffredinol** | **(10,801)** | **(2,388)** | **(13,189)** | **(1,386)** | **(1,918)** | **(3,304)** |

| | Ymddeol yn gynnar | Ymadael Gwir-foddol | Rhwyme-digaethau pensiwn | Dadfeiliadau | Cyfre-ithiol | TAW | Arall | Cyfan-swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2020 (ailddatganwyd) | 131 | - | 838 | 1,899 | - | 2,388 | 1,116 | 6,372 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | 400 | - | 285 | 10,064 | 133 | 1,298 | 12,180 |
| Darpariaethau diangen a adferwyd | - | - | (838) | - | - | - | (435) | (1,273) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (18) | - | - | - | - | - | (672) | (690) |
| Newidiadau yn y gyfradd ddisgowntio | 17 | - | - | - | - | - | - | 17 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **130** | **400** | **-** | **2,184** | **10,064** | **2,521** | **1,307** | **16,606** |

| | Ymddeol yn gynnar | Ymadael Gwir-foddol | Rhwyme-digaethau pensiwn | Dadfeiliadau | Cyfre-ithiol | TAW | Arall | Cyfan-swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2019 | 147 | 522 | 838 | 368 | - | 1,918 | 32 | 3,825 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | 6 | - | 1,531 | - | 470 | 1,116 | 3,123 |
| Darpariaethau diangen a adferwyd | - | - | - | - | - | - | (32) | (32) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (16) | (528) | - | - | - | - | - | (544) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020 (ailddatganwyd)** | **131** | **-** | **838** | **1,899** | - | **2,388** | **1,116** | **6,372** |

| **Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau arian parod wedi'u disgowntio** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 16 | 400 | | | 10,064 | 2,521 | 1,307 | 14,308 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 62 | | | 2,184 | | | | 2,246 |
| Ar ôl pum mlynedd | 52 | | | | | | | 52 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **130** | **400** | **-** | **2,184** | **10,064** | **2,521** | **1,307** | **16,606** |

### Ymddeol yn gynnar

Yr adran sy'n talu costau ychwanegol buddiannau y tu hwnt i fuddiannau arferol y PCSPS i gyflogeion, a oedd yn gweithio yn swyddfa Ofgem yng Nghaerlŷr, drwy dalu'r symiau gofynnol yn fisol i'r PCSPS.

### Ymadael gwirfoddol

Mae darpariaethau diswyddo yn ymwneud ag achosion o ymadael yn wirfoddol sydd wedi cael eu trafod â'r aelod o staff dan sylw cyn 31 Mawrth 2021 ond ni ddisgwylir iddynt ddigwydd tan 2021-22.

### Rhwymedigaethau pensiwn

Roedd y ddarpariaeth pensiwn yn ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn nas ariannwyd ar gyfer cyn-brif swyddog gweithredol a chyfarwyddwr cyffredinol. Yn ystod 2020-21, cadarnhawyd nad oes angen y rhwymedigaeth bosibl mwyach a gallai'r ddarpariaeth gael ei rhyddhau'n llawn.

### Cyfreithiol

Cyfreithiol

Mae nifer o'n penderfyniadau o ran system rheoli prisiau RIIO-2 ar gyfer y sectorau dosbarthu a thrawsyrru nwy yn destun apêl ger bron yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar hyn o bryd. Rhoddodd y CMA ganiatâd i'r apelyddion apelio ar 31 Mawrth 2021, a disgwylir i'r apeliadau ddirwyn i ben ym mis Hydref 2021. Bydd y CMA yn gwneud gorchymyn ar gyfer adennill ei gostau ac mae'n bosibl y bydd yn gwneud gorchymyn mewn perthynas â chostau'r partïon fel rhan o'r broses hon – gellir gorchymyn i barti aflwyddiannus dalu costau effeithlon neu gostau yr aed iddynt yn rhesymol gan y parti buddugol, a gellir gorchymyn iddo dal costau'r CMA yn llawn neu'n rhannol.

### TAW

Mae darpariaethau TAW yn rhagweld cost ad-dalu symiau o TAW i'w hadennill ar gostau Ymgynghoriaeth i CThEM yn y dyfodol.

### Dadfeiliadau

Mae darpariaethau dadfeiliadau yn rhagweld cost adfer eiddo a brydlesir gan yr adran i'w gyflwr fel yr oedd ar ddechrau'r brydles yn y dyfodol.

### Darpariaethau eraill

Mae darpariaethau eraill yn ymwneud â chost debygol hawliad gan gyflenwr i Ofgem yn y dyfodol, costau eiddo hanesyddol posibl sy'n ymwneud â'r brydles ar gyfer swyddfa 10SC na chytunwyd arnynt ag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth, a rhai mân gostau sy'n ymwneud ag ymarfer ailstrwythuro haen yr uwch-reolwyr yn 2019-20. Ceir darpariaeth hefyd ar gyfer costau tebygol mewn perthynas â diffyg hanesyddol mewn cyfraniadau pensiwn ar gyfer rhai aelodau o staff a chyn-aelodau o staff.

## 12. Rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir o dan IAS 37

O bryd i'w gilydd byddwn yn destun her gyfreithiol ac adolygiad barnwrol o benderfyniadau a wneir yn ystod ein busnes arferol fel rheoleiddiwr y marchnadoedd nwy a thrydan. Gallai dyfarniadau cyfreithiol arwain at atebolrwydd i dalu costau cyfreithiol ond ni ellir mesur y rhain gan y byddai canlyniad yr achos yn anhysbys. Felly, mae cryn ansicrwydd ynglŷn â natur a graddau unrhyw rwymedigaeth ganlyniadol.

## 13. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Yn ystod y flwyddyn, trosglwyddwyd £10.498 miliwn i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS). Talwyd £9.489 miliwn o'r swm hwn am wasanaethau eiriolaeth. Trosglwyddwyd y £1.009 miliwn oedd yn weddill ar gyfer gwasanaethau metroleg.

Rydym yn gweinyddu rhaglenni amgylcheddol ar ran BEIS, ac yn secondio staff i'r adran honno. Cydnabuwyd cyfanswm o £24.269 miliwn o incwm oddi wrth BEIS yn ystod y flwyddyn, yr oedd £7.921 yn weddill ar 31 Mawrth 2021 (£16.806 miliwn o incwm yn 2019-20 gyda £4.492 miliwn yn weddill ar 31 Mawrth 2020).

Rydym yn gweinyddu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ar ran Adran yr Economi, ac yn gweinyddu Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ar ran Awdurdod Gogledd Iwerddon dros Reoleiddio Cyfleustodau. Cydnabuwyd costau o £1.460 miliwn ac incwm o £0.447 miliwn oddi wrth Awdurdod Rheoleiddio Cyfleustodau Gogledd Iwerddon, a £1.811 miliwn o incwm oddi wrth Adran yr Economi.

Yn ogystal, rydym wedi ymgymryd â nifer fach o drafodion gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog.

Nid oes dim un o aelodau'r Awdurdod, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol ag Ofgem yn ystod y flwyddyn a nodir ar dudalen 47.

## 14. Asedau trydydd partïon

**Gwarannau Datblygwyr Tendrau ar y Môr**

Ynghyd â'r llywodraeth, rydym wedi sefydlu cyfundrefn reoleiddio trawsyrru ar y môr gystadleuol i benodi perchennog Trawsyrru ar y Môr drwy broses dendro gystadleuol.

Ni sy'n gyfrifol am reoli'r broses dendro gystadleuol y rhoddir trwyddedau trawsyrru ar y môr drwyddi.

Mae rhoi trwyddedau i weithredu asedau trawsyrru ar y môr newydd drwy broses dendro gystadleuol yn golygu y caiff cynhyrchwyr ynni eu partneru â'r chwaraewyr mwyaf effeithlon a chystadleuol yn y farchnad. Dylai hyn arwain at gostau is a safonau gwasanaeth uwch i gynhyrchwyr ynni ac, yn y pen draw, y defnyddwyr.

Rhan o strategaeth rheoli risg Ofgem ar gyfer y broses dendro gystadleuol yw dal gwarannau at ddibenion adennill costau os na chwblheir proses dendro. Mae'r gwarannau hyn ar ffurf llythyr credyd neu arian parod. Ar 31 Mawrth 2021 roedd Ofgem yn dal £8.85m mewn llythyrau credyd (31 Mawrth 2020: £9.05m).

**Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy**

Mae'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn un o'r prif ddulliau o gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yn y DU, a gweinyddir y cynllun gan Ofgem. Caeodd y cynllun i ymgeiswyr yn 2017. Ceir rhagor o wybodaeth am y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn https://www.ofgem.gov.uk/environmental-programmes/ro

Defnyddir sawl cyfrif banc i weinyddu'r cynllun:

- Cronfeydd allbrynu – Gall cyflenwyr gyflawni eu rhwymedigaeth ynni adnewyddaddwy drwy dalu i mewn i'r gronfa allbrynu. Caiff enillion y gronfa allbrynu eu had-dalu ar sail pro-rata i'r cyflenwyr hynny sy'n cyflawni eu rhwymedigaeth yn llawn.
- Taliadau hwyr – Bydd unrhyw daliadau sy'n dod i law ar ôl 31 Awst yn daliadau hwyr. Mae'r rhain yn destun cosb llog ddyddiol flynyddol (5% a chyfradd sylfaenol Banc Lloegr).
- Cilyddu – Pan fydd diffyg cyffredinol yn swm y rhwymedigaeth, mae'n ofynnol i gyflenwyr wneud talia d tuag at gilyddu Caiff cronfeydd cilyddu eu hailddosbarthu i gyflenwyr sy'n cyflawni eu rhwymedigaeth yn llawn.

Roedd cyfanswm o £25.43m o arian parod yn cael ei ddal yn y cyfrifon banc hyn ar 31 Mawrth 2021 (31 Mawrth 2020: £54.18m)

**Cronfeydd lefelu Tariff Cyflenwi Trydan**

Mae'r cynllun Tariffau Cyflenwi Trydan (FIT) yn rhaglen a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ar 1 Ebrill 2010 i annog pobl i ddefnyddio technolegau cynhyrchu trydan adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fach.

Mae Ofgem yn gweinyddu'r cynllun ar ran yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, sy'n gyfrifol am bolisi a deddfwriaeth y cynllun FIT ac mae Cyflenwyr Trydan Trwyddedig (Trwyddedeion FIT) yn gweithredu'r agwedd ar y cynllun sy'n wynebu'r cyhoedd. Os bydd gan ddeiliad tŷ, cymuned neu fusnes osodiad cymwys, telir tariff iddynt am y trydan a gynhyrchir ganddynt a thariff am y trydan a allforir ganddynt yn ôl i'r grid gan eu Trwyddedai FIT.

Mae'r broses lefelu a weithredir gan Ofgem yn ailddosbarthu cost y cynllun ymhlith yr holl Gyflenwyr Trydan Trwyddedig, yn seiliedig ar eu cyfran o Farchnad Drydan Prydain Fawr ac unrhyw Daliadau FIT a wnaed ganddynt i osodiadau achrededig. Proses chwarterol yw hon, gyda phroses gysoni flynyddol a gwblheir erbyn mis Medi bob blwyddyn. Fel arfer, mae'r balans yn y gronfa lefelu yn werth bach ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Y swm a ddaliwyd yn y gronfa lefelu ar 31 Mawrth 2021 oedd £0.85m (31 Mawrth 2020: £2.33m).

**Cynlluniau cymhelliant gwres adnewyddadwy (RHI) domestig ac annomestig**

Mae'r cynllun RHI domestig yn gynllun ariannol gan y llywodraeth i annog newid i systemau gwresogi adnewyddadwy. Mae'n ffordd o helpu'r DU i leihau allyriadau carbon ac mae ar gael i gartrefi oddi ar y grid nwy ac ar y grid nwy.

Mae'r cynllun RHI annomestig yn rhaglen amgylcheddol gan y llywodraeth sy'n rhoi cymhellion ariannol i gynyddu'r defnydd o wres adnewyddadwy gan fusnesau, y sector cyhoeddus a sefydliadau nid er elw.

Mae Ofgem yn gweinyddu'r ddau gynllun ar ran BEIS ym Mhrydain Fawr, ac yn gweinyddu'r cynllun RHI annomestig yng Ngogledd Iwerddon ar ran Adran yr Economi. Y balansau banc a ddaliwyd mewn perthynas â'r cynlluniau ar 31 Mawrth 2021oedd RHI domestig: £4.919m; RHI annomestig Prydain Fawr: £3.077m; RHI annomestig Gogledd Iwerddon: £0.168m (31 Mawrth 2020: £4.118m; £19.448m; £0.014m).

## 15. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Cafodd y broses o gyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn ei hawdurdodi'n briodol gan y Swyddog Cyfrifyddu ar ddyddiad tystysgrif archwilio'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.



# Datganiad ymddiriedaeth

# Rhagair y swyddog cyfrifyddu i'r datganiad ymddiriedaeth

## Cwmpas

Rheolir Ofgem gan yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan. Nodir cyfrifoldebau'r Awdurdod yn Neddf Nwy 1986, Deddf Trydan 1989, Deddf Cyfleustodau 2000, Deddf Cystadleuaeth 1998, Deddf Menter 2002, Deddfau Ynni 2004, 2008, 2010, 2011 a 2013 a deddfwriaeth gysylltiedig.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gymryd camau gorfodi (gan gynnwys gosod cosbau ariannol) mewn perthynas â'r cwmnïau ynni y mae'n eu rheoleiddio, a chasglu ardollau tanwydd ffosil Cymru a Lloegr, a'r Alban.

Mae'r datganiad ymddiriedaeth yn adrodd ar y refeniw a'r gwariant a'r asedau a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â dirwyon, cosbau a'r ardollau tanwydd ffosil ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21. Casglwn y symiau hyn er mwyn eu talu i'r gronfa gyfunol.

Paratoir y datganiad hwn hefyd ar gyfer datgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol nas cymhwyswyd at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU, neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Ni fu unrhyw wariant nac incwm o'r fath yn ystod 2020-21.

## Datgeliadau yn y dyfodol

Datganiad ymddiriedaeth 2020-21 fydd y datganiad ymddiriedaeth olaf i'w baratoi gan Ofgem, oni bai bod newid sylweddol yn y dyfodol ac y cytunir â Thrysorlys EM y byddai'n helpu o ran tryloywder pe bai datganiad ymddiriedaeth yn cael ei ailgyflwyno.

Caewyd yr ardollau tanwydd ffosil yn 2019 ac nid oes unrhyw drafodion o bwys yn gysylltiedig â nhw mwyach. Caiff balansau arian parod yr ardollau sy'n weddill eu trosglwyddo i'r gronfa gyfunol (balans ardollau Cymru a Lloegr) a chronfa gyfunol yr Alban (balans ardollau'r Alban). Disgwylir y bydd hyn yn digwydd yn ystod 2021-22.

Yn y dyfodol, bydd dirwyon a roddwyd a chosbau a gasglwyd yn cael eu nodi mewn nodyn i gyfrifon adnoddau Ofgem felly ni fydd unrhyw dryloywder yn cael ei golli.

## Cefndir

### Cosbau

O dan Ddeddf Nwy 1986 a Deddf Trydan 1989 gall yr Awdurdod osod cosb statudol os yw'n fodlon bod parti a reoleiddir (e.e. deiliaid trwydded) wedi mynd yn groes neu yn mynd yn groes i unrhyw amod neu ofyniad perthnasol, neu wedi methu neu yn methu â chyflawni unrhyw safon ragnodedig o berfformiad.

Ni all unrhyw gosb a osodir gan yr Awdurdod o dan Ddeddf Nwy 1986 a Deddf Trydan 1989 fod yn fwy na 10% o drosiant y parti a reoleiddir.

Mae gennym bwerau hefyd o dan Reoliadau Trydan a Nwy (Uniondeb a Thryloywder Marchnadoedd) (Gorfodi etc) 2013 i fonitro, ymchwilio a gosod cosbau mewn perthynas ag achosion o dorri'r Rheoliad 1227 / 2011 yr UE ar Uniondeb a Thryloywder y Farchnad Ynni Gyfanwerthu (‘REMIT’) a REMIT fel y'i cadwyd yng nghyfraith ddomestig y DU.Mae gennym bwerau hefyd o dan Reoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018 i osod cosbau mewn perthynas ag achosion o dorri'r Rheoliadau hynny. Mae gennym bwerau cydredol hefyd ar

y cyd â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i orfodi'r gwaharddiadau ar gytundebau gwrthgystadleuol ac achosion o gamddefnyddio sefyllfa flaenllaw yn y farchnad yn Neddf Cystadleuaeth 1998. Pan gadarnheir achos o dorri rheoliadau, gallwn benderfynu gosod cosb ariannol o hyd at 10% o drosiant cymwys y cwmni os ydym yn fodlon i reoliadau gael eu torri'n fwriadol neu drwy esgeuluster.

Caiff unrhyw symiau a osodir gan yr Awdurdod drwy gyfrwng cosb ddeddfwriaethol ffurfiol eu talu i mewn i'r gronfa gyfunol. Yn 2020-21, gosodwyd cosbau gwerth tua £26.6 miliwn a oedd yn daladwy i'r gronfa gyfunol. Rydym yn hysbysu'r parti a reoleiddir ein bod yn bwriadu gosod cosb arno ac yn ymgynghori ar hyn.

## Adolygiad ariannol

Eleni, gosodwyd cosbau ar gwmnïau. Mae'r adolygiad ariannol hwn yn ymdrin â chosbau a arweiniodd at osod cosbau a oedd yn daladwy i'r gronfa gyfunol.

### Ovo

Gosodwyd cosb ariannol ar Ovo Electricity Limited ac Ovo Gas Limited (Ovo Energy Limited gyda'i gilydd) am ei fethiant i gydymffurfio ag Amodau Trwydded Safonol 22C, 25C/0, 27, 28A a 31A o'i Drwyddedau Trawsyrru Trydan a Nwy.

Mae Amod Trwydded Safonol 22C yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ddarparu gwybodaeth am gostau blynyddol amcangyfrifedig ac arbedion blynyddol amcangyfrifedig cwsmer (ymhlith pethau eraill). Roedd Amod Trwydded Safonol 25C, a oedd mewn grym hyd at fis Hydref 2017, yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr gymryd pob cam rhesymol i gyrraedd safonau ymddygiad penodol a sicrhau bod y safonau yn cael eu dehongli a'u cymhwyso'n gyson â'r amcan ynglŷn â chwsmeriaid, sef i drin cwsmeriaid yn deg.Ers hynny, mae Amod Trwydded Safonol 25C wedi cael ei addasu; daeth ein Safonau Ymddygiad ychwanegol i rym ar 10 Hydref 2017 ac erbyn hyn fe'u gelwir yn SLC 0.Mae Amod Trwydded Safonol 27 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr gymryd pob cam rhesymol i anfon biliau terfynol o fewn 6 wythnos ar ôl i gwsmer adael cyflenwad a hefyd anfon biliau terfynol wedi'u cywiro (os oes angen) mewn modd amserol.Mae Amod Trwydded Safonol 28A yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr sicrhau nad yw taliadau a godir am ynni yn fwy na'r uchafswm taliadau a ganiateir o dan y cap ar brisiau rhagdalu.Mae Amod Trwydded Safonol 31A yn nodi rhwymedigaethau penodol ynglŷn â darparu gwybodaeth am filiau, cyfriflenni a datganiadau blynyddol. Dyfarnwyd nad oedd unrhyw dor amod o ran Amod Trwydded Safonol 26 (Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth), a oedd o fewn cwmpas yr ymchwiliad hwn.

Gosodwyd cosb ariannol o £1 ar Ovo Electricity Limited a £1 ar Ovo Gas Limited. Mae hyn yn ychwanegol at £8,876,500 (llai £2) y cytunodd Ovo i'w dalu fel taliadau unioni gwirfoddol. Gwnaed y taliadau unioni i Gronfa Unioni Gwirfoddol Ofgem (a weinyddir gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni) a chaiff yr arian ei ddefnyddio er budd cwsmeriaid ynni.

### Intergen

Dyfarnwyd bod Intergen wedi torri Erthygl 5 o REMIT drwy drin y farchnad yn amhriodol er mwyn ymelwa ar Ddull Cydbwyso Prydain Fawr, sy'n Farchnad Ynni Gyfanwerthu.Mae Erthygl 5 o REMIT yn darparu “any engagement in, or attempt to engage in, market manipulation on wholesale energy markets shall be prohibited”.

Dyfarnwyd hefyd fod Coryton, Rocksavage a Spalding wedi torri Amod Trwydded Safonol 5.1 o'i Drwydded Cynhyrchu Trydan sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â Chod y Grid, sef Cod Cydbwyso 1.4.2 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Baramedrau Dynamig adlewyrchu'n rhesymol wir nodweddion gweithredu disgwyliedig yr Uned Dull Cydbwyso a bod yn barod yn unol ag Arferion Da'r Diwydiant a Chod Cydbwyso 1.4.3 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Rhai sy'n Cymryd Rhan yn y Dull Cydbwyso wneud ymdrechion rhesymol i sicrhau bod data a ddelir gan y Gweithredwr System Drydan bob amser yn gywir. Yn ystod yr ymchwiliad, gwelwyd bod staff yn Intergen wedi anfon arwyddion camarweiniol i Weithredwr System Drydan y Grid Cenedlaethol er budd masnachol. Ymelwodd Intergen ar yr achos hwn o drin y farchnad yn amhriodol. Cytunodd Intergen i ad-dalu tua £12.8m i ddigolledu'r partïon hynny yr effeithiwyd arnynt o ganlyniad i dorri un o amodau REMIT, a hefyd i dalu cosb o £24.5m.Roedd y rhwymedigaeth ariannol a oedd yn ddyledus gan Intergen mewn perthynas â mynd yn groes i Erthygl 5 tua £37.3m i gyd.

**SSE Generation Ltd**

Canfu ymchwiliad Ofgem fod SSE wedi torri Erthygl 4 o REMIT drwy fethu â datgelu Gwybodaeth Fewnol yn gyhoeddus mewn modd amserol ac effeithiol.

Ar 3 Chwefror 2016, cyhoeddodd SSE fod tair uned gynhyrchu yn ei orsaf ynni yn Fiddler's Ferry yn debygol o gau erbyn 1 Ebrill 2016. Ar 22 Mawrth 2016, llofnododd gytundeb Penawdau'r Telerau1nad oedd yn gyfrwymol â National Grid Electricity Transmission i ddarparu gwasanaethau ategol mewn unrhyw un o'r tair uned gynhyrchu yn Fiddler's Ferry o 1 Ebrill 2016. Ni chyhoeddodd SSE y wybodaeth hon yn amserol.

Cyfaddefodd SSE i Erthygl 4 o REMIT gael ei thorri a chytunodd i setlo yn ystod y cyfnod setlo cynnar. Gosodwyd cosb ariannol o £2,060,000 ar SSE mewn perthynas â'i achosion o dorri Erthygl 4(1).

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo Ofgem i baratoi datganiad ymddiriedaeth ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o faterion Ofgem ac o'i hincwm a'i gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu fodloni gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gwneud y canlynol yn benodol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol oddi wrth y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol;
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Trysorlys EM wedi penodi'r Prif Swyddog Gweithredol yn Swyddog Cyfrifyddu Ofgem. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau Ofgem, wedi'u nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr Ofgem yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

## Datganiad llywodraethu

Mae datganiad llywodraethu Ofgem, sy'n cwmpasu'r cyfrifon adnoddau a'r datganiad ymddiriedaeth, ar dudalennau 36 i 47.

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i dŷ'r Cyffredin

## Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Datganiad Ymddiriedaeth Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifau Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu o bwys. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u dehonglir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Datganiad Ymddiriedaeth Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan ar 31 Mawrth 2021, ac o'r refeniw net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob achos perthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU), cyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio'n fanylach o dan gyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer yr archwiliad yn adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2019. Rwyf hefyd wedi dewis cymhwyso'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau rhestredig. Rwy'n annibynnol ar Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Rwyf i a'm staff wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol i gynnig sail dros fy marn.

## Pwyslais Mater

Heb gymhwyso fy marn uchod, tynnaf sylw at Nodyn 1.1 o Bolisïau Cyfrifyddu'r Datganiad Ymddiriedaeth; Sail y Cyfrifo a datganiad y Swyddog Cyfrifyddu yn y rhagair i'r Datganiad Ymddiriedaeth: Datgeliadau yn y dyfodol, lle mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn nodi bod y cynlluniau ardoll tanwydd ffosil wedi'u cau ar 31 Mawrth 2019 ac nad ydynt yn cynnwys unrhyw drafodion o bwys mwyach. Felly, mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi nodi mai Datganiad Ymddiriedaeth 2020-21 fydd y datganiad ymddiriedaeth olaf i'w baratoi gan Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan, oni fydd newid sylweddol yn y dyfodol ac y cytunir â Thrysorlys EM y byddai'n helpu o ran tryloywder pe bai Datganiad Ymddiriedaeth yn cael ei ailgyflwyno. Fel yr esbonnir yn Nodyn 1.1, lluniwyd y Datganiad Ymddiriedaeth ar sail busnes gweithredol.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn gwneud defnydd priodol o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Mabwysiadir sail gyfrifyddu busnes gweithredol Datganiad Ymddiriedaeth Swyddfa'r Marchnadoedd

Nwy a Thrydan wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd y Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y disgwylir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau yn y dyfodol. Disgwylir y bydd y gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn parhau yn y dyfodol. Caiff y dirwyon a roddwyd a'r cosbau a gasglwyd a gofnodwyd yn flaenorol yn y Datganiad Ymddiriedaeth eu nodi mewn nodyn i adroddiad blynyddol a chyfrifon Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn rhagair y Swyddog Cyfrifyddu a Datganiad o Gyfrifoldebau''r Swyddog Cyfrifyddu i'r Datganiad Ymddiriedaeth, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na thystysgrif yr archwilydd a luniwyd gennyf. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif. Nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ynghylch y wybodaeth honno. Mewn perthynas â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd gennyf yn yr archwiliad neu sy'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn berthnasol fel arall. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol neu gamddatganiadau perthnasol amlwg o'r fath, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, os dof i gasgliad bod y wybodaeth arall wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi roi gwybod am hynny.

Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn rhagair y Swyddog Cyfrifyddu i'r Datganiad Ymddiriedaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion rwyf yn rhoi adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn rhagair y Swyddog Cyfrifyddu i'r Datganiad Ymddiriedaeth. Nid oes gennyf ddim i'w nodi o ran y materion canlynol yr wyf yn cyflwyno adroddiad i chi yn eu cylch os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu na chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion na'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am gael ei fodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- y rheolaethau mewnol sydd eu hangen ym marn y Swyddog Cyfrifyddu er mwyn gallu paratoi'r datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall.
- asesu gallu Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni fydd y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Fy nod yw cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys ein barn mewn adroddiad archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod unrhyw gamddatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr endid dan sylw a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan mewn perthynas â'r canlynol: :
  - o nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a ph'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - o canfod ac ymateb i'r risg o dwyll a ph'un a ydynt yn ymwybodol o unrhyw achosion gwirioneddol, a amheuir neu honedig o dwyll.
  - o y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys rheolaethau Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan mewn perthynas â Rheoli Arian Cyhoeddus;
- trafod â'r tîm ymgysylltu sut a ble y gallai achosion o dwyll godi yn y datganiadau ariannol ac unrhyw arwyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw a chyhoeddi cyfnodolion anarferol;
- cael a deall fframwaith awdurdod Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddio eraill y mae Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn gweithredu yn unol â nhw, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Datganiad Ymddiriedaeth Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan. Ymhlith y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf mae Deddf Nwy 1986, Deddf Trydan 1989, y rheoliadau hynny y mae Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn rhoi dirwyon a chosbau oddi tanynt a Rheoli Arian Cyhoeddus.

Yn ogystal â'r uchod, ymhlith fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd roedd y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennaeth ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a'r cwnsleriaid cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth fynd i'r afael â'r risg y byddai'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn dangos rhagfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg fusnes unrhyw drafodion o bwys sy'n anarferol neu'r tu hwnt i fusnes arferol.

Hefyd, rhannais y cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o dwyll â holl aelodau'r tîm ymgysylltu, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Gellir gweld disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu'r â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu mewn perthynas ag, ymhlith materion eraill, y cwmpas a'r amseru a gynlluniwyd ar gyfer yr archwiliad a chanfyddiadau sylweddol o'r archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol ym maes rheolaeth fewnol rwyf yn eu canfod yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**
Dyddiad
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria, London
SW1W 9SP

**13 July 2021**

# Datganiad o refeniw, ac incwm a gwariant arall am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| **Refeniw** | | |
| **Dirwyon a chosbau** | | |
| Cosbau a osodwyd | 26,560 | 3,006 |
| **Incwm Cyllid** | | |
| Llog ar adneuon banc (Cymru a Lloegr) | 47 | 205 |
| Llog ar adneuon banc (yr Alban) | 65 | 280 |
| **Cyfanswm y refeniw ac incwm arall** | **26,672** | **3,491** |
| **Gwariant** | | |
| Costau gweinyddu a dirwyn i ben a oedd yn gysylltiedig â'r Ardoll Tanwydd Ffosil | - | (186) |
| Colledion credyd | - | (200) |
| **Cyfanswm y gwariant** | **-** | **(386)** |
| **Refeniw Net ar gyfer y Gronfa Gyfunol** | **26,672** | **3,105** |

Ni fu unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig y cyfrifwyd amdanynt y tu allan i'r datganiad o refeniw a gwariant uchod.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 100 i 101 yn rhan o'r datganiad hwn.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2021

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| **Asedau cyfredol** | | |
| Symiau derbyniadwy a ffioedd a gronnwyd | - | 24 |
| Arian parod yn y banc - Cronfa Gyfunol y DU | 31,994 | 31,947 |
| Arian parod yn y banc – Cronfa Gyfunol yr Alban | 43,721 | 43,657 |
| Asedau cyfredol net | 75,715 | 75,628 |
| **Cyfanswm Asedau Net** | **75,715** | **75,628** |
| **Cynrychiolir gan:** | | |
| Balans ar gyfrif cronfa gyfunol y DU | 31,994 | 31,971 |
| Balans ar gyfrif cronfa gyfunol yr Alban | 43,721 | 43,657 |
| | **75,715** | **75,628** |

**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr

**12 Gorffennaf 2021**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 100 i 101 yn rhan o'r datganiad hwn.

# Datganiad o lifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 112 | 580 |
| **Cynnydd/ (gostyngiad) mewn arian parod yn ystod y cyfnod** | **112** | **580** |

## Nodiadau i'r datganiad llif arian parod

### Nodyn A: Cysoni llif arian parod net â symudiad mewn cronfeydd net

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Refeniw net ar gyfer y gronfa gyfunol | 26,672 | 3,105 |
| (Cynnydd)/ gostyngiad mewn asedau nad ydynt yn arian parod | - | 283 |
| Cynnydd/ (gostyngiad) mewn rhwymedigaethau | - | (2) |
| All-lif i'r gronfa gyfunol | (26,560) | (2,806) |
| Llif arian parod net | 112 | 580 |

### Nodyn B: Dadansoddiad o newidiadau mewn cronfeydd net

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cynnydd/ (gostyngiad) mewn arian parod yn ystod y cyfnod hwn | 112 | 580 |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill* | 75,603 | 75,024 |
| Cronfeydd net ar 31 Mawrth | 75,715 | 75,604 |

*Balans 1 Ebrill 2020 wedi'i addasu at ddibenion talgrynnu

# Nodiadau i'r datganiad ymddiriedaeth

### Cau'r cynllun ardoll Tanwydd Ffosil

Ar 31 Mawrth 2019, caeodd y cynlluniau ardoll tanwydd ffosil ac mae'r ddau gwmni a sefydlwyd i weinyddu'r cynlluniau, sef NFPA a NFPFA Scotland, wrthi'n cael eu datod. Yn ystod 2021-22, caiff y balansau arian parod sy'n weddill eu trosglwyddo i'r Gronfa Gyfunol (cynllun Cymru a Lloegr) a Chronfa Gyfunol yr Alban (cynllun yr Alban).

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail cyfrifyddu

Paratoir y datganiad ymddiriedaeth yn unol â'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys o dan adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 ac yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodir isod. Cytunwyd ar y rhain rhwng Ofgem a'r Trysorlys ac fe'u datblygwyd drwy gyfeirio at y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a chanllawiau perthnasol eraill. Mae'r polisïau cyfrifyddu wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yr incwm a'r gwariant cysylltiedig a geir yn y datganiadau hyn yw'r llifau hynny o gronfeydd y mae Ofgem yn ymdrin â hwy ar ran y gronfa gyfunol a lle y mae'n gweithredu fel asiant yn hytrach na phenadur. Caiff y wybodaeth ariannol a geir yn y datganiadau ac yn y nodiadau ei thalgrynnu i'r £000 agosaf.

### Busnes gweithredol

Er na fydd datganiad ymddiriedaeth yn y dyfodol, bydd Ofgem yn parhau i ymgymryd â gweithgarwch gorfodi a all arwain at gosbau. Gan y bydd y gwasanaeth yn parhau, lluniwyd y datganiad ymddiriedaeth ar sail busnes gweithredol.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y datganiad ymddiriedaeth yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol.

### 1.3 Cydnabod refeniw

Mesurir dirwyon, cosbau ac ardollau yn unol ag IFRS 15. Fe'u mesurir ar werth teg y symiau a dderbyniwyd neu sy'n dderbyniadwy. Cydnabyddir incwm pan fydd y canlynol yn berthnasol:

- a fine or penalty is validly imposed and an obligation to pay arises
- daw taliad ardoll yn ddyledus.

## 2. Refeniw

### 2.1 Dirwyon a chosbau

Datgelir manylion cosbau yn Atodiad II.

## 3. Symiau derbyniadwy a refeniw cronedig derbyniadwy

| | Cyfanswm y refeniw cronedig ar 31 Mawrth 2021 | Cyfanswm y refeniw cronedig derbyniadwy ar 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Dirwyon a chosbau | 200 | 200 |
| Incwm llog banc | - | 24 |
| Cyfanswm cyn lleihad amcangyfrifiedig mewn gwerth | 200 | 224 |
| Llai amhariadau amcangyfrifiedig (gweler nodyn 3.1) | (200) | (200) |
| **Cyfanswm** | **-** | **24** |

Symiau derbyniadwy yw'r symiau sy'n deillio o'r rhai y gosodwyd cosbau ariannol arnynt neu lle yr aseswyd ardoll ar ddyddiad y fantolen, ond lle y ceir derbyniad wedi hynny.

Nid yw'r cosbau nominal derbyniadwy yn dangos oherwydd talgrynnu.

Nid oes unrhyw refeniw Ardoll tanwydd ffosil yn dderbyniadwy ar 31 Mawrth 2021.

### 3.1 Colledion credyd disgwyliedig

Yn 2019-20, Gosodwyd cosb ariannol o £200,000 ar Economy Energy. Mae Economy Energy bellach yn nwylo'r gweinyddydd. Nid yw'n sicr a gaiff y gosb ei hadennill ac felly parheir i gydnabod colledion credyd disgwyliedig am y swm llawn.

## 4. Balans ar gyfrifon y Gronfa Gyfunol

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Balans ar gyfrifon y gronfa gyfunol ar 1 Ebrill | 75,628 | 75,329 |
| Refeniw net ar gyfer cyfrifon y gronfa gyfunol | 26,672 | 3·105 |
| Llai swm a dalwyd i'r gronfa gyfunol | (26,560) | (2,806) |
| Newid ym malans y symiau derbyniadwy* | (25) | - |
| **Balans ar gyfrifon y gronfa gyfunol ar 31 Mawrth** | **75,715** | **75,628** |

*Balans wedi'i addasu at ddibenion talgrynnu.



# Atodiadau

# Atodiad I
# Dangosyddion perfformiad allweddol

| Cystadleuaeth Effeithiol | | | |
|---|---|---|---|
| **Metrig (DPAau)** | **Manylion am yr hyn sy'n cael ei fesur** | **Targedau blynyddol gyfer 2020-21** | **Gwirioneddol** |
| Proses Trawsyrru ar y Môr | Rhoi trwydded o fewn 70 diwrnod i ddechrau ymgyngoriadau Adran 8A[5] | 70 diwrnod | 43 diwrnod |
| Proses Trawsyrru ar y Môr | Dewis Cynigydd a Ffefrir o fewn 120 diwrnod i gyflwyno'r "Gwahoddiad i Dendro" (heb gynnwys y cynnig "Gorau" a "Therfynol") | 120 diwrnod | 165 diwrnod[22] |
| Ceisiadau am drwydded | Gwneud penderfyniadau ar Geisiadau am Drwydded o fewn 45 diwrnod | 100% | 100%[23] |
| Addasiadau i'r cod | Gwneud penderfyniadau ynghylch addasiadau i'r cod o fewn 25 diwrnod (neu dri mis os "ystyrir" bod angen ymgynghoriad asesiad o'r effaith) | 90% | 41%[24] |
| Cysylltiadau cwsmeriaid | Yr amser y mae'n ei gymryd am ymateb cyntaf i gysylltiadau cwsmeriaid | 80% (Deg diwrnod gwaith) | 55%[25] |
| Chwythwyr Chwiban | Yr amser y mae'n ei gymryd am ymateb cyntaf i gysylltiadau chwythwr chwiban | 100% (Un diwrnod gwaith) | 98.4% |

Pennir dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer ein cynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol ar y cyd â'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ac Adran yr Economi Gogledd Iwerddon, y cânt eu cyflawni ar eu cyfer. Bob blwyddyn, mae Ofgem yn ymrwymo i gynnal lefelau gwasanaeth penodol ar gyfer cynlluniau RHI Domestig ac Annomestig Prydain Fawr, Tariffau Cyflenwi Trydan, Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni a Gostyngiad Cartrefi Cynnes. Nodir y canlyniadau yn erbyn y rhain ar gyfer 2020-21 isod.

[22] Cafwyd oedi oherwydd materion yn gysylltiedig â COVID-19.
[23] Mae'r cyfnodau amser penodol yn amrywio ar gyfer mathau gwahanol o geisiadau a chânt eu cyhoeddi yn y canllawiau ar gyfer ceisiadau am drwyddedau nwy a thrydan – gall Ofgem ymestyn y cyfnodau amser pan fydd cymhlethdod y mater yn cyfiawnhau hynny.
[24] Ceir y ffigur hwn o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys blaenoriaethau croes yn Ofgem, er enghraifft gwaith ar Adolygiadau Cod Sylweddol, a nifer o benderfyniadau cymhleth y mae angen amser ychwanegol, O fis Ebrill 2021, rydym yn treialu dull newydd o gyflwyno penderfyniadau o ran addasu codau, lle y byddwn yn anelu at ddarparu dyddiad disgwyliedig ar gyfer penderfyniad am bob addasiad a gyflwynir i ni benderfynu arno. Bydd y dyddiad disgwyliedig ar gyfer penderfyniad yn seiliedig ar bwysigrwydd, natur frys ac effaith yr addasiad, gan ystyried hefyd ein blaenoriaethau strategol.
[25] Mae nifer o ffactorau yn achosi'r canlyniad hwn: effaith argyfwng COVID-19; cynnydd mewn cysylltiad gan ddefnyddwyr sy'n wynebu amgylchiadau bregus; a chynnydd yn nifer y defnyddwyr y mae proses Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall Ofgem yn effeithio arnynt.

| DPAau Cynlluniau Amgylcheddol a Chymdeithasol | | | |
|---|---|---|---|
| **Metrig (DPAau)** | **Manylion am yr hyn sy'n cael ei fesur** | **Targedau blynyddol gyfer 2020-21** | **Gwiri-oneddol** |
| Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Domestig (RHI Domestig) | Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 80% | 99% |
| Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Annomestig | Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 80% | 96% |
| Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy | Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 80% | 98% |
| Tariffau Cyflenwi Trydan (FIT) | Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 80% | 99% |
| Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO) | Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 80% | 63% |
| Gostyngiad Cartrefi Cynnes | Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 80% | 86% |
| Gostyngiad Cartrefi Cynnes | Ymateb i barti o dan rwymedigaeth a gyflwynir i'r cynlluniau Gostyngiad Cartrefi Cynnes | 100% | 100% |
| RHI Domestig | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes | 99% | 99% |
| Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Annomestig | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes | 99% | 98% |
| Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes | 99% | 98% |
| Tariff Cyflenwi Trydan | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes | 99% | 99% |
| Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes | 99% | 98% |
| Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Domestig | Gwneud taliadau o fewn 30 diwrnod gwaith | 95% | 98% |
| Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Annomestig | Gwneud taliadau o fewn 40 diwrnod gwaith | 90% | 95% |
| Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Annomestig Gogledd Iwerddon | Gwneud taliadau o fewn 40 diwrnod gwaith | 95% | 91% |
| Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy | Cyhoeddi'r brif gyfres o Dystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar ôl dyddiad cau adrodd y cynhyrchwyr ynni ar eu hallbwn data, o fewn 17 diwrnod gwaith (Ebr-Meh) a 12 diwrnod gwaith (Gor-Maw) | 95% | 98% |
| Tariff Cyflenwi Trydan | Cwblhau'r broses "lefelu" o fewn 22 diwrnod gwaith | 100% | 100% |
| ECO | Prosesu'r mesurau a gyflwynwyd mewn un mis calendr erbyn diwedd y mis canlynol | 100% | 95% |

The value of payments made in error during 2020-21 under the GB Renewable Heat Incentive Schemes is estimated at £16.6million which is also disclosed in the 2020-21 BEIS annual report and accounts.

# Atodiad II - Ymchwiliadau a chamau gorfodi 2020-21

Mae manylion ein hachosion ar gael ar ein gwefan[26] yn unol â'n polisi fel y'i nodir yn ein Canllawiau Gorfodi[27]. Byddwn fel arfer yn cyhoeddi manylion byr y ffeithiau a natur yr ymchwiliadau ar ein gwefan[28], er bod polisi yn wahanol ar gyfer achosion sy'n gysylltiedig â REMIT[29]. Yn y tabl isod, ceir manylion yr ymchwiliadau ffurfiol a gwblhawyd gennym y flwyddyn hon. Mewn ymchwiliadau lle rydym wedi sicrhau taliadau unioni, gwnaeth y cwmnïau daliadau naill ai'n uniongyrchol i ddefnyddwyr a/neu i raglenni a chronfeydd a fyddai'n elwa arnynt.

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Utilita | Ymchwiliad i Utilita a'i gydymffurfiaeth â'i rwymedigaethau o dan Amod Trwydded Safonol SLC 28A (cyfyngiad taliad rhagdalu). | Cymerwyd camau gweithredu amgen. Dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cynigiodd Utilita becyn iawndal o tua £500,000, yn cynnwys: taliadau ewyllys da o £10 i bob cwsmer presennol sydd wedi bod yn talu gormod (sy'n cynyddu i £15 os yw'r cwsmer ar y Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth);<br>Taliad o £140 i'r tua 900 o gwsmeriaid yr effeithir arnynt ar hyn o bryd a oedd wedi gwneud cais am y Gostyngiad Cartrefi Cynnes ond a oedd yn aflwyddiannus a thaliad ychwanegol o £45,000 i'w dalu i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol. | Hydref 2020 |
| SSE Generation Ltd | Ymchwiliad i ganfod a wnaeth SSE Generation Limited dorri Erthygl 4 o REMIT. | Case closed, formal finding of breach. SSE admitted the breach of Article 4 of REMIT and agreed to settle during the early settlement window. Financial penalty of £2,060,000 imposed on SSE in respect of its contraventions of Article 4(1). | Medi 2020 |
| Gweithredwr System Dry-dan y Grid Cenedla-ethol) | Ymchwiliad i doriad pŵer ar 9 Awst 2019. | Achos wedi'i gau, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Gwnaethom adolygu'r ymchwil-iad hwn ac o ystyried bod angen diwygio safonau diogelwch, daethom i'r casgliad nad oes unrhyw werth mewn parhau â'r ymchwiliad ar yr adeg hon. | Mehefin 2020 |
| Intergen | Ymchwiliad i b'un a wnaeth Intergen dorri Erthygl 5 o REMIT ac SLC 5.1, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â Chod y Grid. | Achos wedi'i gau, canfyddiad ffurfiol o dor-amod.Gwnaethom roi cosb ariannol o £24 miliwn mewn perthynas â'r achosion o dorri Erthygl 5. Yn ogystal, cytunodd yr Awdurdod gydag InterGen y bydd yn dychwelyd tua £12.8 miliwn i'r partïon hynny yr effeithiodd yr achos o dorri REMIT arnynt. Gwnaethom benderfynu peidio â rhoi cosb ariannol ar gyfer SLC 5.1. Mae hyn yn creu cyfanswm o tua £37.8 miliwn. | Ebrill 2020 |

[26] https://www.ofgem.gov.uk/investigations

[27] https://www.ofgem.gov.uk/system/files/docs/2017/10/enforcement_guidelines_october_2017.pdf

[28] Nid yw'r ffaith ein bod wedi agor ymchwiliad yn awgrymu bod y cwmnïau dan sylw wedi torri amodau'r drwydded neu rwymedigaethau eraill..

[29] Mae ein Canllawiau Gweithdrefnol ar gyfer REMIT i'w gweld yn: https://www.ofgem.gov.uk/publications-and-updates/consultation-decision-remit-penalties-statement-andprocedural-Guidelines

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Ovo Energy | Ymchwiliad i gydymffurfiaeth Ovo ag Amodau Trwydded Safonol 31A (darparu gwybodaeth am ddatganiadau ariannol) a 25C (SLC 0 o fis Hydref 2017, Safonau Ymddygiad), SLC 22C, SLC 26 (y Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth), SLC 27 (darparu biliau terfynol) ac SLC 28A (cyfyngiad taliad rhagdalu). | Achos wedi'i gau, canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Gwnaethom roi cosb ariannol o £1 ar Ovo Electricity Limited a £1 ar Ovo Gas Limited. Mae hyn yn ogystal ag £8,876,500 (llai £2) y mae Ovo wedi cytuno i'w dalu mewn taliadau unioni gwirfoddol. | Ebrill 2020 |

Yn y tabl isod, ceir manylion y taliadau unioni a sicrhaodd Ofgem drwy gamau gweithredu amgen neu waith cydymffurfio. Mae hyn yn rhoi cyfle i gwmni unioni pethau'n gyflym i ddefnyddwyr heb i ni arfer ein pwerau gorfodi statudol.

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| British Gas | Cydymffurfiaeth â'r rheolau diogelu prisiau sy'n diogelu prisiau tariff cwsmeriaid pan fyddant yn newid cyflenwyr neu dariffau ar ôl cynnydd mewn prisiau.Arweiniodd diffyg cydymffurfiaeth British Gas at gwsmeriaid yn gorfod talu gormod. | Cam gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cyfanswm pecyn taliadau unioni o £1,269,095.47. Mae hwn yn cynnwys £391,176.79 a ad-dalwyd yn uniongyrchol i gwsmeriaid ac £840,517.38 a dalwyd fel taliadau ewyllys da i gwsmeriaid a £37,401.30 a dalwyd i'r gronfa taliadau unioni gwirfoddol. | Mawrth 2021 |
| EON | Cydymffurfiaeth â'r rheolau diogelu prisiau sy'n diogelu tariff cwsmeriaid pan fyddant yn newid cyflenwyr neu dariffau ar ôl cynnydd mewn prisiau.Arweiniodd diffyg cydymffurfiaeth EON at gwsmeriaid yn talu gormod. | Cam gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cyfanswm pecyn taliadau unioni o £238,884.29. Mae hwn yn cynnwys £181,668.29 a ad-dalwyd yn uniongyrchol i gwsmeriaid a £ 57,216 a dalwyd fel taliadau ewyllys da i gwsmeriaid. | Mawrth 2021 |
| EDF Energy | Cydymffurfiaeth â'r rheolau diogelu prisiau sy'n diogelu tariff cwsmeriaid pan fyddant yn newid cyflenwyr neu dariffau ar ôl cynnydd mewn prisiau.Arweiniodd diffyg cydymffurfiaeth EDF at gwsmeriaid yn gorfod talu gormod. | Cam gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cyfanswm pecyn taliadau unioni o £516,191.55. Mae hwn yn cynnwys £465,441.36 a ad-dalwyd yn uniongyrchol i gwsmeriaid a £50,750.19 a dalwyd fel taliadau ewyllys da i gwsmeriaid. | Mawrth 2021 |
| Green Star Energy | Cydymffurfiaeth â'r rheolau diogelu prisiau sy'n diogelu prisiau tariff cwsmeriaid pan fyddant yn newid cyflenwyr neu dariffau ar ôl cynnydd mewn prisiau.Arweiniodd diffyg cydymffurfiaeth Green Star Energy at gwsmeriaid yn talu gormod. | Cam gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cyfanswm pecyn taliadau unioni o £808,351.00.Mae hwn yn cynnwys £664,661 a ad-dalwyd yn uniongyrchol i gwsmeriaid a £143,690 a dalwyd fel taliadau ewyllys da i gwsmeriaid. | Mawrth 2021 |
| Octopus Energy | Cydymffurfiaeth â'r rheolau diogelu prisiau sy'n diogelu prisiau tariff cwsmeriaid pan fyddant yn newid cyflenwyr neu dariffau ar ôl cynnydd mewn prisiau.Arweiniodd diffyg cydymffurfiaeth Octopus Energy at gwsmeriaid yn talu gormod. | Cam gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cyfanswm pecyn taliadau unioni o £121,444.52.Mae hwn yn cynnwys £59,902.15 a ad-dalwyd yn uniongyrchol i gwsmeriaid a £61,542.37 a dalwyd fel taliadau ewyllys da i gwsmeriaid. | Mawrth 2021 |
| OVO Energy | Cydymffurfiaeth â'r rheolau diogelu prisiau sy'n diogelu tariff cwsmeriaid pan fyddant yn newid cyflenwyr neu dariffau ar ôl cynnydd mewn prisiau.Arweiniodd diffyg cydymffurfiaeth Ovo at gwsmeriaid yn talu gormod. | Cam gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cyfanswm pecyn taliadau unioni o £2,801,231.51.Mae hwn yn cynnwys £2,001,196.45 a ad-dalwyd yn uniongyrchol i gwsmeriaid a £579,145.28 a dalwyd fel taliadau ewyllys da i gwmseriaid a £220,889.78 i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol. | Mawrth 2021 |

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Scottish Power | Cydymffurfiaeth â'r rheolau diogelu prisiau sy'n diogelu prisiau tariff cwsmeriaid pan fyddant yn newid cyflenwyr neu dariffau ar ôl cynnydd mewn prisiau.Arweiniodd diffyg cydymffurfiaeth Scottish Power at gwsmeriaid yn talu gormod. | Cam gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cyfanswm pecyn taliadau unioni o £1,967,465.28.Mae hwn yn cynnwys £1,449,835.28 a ad-dalwyd yn uniongyrchol i gwsmeriaid a £49,415 a dalwyd fel taliadau ewyllys da i gwmseriaid a £468,215 a dalwyd i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol. | Mawrth 2021 |
| Shell Energy | Cydymffurfiaeth â'r rheolau diogelu prisiau sy'n diogelu prisiau tariff cwsmeriaid pan fyddant yn newid cyflenwyr neu dariffau ar ôl cynnydd mewn prisiau.Arweiniodd diffyg cydymffurfiaeth Shell Energy at gwsmeriaid yn talu gormod. | Cam gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cyfanswm pecyn taliadau unioni o £808,351.00 £1,217,203.40. Mae hwn yn cynnwys £1,001,203.40 a ad-dalwyd yn uniongyrchol i gwsmeriaid, £112,461 a dalwyd fel taliadau ewyllys da i gwmseriaid a £103,539 a dalwyd i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol. | Mawrth 2021 |
| SSE Energy | Cydymffurfiaeth â'r rheolau diogelu prisiau sy'n diogelu prisiau tariff cwsmeriaid pan fyddant yn newid cyflenwyr neu dariffau ar ôl cynnydd mewn prisiau.Arweiniodd diffyg cydymffurfiaeth SSE Energy at gwsmeriaid yn talu gormod. | Cam gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cyfanswm pecyn taliadau unioni o £983,334.45.Mae hwn yn cynnwys £713,973.86 a ad-dalwyd yn uniongyrchol i gwsmeriaid, £ 249,777.22 a dalwyd fel taliadau ewyllys da i gwmseriaid a £19,583.37 a dalwyd i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol. | Mawrth 2021 |
| Shell Energy | Materion a nodwyd fel Green Star Energy gynt y gwnaeth adrodd amdanynt ei hun. Roedd y materion mewn perthynas â methiant i anfon llythyrau adnewyddu, cwsmeriaid Gostyngiad Cartrefi Cynnes ddim ar dariff Diogelu, oedi cyn hysbysu cwsmeriaid Mesuryddion Rhag-dalu o newid mewn prisiau a chwsmeriaid yn cael eu rhoi ar y tariff anghywir ar ôl adnewyddu. | Cymerwyd camau gweithredu amgen. Gwnaeth Green Star adrodd am wallau ei hun. Cyfanswm pecyn taliadau unioni o £384,572.87. Mae hwn yn cynnwys £226,544.87 o ad-daliadau i gwsmeriaid a £158,025 o daliadau ewyllys da. | Ionawr 2021 |
| EDF Energy | Cyflwynodd EDF Energy Thermal Generation ddata technegol nad oedd yn adlewyrchu'n gywir wir allu ei orsaf ynni na faint o ynni y gallai ei gyflenwi. Yn anfwriadol, torrodd EDF ETG rwymedigaethau ei drwydded i gydymffurfio â Chod y Grid a rheoliadau REMIT sy'n gwahardd achosion o drin y farchnad yn amhriodol. | Cymerwyd camau gweithredu amgen. Cyfaddefodd EDF ETG fod Cod y Grid ac Erthygl 5 o REMIT wedi cael eu torri'n anfwriadol a nododd ei fod wedi cymryd camau cyflym i atal hyn rhag digwydd eto.Daethom i'r casgliad nad oedd yn werth agor ymchwiliad ffurfiol. Roedd hyn oherwydd cyfaddefiadau'r cwmni, y camau a gymerwyd ganddo i atal hyn rhag digwydd eto a'r ffaith ei fod wedi cytuno i dalu £6 miliwn i gronfa taliadau unioni gwirfoddol Ofgem. | Rhagfyr 2020 |
| Shell Energy | Mater a nodwyd fel Green Star Energy gynt y gwnaeth adrodd amdanynt ei hun. Nid oedd Green Star Energy wedi adolygu taliadau debyd uniongyrchol ar gyfer rhai cwsmeriaid, a oedd yn effeithio ar gwsmeriaid cyflenwad Byw a chyflenwad a Gollwyd. Roedd gan y cwsmeriaid hyn fwlch o 13 mis neu fwy yn eu hamserlen ar gyfer ailasesu debyd uniongyrchol. | Cam gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Ad-dalodd Shell Energy £351,941.40 i gwsmeriaid, talodd £44,144.31 mewn taliadau ewyllys da a thalodd £24,072.69 i'r gronfa taliadau unioni gwirfoddol. Cyfanswm pecyn taliadau unioni o £420,158.40. | Rhagfyr 2020 |

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Shell Energy | Methiant i ddarparu cyfriflenni blynyddol a chredydau cysylltiedig i gwsmeriaid mesuryddion rhagdalu. | Cam gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Ad-dalodd Shell Energy £39,184.71 i gwsmeriaid, talodd £46,920 mewn taliadau Safon Perfformiad Warantedig a thalodd £14,700 i'r gronfa taliadau unioni gwirfoddol. Cyfanswm pecyn taliadau unioni o £100,804.71 | Rhagfyr 2020 |
| I-Supply | O dan amod trwydded safonol (SLC) 14 o'r drwydded cyflenwad, dim ond os bydd y swm wedi cael ei filio o leiaf 28 diwrnod cyn y cais i newid cyflenwr y gall cyflenwyr atal cwsmeriaid rhag newid cyflenwyr ar gyfer arian sy'n ddyledus. Rhwng 2012 a dechrau 2020, roedd gwall yn y system yn gwrthwynebu i unrhyw gwsmer drosglwyddo os oedd gan y cwsmer falans dyled heb ei thalu o £40 neu fwy yn ddyledus i iSupply. O ganlyniad, cafodd 22,863 o gwsmeriaid eu rhwystro oherwydd gwrthwynebiad annilys. | Cam gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod, ad-dalodd I-Supply gyfanswm o £406,224.81 i gwsmeriaid (cyfartaledd o £21.65 y cwsmer); talodd gyfanswm o £114,315 o daliadau ewyllys da i gwsmeriaid. Mae hwn yn becyn taliadau unioni o £520,539.81 a bydd unrhyw arian sy'n weddill lle na ellir cysylltu â chwsmeriaid neu lle nad yw cwsmeriaid yn bancio sieciau yn mynd i'r gronfa taliadau unioni gwirfoddol. | Hydref 2020 |
| Robin Hood Energy (RHE) | Ni chafodd adolygiadau o ddigonolrwydd Debyd Uniongyrchol eu prosesu yn unol ag SLC 27.15.Hefyd, ni chafodd biliau terfynol eu cyhoeddi o fewn 6 wythnos i ddyddiad y newidiodd cwsmeriaid gyflenwyr (yn unol ag SLC 27.17). | Cymerwyd cam gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Talwyd £190,286.43 i'r gronfa taliadau unioni gwirfoddol | Medi 2020 |
| Bulb Energy | Ni allai cwsmeriaid Seilwaith Mesuryddion Cyfyngedig newid i Bulb oherwydd gwall yn y broses.Yn ogystal â hyn, cafodd rhai cwsmeriaid Seilwaith Mesuryddion Cyfyngedig sawl taliad sefydlog, un am bob rhif cyfeirnod pwynt mesurydd yn yr eiddo. Hefyd, cafodd defnyddwyr sydd mewn sefyllfa fregus eu tynnu oddi ar y Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth ar gyfer cofnodion rhai Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu oherwydd gwall ym mhroses llif data Bulb | Cymerwyd cam gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Bulb i roi pecyn taliadau iawndal i gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt. Talodd gyfanswm o £901,035 o daliadau ewyllys da i gwsmeriaid; ad-dalodd gyfanswm o £699,452 yn uniongyrchol i gwsmeriaid a thalodd £157,350 i'r gronfa taliadau unioni gwirfoddol.Cyfanswm pecyn taliadau unioni o £1,757,837. | Awst 2020 |
| SSE | Methodd SSE gyrraedd ei darged gosod mesuryddion deallus ar gyfer 2019, cyn iddo gael ei gaffael gan Ovo ym mis Ionawr 2020. | Cam gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Talodd Ovo £1.2 miliwn mewn taliadau unioni gwirfoddol i'r Gronfa Unioni Gwirfoddol am fater hanesyddol SSE. | Awst 2020 |
| British Gas | Newidiodd British Gas ei werthwr Taliadau Ychwanegu Credyd at Fesuryddion Rhag-dalu o Paypoint i Payzone / Swyddfa'r Post a aeth yn fyw ar 1 Ionawr 2020.Methodd British Gas hysbysu tua 270K o gwsmeriaid (yr oedd llawer ohonynt mewn sefyllfa fregus) o'r newid i'r darparwr ychwanegu credyd. Hysbysodd British Gas gwsmeriaid o'r newid i'r darparwr ychwanegu credyd a'r newid yn yr isafswm o £1 i £5 yn rhy hwyr i roi digon o amser i gwsmeriaid newid cyflenwyr os oedd hyn yn peri problem iddynt.Hefyd, nid oedd gan British Gas staff ar gael i ateb ymholiadau ar 1 Ionawr 2020 ar y dyddiad yr aeth y newid yn fyw. | Cam gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Gwnaeth British Gas daliadau o tua £1.48 miliwn i gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt. Hefyd, cytunodd British Gas i wneud taliad o £250,000 i'r gronfa taliadau unioni gwirfoddol, i gydnabod ei fethiannau. | Awst 2020 |

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| I-Supply | Cafodd i-Supply nifer o fethiannau a effeithiodd ar fwy na 115,000 o gwsmeriaid rhwng 2013 a 2019, sef: cymhwyso taliadau anghywir wrth adnewyddu contractau; cymhwyso TAW anghywir; negeseuon tariff rhataf anghywir yn ymddangos ar ohebiaeth cwsmeriaid; cofnodi statws cwsmeriaid yn anghywir o ran y gofrestr gwasanaethau â blaenoriaeth a chwsmeriaid sydd mewn sefyllfa fregus; cam-ddyrannu taliadau i gwsmeriaid. | Cam gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Talodd I-Supply becyn taliadau unioni o £1,500,000, yn cynnwys ad-daliadau uniongyrchol o £809,220.41 yn uniongyrchol i gwsmeriaid; talodd gyfanswm o £595,290 o daliadau ewyllys da i gwsmeriaid; talodd £95,489.59 i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol. | Mehefin 2020 |
| Scottish Power | Cododd Scottish Power daliadau rhy uchel ar gwsmeriaid annomestig oherwydd gwall a arweiniodd at fesuryddion yn goramcangyfrif defnydd. | Cam gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Talodd Scottish Power becyn taliadau unioni o £388,741. Mae hwn yn cynnwys £359,043 a ad-dalwyd i gwsmeriaid, £17,923 o daliadau ewyllys da i gwsmeriaid, £11,774 o daliadau unioni na chawsant eu bancio i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol. | Mehefin 2020 |
| Shell Energy | Nodwyd problem â chydymffurfiaeth Green Star Energy ag Amod 0 o'r Drwydded Safonol ynglŷn â Safonau Ymddygiad, ac Amod 7.7 o'r Drwydded Safonol, ynglŷn â gwybodaeth i gwsmeriaid am gontractau tybiedig. | Cam gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Talodd Green Star Energy becyn taliadau unioni o £750,000. Mae hwn yn cynnwys £297,106 mewn ad-daliadau uniongyrchol ac iawndal i gwsmeriaid a thaliad o £452,894 i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol. | Mai 2020 |

Yn ogystal â hyn, arweiniodd gwaith arall o ymgysylltu ynglŷn â chydymffurfiaeth at y canlynol.

| Math o effaith | Gwerth |
|---|---|
| Ad-daliadau i gwsmeriaid | £570,000 |
| Taliadau iawndal i ddefnyddwyr | £182,000 |
| Taliadau unioni i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol | £40,000 |
| **Cyfanswm** | **£792,000** |

### Achosion agored

Yn y tabl isod, ceir ymchwiliadau agored fel yr oeddent ar ddiwedd mis Mawrth 2021. Noder, nid yw agor ymchwiliad yn awgrymu ein bod wedi gwneud unrhyw ganfyddiad(au) ynghylch diffyg cydymffurfiaeth. Nid yw Ofgem yn cyhoeddi gwybodaeth am bob ymchwiliad agored, yn arbennig pan fydd Ofgem yn cynnal ymchwiliadau i achosion posibl o fethu â chydymffurfio â gofynion REMIT. Fel rheol, nid ydym yn rhoi sylwadau pellach ar yr ymchwiliadau hyn, gan gynnwys pwy rydym yn ymchwilio iddo, oni chredwn fod angen gwneud hynny er budd defnyddwyr neu hyder y farchnad.

| Cwmni | Dyddiad Agor | Mater |
|---|---|---|
| Symbio Energy | Ionawr 2021 | Ymchwiliad i gydymffurfiaeth Symbio Energy ag Amod Trwydded Safonol SLC 33 o'r Drwydded Cyflenwi Trydan, Gorchymyn Tariff Cyflenwi Trydan 2012, Erthyglau 68 a 74 o Orchymyn Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy 2015 (fel y'i diwygiwyd) ac Erthygl 49 o Orchymyn Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy 2009. |
| Scottish Power | Tachwedd 2020 | Ymchwiliad i gydymffurfiaeth Scottish Power ag Amodau Trwydded Safonol 38 o'r Drwydded Cyflenwi Nwy ac SLC 44 o'r Drwydded Cyflenwi Trydan. Mae SLCau 38 a 44 yn golygu bod angen pennu a chyflawni Cerrig Milltir Blynyddol ar gyfer gosod Mesuryddion Deallus. |

| Cwmni | Dyddiad Agor | Mater |
|---|---|---|
| Hudson Energy Supply UK Ltd | Gorffennaf 2020 | Ymchwiliad i ganfod a dorrodd Hudson Energy Supply UK Ltd reolau ynghylch bilio, darllen mesuryddion a chyfathrebu mewn perthynas â'r camau gweithredu a gymerwyd ar ei ran gan United Gas a Power Ltd. |
| United Gas and Power Ltd | Gorffennaf 2020 | Ymchwiliad i weithgareddau bilio a chyfathrebu United Gas and Power Ltd |
| Western Power Distribution | Chwefror 2020 | Ymchwiliad i Western Power Distribution a'i gydymffurfiaeth â rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth. |
| National Grid Electricity Transmission plc and SP Transmission plc | Ionawr 2020 | Ymchwiliad i ganfod a dorrodd National Grid Electricity Transmission plc a SP Transmission plc amodau eu trwyddedau a rhwymedigaethau statudol mewn perthynas â darparu a gweithredu cyswllt tanfor Western High Voltage Direct Current ("WHVDC") rhwng yr Alban a Chymru. |
| National Grid Electricity Transmission plc | Mai 2018 | Ymchwiliad i National Grid Electricity Transmission plc a'i gydymffurfiaeth â'i rwymedigaethau o dan Amod Trwydded Safonol 16 o'r Drwydded Trawsyrru |
| Utility Warehouse | Mehefin 2018 | Ymchwiliad i gydymffurfiaeth Utility Warehouse ag Amodau Trwydded Safonol 25C/0, 27.5, 27.8 a 28B o'r Drwydded Cyflenwi Trydan a'r Drwydded Cyflenwi Nwy. Ehangwyd cwmpas yr achos i gynnwys SLC 32A ym mis Hydref 2019. |
| Paypoint | Gorffennaf 2017 | Ymchwiliad i ganfod p'un a yw gofynion Pennod II Deddf Cystadleuaeth 1998 a/neu Erthygl 102 Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd wedi cael eu torri mewn perthynas â chamddefnydd posibl o sefyllfa flaenllaw gan gwmni sy'n darparu gwasanaethau i'r diwydiant ynni. |

### Gorchmynion Terfynol

Nodir isod fanylion y gorchmynion terfynol a roddwyd yn ystod y flwyddyn rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021. Rhoddwyd saith gorchymyn terfynol i'r cyflenwyr a nodir isod.

| Gorchymyn Terfynol a roddwyd | Cwmni | Pryder |
|---|---|---|
| Hydref 2020 | Symbio | Methiant i gyflawni ei Rwymedigaethau Ynni Adnewyddadwy). Roedd yn ofynnol i Symbio dalu o fewn y ffenestr taliadau hwyr a ddaeth i ben ar 31 Hydref 2020. Gwnaeth Symbio y taliad llawn ar 10 Tachwedd 2020 am y swm oedd yn weddill o £506,308.40 ar gyfer ei Rwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer 2019-2020, ynghyd â llog cronedig |
| Hydref 2020 | Nabuh Energy Limited | Methiant i gyflawni ei Rwymedigaethau Ynni Adnewyddadwy. Methodd Nabuh Energy Limited i roi sicrwydd digonol y byddai'r taliad yn cael ei wneud. |
| Hydref 2020 | Robin Hood Energy | Methiant i gyflawni ei Rwymedigaethau Ynni Adnewyddadwy a thaliad lefelu y Tariff Cyflenwi Trydan. |

Yn ogystal â hyn, rhestrir isod fanylion am yr hysbysiadau ymgynghori ar gyfer Gorchymyn Terfynol lle na roddwyd un gennym.

| Dyddiad codi ymgynghoriad | Cwmni | Pryder | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| Tachwedd 2020 | Utilita Energy Supply Limited | Gofyniad Utilita i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod unrhyw fesurydd trydan neu nwy a gaiff ei osod yn lle hen un, ac unrhyw fesurydd trydan neu nwy newydd a gaiff ei osod, neu y trefnir iddo gael ei osod gan y trwyddedai yn rhan o system mesurydd deallus ail genhedlaeth (SMETS2). Nodir y gofyniad hwn yn SLC 39.7 ac SLC 33.7 o'r trwyddedau cyflenwi trydan a nwy yn y drefn honno ("Amod NRO"). | Gwnaethom benderfynu na fyddwn yn cymryd camau pellach yn erbyn Utilita mewn perthynas â'i gydymffurfiaeth ag Amod NRO am y tro. Fodd bynnag, caiff cydymffurfiaeth Utilita ag Amod NRO ei adolygu'n rheolaidd a gellir rhoi Hysbysiad arall o Gynnig i wneud Gorchymyn Terfynol a/neu Hysbysiad i osod Cosb maes o law ac os byddwn yn fodlon bod Utilita wedi mynd yn groes i Amod NRO neu ei fod yn gwneud hynny, a bod hynny'n briodol. |
| Hydref 2020 | Tonik Energy | Methiant i gyflawni ei Rwymedigaethau Ynni Adnewyddadwy a thaliad lefelu y Tariff Cyflenwi Trydan. | Peidiodd Tonik â masnachu ar 26 Hydref 2020. Gwnaethom benderfynu peidio â chyhoeddi Gorchymyn Terfynol. |
| Hydref 2020 | MA Energy | Methiant i gyflawni ei Rwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy. | Gwnaeth MA Energy Limited daliad llawn o £1,385,749.72, gan gynnwys llog, a sicrhau cydymffurfiaeth â'i Rwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer 2019-2020 |
| Hydref 2020 | Co-operative Energy Limited | Methiant i gyflawni ei Rwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy. | Gwnaeth Co-operative Energy Limited daliad llawn am y £5,359,946.40 oedd yn weddill, gan gynnwys llog, a sicrhau cydymffurfiaeth â'i Rwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer 2019-20 |
| Hydref 2020 | Flow Energy Limited | Methiant i gyflawni ei Rwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy. | Gwnaeth Flow Energy Limited daliad llawn o £2,646,022.32 gan gynnwys llog, a thaliad y broses gydfuddiannol o £40,276.44 a sicrhau cydymffurfiaeth â'i Rwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer 2019-2020 |

Rydym hefyd wedi nodi canlyniadau'r Gorchmynion Terfynol a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn hon. Rhoddwyd gorchymyn terfynol Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy Symbio Energy Ltd yn ystod y flwyddyn ariannol hon a daw i ben o fewn y un flwyddyn.Rhoddwyd y Gorchmynion Terfynol ar gyfer Enstroga Ltd, Entice Energy Supply Limited, Daligas Ltd, Euston Energy a Symbio Energy Ltd mewn perthynas â'u cydymffurfiaeth defnyddiwr DCC yn ystod y flwyddyn flaenorol ond daeth i ben o fewn y flwyddyn hon.

| Gorchymyn Terfynol a ddaeth i ben | Cwmni | Canlyniad y Gorchymyn Terfynol |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2020 | Symbio Energy Limited | Gwnaeth Symbio daliad i'r Awdurdod i setlo ei Rwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn llawn ar gyfer cyfnod y rhwymedigaeth sef 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020, sef swm o £506,308.40, ynghyd â llog cronedig.Bodlonodd y gofynion a nodwyd yn y Gorchymyn Terfynol. Gwnaethom gyhoeddi Gorchymyn Diddymu ar 14 Rhagfyr 2020. |
| Gorffennaf 2020 | Enstroga Limited | Cymerodd Enstroga Ltd yr holl gamau angenrheidiol i ddod yn ddefnyddiwr DCC. Bodlonodd y gofynion a nodwyd yn y Gorchymyn Terfynol. Gwnaethom gyhoeddi Gorchymyn Diddymu ar 14 Gorffennaf 2020. |
| Gorffennaf 2020 | Entice Energy Supply Limited | Cymerodd Entice Energy Ltd yr holl gamau angenrheidiol i ddod yn ddefnyddiwr DCC. Bodlonodd y gofynion a nodwyd yn y Gorchymyn Terfynol. Gwnaethom gyhoeddi Gorchymyn Diddymu ar 3 Gorffennaf 2020. |
| Mai 2020 | Daligas Limited | Cymerodd Daligas Ltd yr holl gamau angenrheidiol i ddod yn ddefnyddiwr DCC. Bodlonodd y gofynion a nodwyd yn y Gorchymyn Terfynol. Gwnaethom gyhoeddi Gorchymyn Diddymu ar 28 Mai 2020. |
| Mai 2020 | Euston Energy Ltd (masnachu fel Northumbria Energy) | Cymerodd Euston Energy Ltd yr holl gamau angenrheidiol i ddod yn ddefnyddiwr DCC. Bodlonodd y gofynion a nodwyd yn y Gorchymyn Terfynol. Gwnaethom gyhoeddi Gorchymyn Diddymu ar 11 Mai 2020. |
| Mai 2020 | Symbio Energy Limited | Cymerodd Symbio Energy Limited yr holl gamau angenrheidiol i ddod yn ddefnyddiwr DCC. Bodlonodd y gofynion a nodwyd yn y Gorchymyn Terfynol. Gwnaethom gyhoeddi Gorchymyn Diddymu ar 11 Mai 2020. |

# Appendix III
# Cyflogeion nad ydynt ar y gyflogres

**Tabl 1:** Ymrwymiadau gweithwyr nad ydynt ar y gyflogres sy'n cael cyflog uchel ar 31 Mawrth 2021, sy'n ennill[30] y dydd neu fwy.

| **Nifer yr ymrwymiadau presennol ar 31 Mawrth 2021** | **10** |
|---|---|
| O'r cyfanswm hwnnw: | |
| Nifer sydd wedi bodoli < 1 flwyddyn | 5 |
| Nifer sydd wedi bodoli am gyfnod rhwng 1 a 2 flynedd | 5 |
| Nifer sydd wedi bodoli am gyfnod rhwng 2 a 3 flynedd | 0 |
| Nifer sydd wedi bodoli am gyfnod rhwng 3 a 4 flynedd | 0 |
| Nifer sydd wedi bodoli am 4 blynedd neu fwy | 0 |

**Tabl 2:** Yr holl weithwyr nad ydynt ar y gyflogres sy'n cael cyflog uchel oedd yn ymrwymedig ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021, yn ennill £245 y diwrnod neu fwy.

| **Nifer y gweithwyr dros dro nad ydynt ar y gyflogres oedd yn ymrwymedig** | **10** |
|---|---|
| yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 | |
| O'r cyfanswm hwnnw: | 0 |
| Nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth ar gyfer rhai nad ydynt ar y gyflogres[31] | 9 |
| Yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth ar gyfer rhai nad ydynt ar y gyflogres a phennwyd ei fod yn cael ei gwmpasu gan IR35 | 1 |
| Yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth ar gyfer rhai nad ydynt ar y gyflogres a phennwyd nad yw'n cael ei gwmpasu gan rhiIR35 | 1 |
| Nifer yr ymrwymiadau a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfiaeth neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn | 0 |
| O'r cyfanswm hwnnw: Nifer yr ymrwymiadau a welodd newid i statws IR35 ar ôl adolygiad | |

**Tabl 3:** Ymrwymiadau unrhyw aelodau'r bwrdd nad ydynt ar y gyflogres, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021.

| **Nifer ymrwymiadau aelodau'r bwrdd nad ydynt ar y gyflogres, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol.** | **0** |
|---|---|
| Cyfanswm nifer yr unigolion sydd ar y gyflogres ac nad ydynt ar y gyflogres y tybiwyd eu bod yn aelodau bwrdd, a /neu uwch-swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigur hwn gynnwys ymrwymiadau sydd ar y gyflogres a rhai nad ydynt ar y gyflogres. | 0 |

[30] Mae'r trothwy o £245 wedi'i bennu i amcangyfrif isafbwynt y raddfa cyflog ar gyfer Uwch Was Sifil.

[31] Bydd gweithiwr sy'n darparu ei wasanaethau drwy ei gwmni cyfyngedig ei hun neu fath arall o gyfryngwr i'r cleient yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth ar gyfer rhai nad ydynt ar y gyflogres a rhaid i'r Adran gynnal asesiad i benderfynu a yw'r gweithiwr hwnnw'n cael ei gwmpasu gan ddeddfwriaeth cyfryngwyr (IR35) neu nad yw'n cael ei gwmpasu at ddibenion treth.

# Atodiad IV
## amser cyfleuster undeb llafur

### Tabl 1: Swyddogion Undeb Perthnasol

Beth oedd cyfanswm nifer eich cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol?

| Nifer y cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol | Nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|
| 14 | 14 |

### Tabl 2: Canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster

Faint o'ch cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol a gyflogwyd yn ystod y cyfnod perthnasol, wnaeth dreulio a) 0%, b) 1%-50%, c) 51%-99% neu d) 100% o'u horiau gwaith ar amser cyfleuster?

| Canran yr amser | Nifer y Cyflogeion |
|---|---|
| 0% | 0 |
| 1-50% | 14 |
| 51-99% | 0 |
| 100% | 0 |

### Tabl 3: Canran y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster

Nodwch y ffigurau y gofynnir amdanynt yng ngholofn gyntaf y tabl i bennu canran cyfanswm eich bil cyflogau a wariwyd ar dalu cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol am amser cyfleuster yn ystod y cyfnod perthnasol.

| | |
|---|---|
| Cyfanswm cost amser cyfleuster | £6,479 |
| Cyfanswm y bil cyflogau | £76.058 million |
| Canran cyfanswm y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster | 0.008% |

### Tabl 4: Gweithgareddau undeb llafur â thâl

Fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl, sawl awr a dreuliwyd gan gyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol ar weithgareddau undeb llafur â thâl?

| | |
|---|---|
| Amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl, wedi'i chyfrifo fel a ganlyn: (cyfanswm yr oriau a dreuliwyd gan swyddogion undeb perthnasol ar weithgareddau undeb perthnasol â thâl yn ystod y cyfnod perthnasol ÷ cyfanswm amser cyfleuster â thâl) | 42% |

# Atodiad V
# Trefniadau statudol o dan Adran V o Ddeddf Cyfleustodau 2000

Mae Adran 5(1) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol bob blwyddyn ar y canlynol:

- tgweithgareddau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn; a'r
- gweithgareddau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn ystod y flwyddyn honno mewn perthynas ag unrhyw gyfeiriad a wneir ato gan yr Awdurdod.

Adroddir ar weithgareddau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn drwy gydol yr adroddiad hwn. [Ni wnaeth yr Awdurdod unrhyw gyfeiriadau at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y mae angen adrodd arnynt]

Mae Adran 5(2) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys y canlynol yn ei adroddiad blynyddol:

- Arolwg cyffredinol o ddatblygiadau mewn perthynas â materion a ddaw o dan swyddogaethau'r Awdurdod, gan gynnwys, yn benodol, datblygiadau mewn cystadleuaeth rhwng personau sy'n ymwneud â'r canlynol neu â gweithgareddau masnachol sy'n gysylltiedig â'r canlynol:
  - morgludo, cludo neu gyflenwi nwy drwy bibellau; a'r
  - cynhyrchu, trawsyrru, dosbarthu neu gyflenwi trydan;
    **(Cyfeirir at y datblygiadau hyn yn yr Adroddiad ar Berfformiad)**
- Adroddiad ar gynnydd y prosiectau a ddisgrifir yn y flaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn honno;
  **(Rhoddir adroddiad ar gynnydd yn yr Adroddiad ar Berfformiad)**
- Crynodeb o'r gorchmynion terfynol a'r gorchmynion dros dro a wnaed gan GEMA yn ystod y flwyddyn honno;
  **(Mae hwn ar gael yn Atodiad II)**
- Crynodeb o'r cosbau a roddwyd gan GEMA yn ystod y flwyddyn honno;
  **(Mae hwn ar gael yn Atodiad II)**
- Crynodeb o unrhyw hysbysiadau terfynol a roddwyd gan GEMA yn unol â REMIT yn ystod y flwyddyn honno;
  **(Mae hwn ar gael yn Atodiad II)**
- Adroddiad ar unrhyw gyfryw faterion eraill ag a all fod yn ofynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol o bryd i'w gilydd.

Mae Adran 5(2A) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys adroddiad ar y canlynol yn ei adroddiad blynyddol

(a) y ffyrdd y mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 132(1) a (2) o Ddeddf Ynni 2013 mewn perthynas â datganiad strategaeth a pholisi a ddynodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (i'r graddau yr oedd y dynodiad datganiadau mewn grym am y flwyddyn gyfan neu ran ohoni);

(b) i ba raddau y mae'r Awdurdod wedi gwneud yr hyn a nodir mewn blaenraglen waith neu ddogfen arall fel y pethau roedd yr Awdurdod yn bwriadu eu gwneud yn ystod y flwyddyn wrth roi ei strategaeth ar waith ar gyfer datblygu'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau polisi yn y datganiad strategaeth a pholisi.

**(Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dynodi datganiad strategaeth a pholisi sy'n gymwys ar gyfer y flwyddyn adrodd hon)**

Mae Adran 5(3) o'r Ddeddf Cyfleustodau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod nodi yn ei adroddiad blynyddol unrhyw gyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag a34(3) o Ddeddf Nwy 1986 neu a47(2) o Ddeddf Trydan 1989.

**(Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud unrhyw gyfarwyddiadau cyffredinol o'r fath)**